 pedair odl yr Englyn mewn pedair bogail amrafael, a hwnnw a elwir
 Proest y bogailiaid, fal y mae hwn.

Doeth ei Feirdd heirdd hardd westi
 Hael Ruffydd o'i rydd a'i ra
 Cymraw pan ddelit Cymro
 Cymreist addwyndawd Cymru.

Gweithiau eraill y terfyna Englyn Proest dalgron yn y Cydseiniaid,
 pan derfyno pedair awdl yr Englyn yn yr un cydsain, ac o amrafael-
 ion fogailiaid, fal y mae hwn.

Dy garu gorhoen eglur
 Angharad gwenwynfrad gwyr
 Hoyw gangen hy a gyngor
 Hawl enaid y direidwr.

Gweithieu y terfyna yr Englyn mewn Dipton dalgron, fal y mae
 hwn.

Angharad hoyw leuad liw
 Ynghyfraith lewych i aeth law
 Wyf o'th gariad glwysgad gliw
 Ynfyd drwy benyd ym byw.

Lledd Broest gweithieu y terfyna yn y bogeiliaid, pan derfyno
 pedair odl yr Englyn mewn pedair lleddf Dipton amrafael, fal y mae
 hwn.

Cae a gefais dawngais doe
 Cu fydd cof rhydd rhydd rhodd er fei
 Yn eil groes ym oes a mwy-
 Anwyl greir cywir yw'r cae.

Gweithieu eraill yn y Cydseiniaid, pan derfyno pedair odl yr
 Englyn mewn pedair Lleddf Dipton amrafael ar yr un cydsein, fal y
 mae hwn.

Llawen dan gaer wenn lenn laes
 Lleddf olwg gloyw amlwg glwys
 Llathr lun manol a folais
 Llaryaidd foneddigaidd foes.

Proest Gadwynawg a fydd pan fo'r odl gyntaf i'r Englyn yn ateb
 i'r drydedd, a'r ail yn ateb i'r bedwaredd; a weithieu y bydd Proest
 Gadwynawg dalgron, fal y mae hwn.

Mynnwn cyt yt gwegawn gwg
 Men dy gael rhin adael rheg
 Ynghobant yngobell mwg
 Ynghobeith tywyn waith teg.

Weithieu eraill y bydd Lleddf-broest Gadwynawg fal y mae yr
 Englyn hwn.

Na'r haul yn hwyl awyrneid
 Na'r lloer nid gwell y cliwyd
 Yn llathr wiw wedd yn llathreid
 Yn llathru fo Lleucu Llwyd.

Englyn o'r Hen Ganiad a fydd o deir awdl, ac weithieu y bydd o
 dri geir byrrion, o seith sillaf bob un o honynt, fal y mae hwn.

Chwerddid Mwyalch mewn celli
 Nid ardd, nid erddir iddi
 Nid llawenach neb no hi.

Weithieu eraill y bydd o Bennill hir o un Sillaf ar bymtheg, a
 phennill byrr o seith sillaf, fal yr Englyn hwn.

Onid ynad a darllead
 Llyfrau a'i eiriau wastad
 Araith mewn cyfreith ni ad.

Mesur Englyn Unawdl nac uniawn fo, na chrwcca, yw deg sillaf ar
 hugaint, un ar bymtheg yn y gair hir, a seith ymmhob un o'r ddau air
 fyrrion ac yn y pennill hir, gweithieu y bydd yr awdl gyntaf i'r geir
 yn y seithfed sillaf, ac yn y gair toddiedig dros yr awdl, a fydd tri sillaf-
 awg ; gweithieu eraill y bydd yr awdl yn yr wythfed sillaf, ac yna y
 geir toddiedig dros yr awdl a ddily fod yn ddeu-sillafawg ; gweithieu
 eraill y bydd yr awdl yn y nawfed sillaf, ac yna y geir toddiad dros yr
 awdl a ddily fod yn un sillafawg ; ac yn un wedd a hynny y bydd y
 cwbl o doddeid, ac yn unwedd y pennill hir o wawddodyn.

Mesur Englyn Proest yw wyth sillaf ar hugaint, seith mewn pob un
 pedwar pennill. Mesur Englyn Cyrch yw wyth sillaf ar hugaint,
 seith sillaf mewn pob un o'r ddeu pennill fyrrion, a phedwar ar ddeg
 yn y pennill hir, a'r sillaf gyrech yn hwnnw a ddily fod yn y seithfed
 sillaf, a'r sillaf a gyreher a ddily fod yn unfed sillaf ar ddeg. Ac felly
 y terfyna Mesurau yr Englynion, a'u Hamcanau.

Hyd yma y dywedpwyd am yr Englynion, dywetter bellach am yr
 Eil Geinge o Brydyddiaeth, nid amgen am *Awdlau*, a'u *Mesurau*, a'u
Hamcanau.

Pump Mesur cyffredin a fu o'r dechreuad ar *Awdlau*, nid amgen
Toddeid a *Gwawddodyn*, a *Cyhydedd hir*, a *Chyhydedd ferr* a
Rhupunt.

Toddeid a fesurir o bedair sillaf ar bymtheg bob pennill, fal y mae
 yr Awdl hon.

Nid digerydd Duw neud digariad.—Cyrdd
 Neud lliw gwyrdd i fyrdd o feirdd yn rhad
 Neud llunaws frwyn cwyn canwlad ynghystudd
 O'th attal Ruffydd wayw-rudd roddiad.

a'i chynnal felly hyd y pen.

Gwawddodyn a fydd o ddau bennill fyrrion, o naw sillaf bob un o naddynt a phennill hir o bedair sillaf ar bymtheg fal y mae yr Awdl hon.

Meddylieis y dreis o dra syml fryd
 Meddwl meddw gymwyn anfwyn ynfyd
 Meddyliaf am Naf am Nawdd gyd-oesmwyth
 Nid meddwl diffryth modd ymdiffryd.

Arall,

Daroganaf Naf daroganant,
 Darogan feirdd heirdd digeirdd dygant,
 Dognoedd o wisgoedd a wisgant—o'i law
 Darf Loegr fraw canllaw cynllwg rymiant.

Cyhydedd Hir a fydd o Bennillion hirion oll o bedair sillaf ar bymtheg bob un o naddunt, ac yn y pennill hwnnw, y bydd tri phennill byrrion, deu o bump sillaf bob un o honynt, a phob un o honynt yn ateb i'w gilydd, a phennill arall o naw sillaf, ac yn y bumped sillaf yn ateb i'r ddeu bennill gyntaf, ac wrth ddiwedd odl yn y pennill cyntaf y cynhelir yr Awdl oll, fal y mae hon.

Trindawd parawd pur	}	mur mireinwch
Traws maws moes eglur		
Trwy rad mad modur		
Tra fi Rhi rhadlawn	}	digawn degwch
Trafni Tor dyfnfor dawn		
Tref, Nef, Naf cyfiawn.		

A'i chynnal hyd y pen.

Arall.

Llefaru a wnafl	}	gelfydd arfer
Llywiawdr nef a'i Naf		
Llyw nerth y galwaf		
Llyma fy namwein	}	llun mein muner
Llym foli rhiein		
Llaryaidd bryd mirein		

Cyhydedd Ferr a fydd o bennillion byrrion oll, o wyth sillaf bob un o honynt, fal y mae hon.

Gwan wyf o glwyf yn glaf trym heint
 Gwenn fraeth a'm gnaeth gne gofeilieint
 Gweneith yw gweith y gwythlawn ddeint
 Gwynder Lleufer Lloer am blygeint.

Rhupunt a fydd o bennillion hirion oll, o ddeuddeg sillaf bob un o honynt, ac yn y pennill hwnnw y bydd tri phennill byrrion, o bedair sillaf bob un o naddynt, a'r ddeu gyntaf yn ateb bob un i'w gilydd; ac wrth ddiwedd odl y pennill diweddaf, yn cynhelir yr Awdl oll, a'r eil sillaf o'r trydydd pennill yn ateb i'r ddeu bennill eraill; fal y mae hon.

Trindawd ffawd ffer	}	gwarder gwirdad.
Tref, nef, nifer		
Trech wyd no neb	}	treiddiwn attad.
Trwy ddawn ateb		

Gwedy hynny y dychymmygwyd pedwar Mesur eraill; nid amgen; *Byrr a Thoddeid*, a *Gwawdodyn Hir*, a *Chyhydedd Naw ban*, a *Chlogymach*.

Byrr a Thoddeid o bennill hir yn gyntaf o un sillaf ar bymtheg, megis dryll Englyn un awdl; ac oddi yna cymmaint ac a fynner o bennillion byrrion o wyth sillaf bob un o naddunt, ac oddi yna pennill hir o un sillaf ar bymtheg, megis y cyntaf, a'i chynnal felly hyd y penn, fal y mae yr Awdl hon.

Tomas a Rhoppert rhwydd par—gwersyllig
 Rhwyf rhyfig rhyfelgar
 Rhuthr aruthr a areithraw esgar
 Rheithion gawr rhwythawr llawr llachar
 Rhwym cymgin cynegy diwatwar
 Rhwym cedyrn neud cadarno far
 Rhwyg tan a gwyfan fal twrf gwynniar—drut
 Molut clut clot waegar.

Arall.

Y gwr am rhoddes rhinieus— ar dafawt
 Ac ar wawt a geirieu
 Am troses i gyffes nid geu
 Am troso i'r trosedd goreu
 I guriaw gorwieg fy ngruddieu
 I garu Mab Duw diameu
 I gymryt penyt rhag poenau—uffern
 Ac affaeth pechodeu.

Gwawdodyn Hir a fydd o Bennillion byrrion, o naw sillaf bob un o honynt, a phennill hir o bedair sillaf ar bymtheg, un ffurf a Gwawdodyn arall, eithr bod o bennillion byrrion yn ddau gymmeint ac a fynner, fal y mae hwn yn ddrych amcan.

Gwann iawn wyf o glwyf er gloyw forwyn
 Gwae a faeth hiraeth brif arfaeth brwyn
 Gwyr fy ngalon donn ddefnydd fy nghwyn
 Gwr ar fyrr ennyd cyn bo terwyn
 Am na ddaw i lawr lwyn—a bwyllaf
 A garaf attaf ateb addfwyn.

Cyhydedd Naw bann a fydd o bennillion byrrion oll, o naw sillaf,
 bob un o honynt, fal y mae hwnn.

Wrhyd Greawdr byd, bid fy nghobaith
 Wrthyf bydd drugar hywar hyweith
 I'th argae neud gwae nid gwael y gweith
 Wrth ddynion gwylion y bo goleith
 Wrth hynny Duw fry frenhin pob ieith
 I'th archaf dangnef ceinllef canlleith.

A'i chynnal felly hyd y penn.

Clogyrnach a fydd ddeu bennill fyrrion o wyth sillaf pob un o
 honynt yn ateb i'w gilydd, a phennill o un sillaf ar bymtheg, ac yn
 hwnnw y bydd y tri phennill byrrion, deu o bump sillaf pob un o
 honynt, ac yn ateb i'w gilydd yn yr amrafaelion odlau ar y ddeu
 bennill gyntaf, a phennill arall hir o chwech sillaf, ac yn y trydydd
 sillaf o honaw yn ateb i'r ddeu bennill fyrrion diwethaf, a diwedd
 odl y Pennill hwnnw yn ateb i'r ddeu bennill gyntaf, ac wrth y rhai
 hynny y cynnhelir yr Awdl oll ; fal y mae yr Awdl hon.

Y Barrau arfau arfolach
 Y Bebyll, y byll, y hall coch,
 Am iwch feirdd i fudd
 Emrych llys nyw lludd
 Enwys rudd
 Rhuthr gwyddfoch.

A'r modd hwnnw a elwir dull Cynndelw.

Tri Mesur eraill a feddyliawdd Einiawn Offeiriad, nid amgen—*Hir
 a Thoddaid, Cyrch a Chwta, a Thawdd Gyrc Gadwynawog.*

Hir a Thoddaid a fydd o bedwar pennill byrrion, o ddeg sillaf bob
 un o honynt, a phennill hir o ugain sillaf fal y mae hwnn.

Gwynfyd gwyr y byd oedd fod Angharad
 Gwenfyn yn gyfyn a'i gwiw fawr gariad
 Gwan llun am lludd hun hoen dwg barabliad
 Gwyn lliw Ery difryw difrys gymdeithiad
 Gwenn dan aur wiwlenn leddedrychiad—gwyl
 Yw fanwyl yn ei hwyl heul gymmeriad.

Cyrch a Chwta a fydd o chwech geir byrrion, o seith sillaf bob un
 o honynt, a phennill o bedair sillaf ar ddeg, a gair gyrc ynddaw, fal
 y mae hwn.

Llithrawdd ys rhannawdd is rhad
 Llathr gof ynof anynad
 Lloer Cymru cymraist dyad
 Llwy'r y gnaeth mygr arfaeth mād
 Lleas gwas gwys nas dywad
 Lliaws geir hynaws gariad
 Lledd gein riein llun meinwar
 Lliw llewychgar Angharad.

Tawdd Gyrc'h Gadwynawg a fydd o gyplau hirion o *bedair sillaf ar hugain* yn y cwpl; ac yn y cwpl hwnnw y bydd pedwar pennill, o un sillaf ar bymtheg pob un o honynt, ac y pennill hir hwnnw y bydd tri phennill byrrion, deu o bedair sillaf bob un o honynt, a phennill arall o wyth sillaf; a'r ddeu bennill fyrrion gyntaf o'r pennill hir cyntaf pob un o naddunt, yn ateb i bob un o'r ddeu bennill gyntaf o'r eil pennill hir; nid amgen, y cyntaf i'r cyntaf, yr eil i'r eil o'r bedwarydd sillaf o'r pennill byrr wythsillafawg; a'r pedwar pennill byrrion cyntaf, i'r ddeu bennill hirion diwethaf, yn ateb pob un i'w gilydd, a diwedd odl pob un o'r pedwar pennill hirion yn ateb i'w gilydd, ac nid rhaid ateb o fwy no'r cwbl pedwar pennillawg oni mynner, eithr rhaid yw eu bod yn cynhogion o diwedd i ddiwedd y cwpl hwnnw dechreu y llall; a diwedd yr holl Awdl yn ateb i'r geir cyntaf o'r dechreu; a'r modd hwnnw a gaffad o'r mydr wrth y modd Lladin, fal y mae yr Awdl hon.

Buddiant i feirdd Byrddau dramwy Dra mawr ofwy	} Ofec hael Nudd.
Hoywon a heirdd Gan hardd facwy Fyddant hwy rwy	} Oe rā a'i rudd.
Arfau pybyr Erfai dymyr Arfawg frehyr	} Ardd gwyr gwaywrudd.
Arial milwyr Eiriau myfyr Eryr Rhyswyr	} Rhys ab Gruffydd.

Ac felly y terfyna Mesurau yr Odlau, a'u Hamcanau.

Hyd hynn y dywedpwyd am a ddwy Geinge gyntaf o Brydyddiaeth, nid amgen am Englynion ac Awdleu; dywetter bellach am y drydedd Geinge, nid amgen *Cywydddeu*, a'u Mesureu, a'u Hamcanau.

Tri rhyw Gywydd sydd; Cywydd denair ac Awdl Gywydd, a Chywydd Llosgyrniawg.

Deu ryw Gywydd Deuair y sydd; Cywydd Deuair Hirion, a Chywydd deuair fyrrion.

Cywydd Denair Hirion a fesurir o seith sillaf pob un o'r ddeuair, fal y mae hwn.

March ffyrf archgrwn byrr ei flew,
Llyfn llygatrwlh pedreindew
Cyflwyd coflith genchym gaff
Cyflym cefnyfyr cadarn graff
Cyflawn o galon a chig
Cyfliw blodau'r banhadl frig

A'i gynnal felly hyd y penn.

Cywydd Denair Fyrrion a fesurir o bedair sillaf, pob un o'r ddeu air, fal y mae hwnn.

Hardd deg riein
Hydwl lwysgein
Hoyw liw gwenig
Huan debyg
Hawdd dy garu
Heul yn llathru.

Awdl Gywydd a fesurir o bedair sillaf ar ddeg, a chyrch ynddaw ac nawdl y bydd y Cywydd oll, fal y mae hwn.

O gwrthody liw ewyn
Was difelyn gudynneu
Yn ddiwladeidd da i len
A'i awen yn ei'lyfreu
Cael yt filein aradrgaeth
Yn waeth waeth ei gynneddfe.

A'i gynnal felly hyd y pen.

Cywydd Llosgyrniawg a fesurir o ddeuair, neu dri, neu bedwar, o wyth sillaf pob un o honynt, a phennill llosgyrniawg yn ol seith sillaf ynddaw; ac wrth ddiwedd awdl y pennill hwnnw a cynhelir y Cywydd oll, fal y mae hwnn.

Lliw eiry manod mynydd Mynneu
Lluoedd o'th fawl gwawl gwawr deheu
Llathrlun goleu oleu ddydd
Llifoedd fy hoen o boen benyd
Lluddiawd ym hun llun bun lloer byd
Lledfryd nid bywyd i'm bydd.

A'i gynnal wrth yr Awdl hwnnw hyd y penn.

Bellach canys der yw dywedyd am deir ceinge Prydyddiaeth, nid amgen am yr Englynion, a'r Awdlau, a'r Cywyddau, a'u Hamcanau, iawn yw weithion dywedyd am y Beieu, am Cammeu, a ddylyer eu gochel y mewn pob Cerdd Dafawd canmoledig.

Mewn tri lle ar Gerdd Dafawd y gellir beiau, nid amgen, yn y *Cymmeradau* a'r *Cymghaneddau*, a'r *Odlau*, a chyd a hynny yn yr *Ystyr*, *Synwyr*, a'r *Dychymmyg*.

Y *Cymmeriadau* a fyddant mewn dechreu y pennillau, a'r *Cynghaneddeu* yn y cenol, a'r *Odlau* yn y diwedd. Pob twyll awdleu a phob twyll Cynghanedd, a phob twyll Cymeriad, Bai a Cham fydd mewn Cerdd.

Bei hefyd mewn Cerdd yw bod ynndi unig a Lluosawg ynghyd, fal pei dywettyd *Ugeimor*, yn lle, neu pan ddylyer dywedyd *Ugeimwyr*.

Bei hefyd yw Gwryw, a Benyw ynghyd, fal y dywettid *Gwraig cryf*, neu *Wr cref*, pan ddylyid dywedyd *Gwr cryf*, neu *Wraig gref*.

Bei yw gwydd ac absen ynghyd, a hynny o ddwy ffordd. Un yw pan ddotter deu amser amrafael ynghyd mewn ymadrodd, fal pei dywettid, *Mi a brydaf*, pei *gwyppwn i bwy*—pan ddylyid dywedyd, *Mi a brydwn*, pei *gwyppwn i bwy*. Eil ffordd yw pan dotter dau ddyn-weddiad amrafael ynghyd mewn ymadrawd fal pei dywettid, *Mi a wyr pryd*; pan ddylyid dyweddyd, *Mi a wn pryd*.

Bei ar Gerdd yw Trwm ac Ysgafn ynghyd, nid amgen bod y naill awdl yn dromm, a'r llall yn ysgafn.

Llymma Reol i adnabod Trwm ac Ysgawn; nid amgen, ni lluosogi y gair, a'i amlhau; megis pe byddid heb wybod beth yw *Calon*, ai Trwm, ai ysgawn; yna lluosoger ef a dywetter *Calonnau*; achaws trwm fydd yn y gair cyn ei luosogi. Ac yn un wedd a hynny oni wyddys beth yw *amcan*; ai trwm ai ysgawn, lluosoger ef a dywetter *amcanau*; yna peiriediccer y gair, a dywetter *amcanu*, ac wrth ei fod yno yn ysgafn, wrth hynny ysgawn fydd yn y cyntaf; ac ar Reol honno yr adnabydder beth yw sillaf betrus, ai un sillaf, ai dwy, fal y mae *bygwol*; lluosoger a dywetter bygylau, neu berfoccer ef a dywetter *bygylu*, a chansys tri sillafawg yw hwnnw, wrth hynny deu sillafawg yw'r llall. Ac os lluosoger *bagl*, a dywedyd *baglau*, canys deu sillafawg yw *bagleu*; wrth hynny un sillafawg yw *bagl*, can ni ddyly fod yn y gair wedi lluosogi namyn un sillaf ragor nog yn y gair cyn ei luosogi.

Bei yw mewn Cerdd bod Lledd a Thalgronn ynghyd, sef bod y naill bann yn lleddf, a'r llall yn dalgronn.

Bei ar Englyn yw Proest, ac un awdl, sef bod y neill ddryll i'r Englyn yn unawdl, a'r llall yn broest.

Bei ar Englyn yw bod mwy o odlau ynddaw na phedair, oni bydd Englyn hir, a mesur dau Englyn neu dri arnaw.

Bei ar Englyn yw bod yr un gair ynddaw ddwywaith, oni bydd deirgweith; oni *Hytgyllaeth*, neu *Ymalhawch* cariad yn eagus drostaw. *Hytgyllaeth*, fal y mae yr Englyn hwnn.

Gwrthrych eurgreir pur pendeig—ydwyf

Fi gan Dduw gwynfydedig,

Hir ei lygad Loegr adrig

A wrthrych deigr hywlych dig.

Ymalhawch cariad, fal y mae yn yr Englyn hwnn.

Gwenn dann eurwiw lenn leddf edrychawl—gwyf

Y gweleis Angharad

A gwann o bryd egwan brad

Im gwyl gwylwawr Angharad.

Bei ar Englyn yw bod moliant a gogan ynghyd ynddaw, mal pei dywettid, *Gwraig deg ddisiml annuweir*.

Bei ar Englyn Unawdl yw ei fod yn *garny mordiwee*, sef yw hynny bod pob un o'r ddeu bennill fyrrion lluaws sillafawg, fal y mae hwnn.

Pei prynwn seith pwenn sathr grug—o'th oleu
Pedolau pwy gaddug
Mangre grawnfaeth saeth saethug
Mein a'i nadd yn heiraddug.

Bei ar Englyn Unawdl yw ei fod yn Dinab, sef yw hynny, bod y ddeu bennill fyrrion, mewn Englyn yn y ddwy odl diwethaf, yn un sillafawg, fal y mae yn yr Englyn hwnn.

Gwann iawn wyf o nwyf a naws an hun—gwael
Am ddyng gwyl gweddeidlun
Gwenn a gloyw a hoyw ei hun
Gwyn fyd gwyr y byd yw bun

Ac wrth hynny i ochel y bei hwnn, rhaid yw bod y naill odl yn unsillafawg, a'r llall yn lluaws sillafawg.

Bei yw ar bob Cerdd bod hir, a byrr, sef yw hynny, bod y neill geir yn rhy hir, a'r llall yn rhy fyrr.

Bei yw Torri Mesur, a phob Camystyr, a phob ammhertlynas, ac Eisieu enaid, a Dychymmyg meddwl digrif; a mwyaf Bei ar Englyn, ac ar bob Cerdd Dafawd Canmoledig, ac ar bob Ymadrawdd, yw bod ynddaw eisieu berf, fal yr Englyn hwnn.

Cyrnig llymm trychig llam trwch—yegcrygl
Tud erthygl Tad erthwch,
Cyrn dyrn Deirnwern, cern ceirfwch,
Carn sarn darn dwrth corn hwrdd hwch.

Nid bei ar Englyn cael o arall Englyn a fo gwell nog ef, namyn o'r bydd yr Englyn un o'r Beieu cyfreithawl uchod arnaw, barner ef yn dda o bydd enaid, ac ystyr, a dychymmyg ynddaw cyd barner arall yn well, a'r trydydd yr oreu oll, herwydd y teir gradd Cymmeriad, a ddywedpwyd uchod.

Os bydd gair mewn Cerdd o ddeuystyr, neu synwyr, neu dri ystyr arnaw, ystyr da, ac ystyr drwg, os Cerdd Bryddiad fydd, barner ef herwydd yr ystyr, neu'r synwyr *da*. Os Cerdd Ddychan y bydd, barner ef herwydd y synwyr *drwg*; canys ni pryda neb er drwg, ac ni ddychana neb er da; ac os bydd Cerdd a deu ystyr dda, neu ddeu ystyr ddrwg ynddi, ac ar un geir ynghyd, barner herwydd y gweddo nesaf a goreu ystyr ymadrawdd, oni bydd cael gwybod yn hyspys bod ewyllys y caniadwr yn y gwrthwyneb.

Rhaid yw gwybod bellach pa ffurf y moler pob beth, os y prytter iddaw.

Deu ryw beth y dylyer pryda iddaw; nid amgen peth *ysprydanol*,

a pheth *corphorawl*. Peth ysprydawl, megis y mae *Duw* a *Meir*, a'r *Seint*; peth corphorawl, megis y mae *Dyn*, neu *Lodn*, neu *le*, neu beth difwyd.

Duw a folir o ddwywolder, a chadernyd; a hollgyfoethogrwydd, a holl ddaioni, a holl ddoethineb, a holl drugaredd, a haelioni, a gwirionedd, a chyfiawnder, a gallu, a gogoniant, a mawrhydi, a dosparth barnau cyfiawn, a chariad, a nefawlder, a chreedigaeith nef a daear, a natoliaeth, ac ysprydolder, ac anrhydedd, a thegwch nefawl, a pob beth ysprydawl anrhydeddus.

Meir a folir o'i morwyndawd, a'i gwyrdawd, a'i diweirdeb, a'i thru-garedd, a'i gogoniant, a'i haelder, a'i hanrhydedd, a'i buchedd, a'i gwarder. Ac o bob arall anrhydeddus y moler ei Harglwydd Fab o naddunt Seint, a folir o sancteiddrwydd, a glendid buchedd, a gwyrthiau, a'u nerthoedd ysprydolion a'u gwenhieithed, a'u nefolion weithredoedd a'u gogoniant dwywawl, a phethau eraill ysprydawl anrhydeddus.

Dau ryw Wr a folir;—*Crefyddwr* a *Gwr Byd*.

Dau ryw Ddyn y sydd y ddyllir eu moli, *Gwr* a *Gwraig*. Dau ryw Wr Byd y sydd, *Llyg* ac *Yscolhaig*. Dau ryw Yscolhaig y sydd, Preladiaid, megis Esgyb neu Arch Esgyb, a folir o'i ddoethineb, a'i ddysg a'u prudderder a'u cymmhendawd, a'u cyfiawnder, a'u llywodraeth Eglwysig a thrugaredd, a'u haelioni, a thegwch a chadernyd yn cynnal cyfreithiau'r Eglwys, a'u trugaredd wrth Dlodion, a'u helusenau, a'u gweddiau, a'u gweithredoedd ysprydolion, a'u haelder cyfiawn, a'u cynheilid llysoedd, a'u haddfwynder, a'u pwyll, a'u gofal, a phethau eraill Eglwysig, ac anrhydeddus.

Dau ryw Ddarostyngedigion y sydd, *Personieit* ac *Athrawon*.

Personieit a folir a gymmhendawd, a doethineb, a gwrdaeth, ac elusenau, a haelioni deddfawl, a defodau da, ac addfwynder, deall a bonedd, a thegwch ac addfwynder, ac bonneddigeiddrwydd defodau yn cynnal Rann Eglwysau, ac elusennau, a gweithredoedd trugarogion, a phethau eraill anrhydeddus.

Athrawon a folir o ddoethineb, a chymmhendawd, a goruchelder cyfreithiau a chanon, a thegwch a defodau da, addfwynder deall, a dyfnder athrylith, a goruchelder celfyddydau, a synwyreu buddigoliaethau yn ymrysonu, ac addfwynder, a thegwch, a bonedd, a haelioni elusendawd cynheddfeu a defodau da, a hygarwch ac alwyseneu, ac ymbwyllgarwch, a phethau eraill ysgolhieigieidd a phwylliedigawl.

Deu Wr Llyg a folir,—*Arglwydd* a *Breyr*. Arglwydd a foler o feddiant a gallu, a milwriaeth, a gwrhydri, a chedernyd, a balchder, ac addfwynder, a doethineb, a chymmhendawd, a haelioni, a gwarder, ac addfwyndawd moesau, ac hegarwch wrth ei wyr a'i gyfeillion, a thegwch pryd a thelediwrwydd corph, a mawrfrydwch meddwl, a mawrhydu gweithredoedd a phethau addfwyn anrhydeddus.

Breyr a folir o ddewrder, a glewder a chadernyd, a chryfder milwriaeth a chywirdeb wrth ei Arglwydd, a doethineb, a chymmhendawd, a haelioni, a digrifwch, a theledigrwydd corph, a molianusder meddwl, a bonedd, a phethau eraill canmoledig.

Crefyddwr a folir o grefydd, a sancteiddrwydd, a glendid buchedd, a meddyliau dwywolion, a nerthoedd ysprydolion, a gweithredoedd trugaredd, a haelioni, cardodau er Duw, ac bethau eraill nefolion ysprydawl a berthyn ar Dduw, a'r Seint, ac ar addwynhâd moes a defawd.

Their rhyw Wraig a folir, *Gwraig-dda*, a *Rhiein*, a *Chrefyddwraig*.

Gwraig-dda a folir o ddoethineb a chymhendawd, diweirdeb, a haelioni, a thegwch pryd, a gwedd, a ffurf, a ddisimlder ymadrawdd, a gweithredoedd, a defodau da; ac ni pherthyn moli gwreig-dda o herwydd serch, a chariad ac ni pherthyn iddi ordderch Gerdd.

Rhiein a folir o bryd, a gwedd, a bonedd, a thegwch, a chymhendawd, a disimlder, a molianusrwydd, a boneddigeiddrwydd campau, a serch, a lledneisrwydd a charedigrwydd, ac iddi y perthyn serch a chariad; ac yn un wedd a hynny y molir Mab.

Crefyddwraig a folir o sancteiddrwydd, a diweirdeb, a glendid buchedd, a phethau eraill dwywawl megis Crefyddwr.

A litera. i. e.

Crefyddwr, a Chrefyddwraig a folir o sancteddwrwydd, a glendid buchedd, a chardodau, a molianrwydd Duw a'r Seint, a Seilem, a gweddiu, ac ymprydieu, a gweithredoedd ysprydolion, a phob perffeithrowydd, ar a berthyno ar foliant Duw a'r Seint.

Ni pherthyn ar Brydydd ymyrru ar glerwriaeth er arfer o honi, canys gwrthwyneb yw i greffteu prydydd; canys ar Glerwr y perthyn goganu, ac anghlodfori, a gwneuthur cywilydd, a gwaradwydd.

Ar y Prydydd y perthyn canmawl, a chlodfori, a gwneuthur clod, a llawenydd, a gogoniant, a chyda hynny, ni ellir dosparth ar glerwriaeth, canys cerdd anosparthus yw, ac am hynny nac ymmyrred Prydydd ynddi, can mae yspeiddeid ydyw.

Ef a berthyn hagen ar Brydydd ymyrru ar Deuluwriaeth, a barnu arnei; canys cerdd ddosparthus a ddiagybliaeth Prydyddiaeth ar hen fordd, ar ganu cyn deall ar cynghanedd.

Yn y lle y prytto Prydydd ni pherthyn credu gogan Clerwr, canys trech y ddyly bod moliangerdd Prydydd no gogangerdd Clerwr.

Swynoglau, a dewindabaeth, a charyau hudoliaeth ni rwy berthyn ar Brydydd ymyrru ynddynt, nag arfer o honynt, canys addwyn, ac aneddf hynny iddaw.

Hen Gerdd ac Ystoriau ysgrifenedig o Gofynnau o anrhyfeddod, ac odidawg atebion herwydd celfyddyd, a gwirionedd, da yw i Brydydd eu gwybod wrth ymddiddan a doethion, a diddannu Rhianod, a digrifhau gwyr da, a gwragedd da; canys cyfran o ddoethineb amcanawl yw Prydyddiaeth, ac o'r Yspryd Glan, yr henyw ai hawen a geffir o ethrylith, a chelfyddyd arfer; a llymma y nerthoedd ysprydolion a berthynant ar Brydydd, nid amgen hufudd-dawd, a haelioni deddfawl, a diweirdeb, ac ysprydawl gariad, a chymmedrollder bywyd, a llymna, a hynawsder, a dilesgrwydd dwyfawl, y rheiny sydd wrthwyneb i'r seith bechawd marwol, nid amgen, balchder, a chynghorfeint trahans a chybyddiaeth, a godineb, a glythineb, a llid, a lleagedd, y rhai a lesgant y corph, ac a laddant yr enaid, ac a lygrant Awen Prydyddiaeth, a hylant y synwreiu.

Hyd hynn y dywetpwyd am deir ceinge Prydyddiaeth, ac a berthyn arnynt, nid amgen Teuluwriaeth, Clerwriaeth, a Prydyddiaeth, dywetter bellach am

DRIOEDD CERDD.

1. Tri Bei cyffredin sydd ar Gerdd ;—Torr Mesur, Drwg Ystyr, a Cham Ymadrawdd.
2. Tri thorr Mesur y sydd ; Hir a byrr, a Gormodd odlau, a Thwyll odl.
3. Tri rhyw ddrwg ystyr y sydd ; eisieu enaid, cam ddychymmyg, ac ammerthynas.
4. Tri cham ymadrawdd y sydd ;—unig a lluosawg ynghyd ; Gwrw y a Benyw ynghyd ; a gwydd ac absen ynghyd.
5. Tri ammerthynas Cerdd y sydd ; moliant a gogan ynghyd ; rhyw ac eisieu ynghyd ac anlyc.
6. Tri Bei gwahanredol y sydd ar Gerdd ; Trwm ac Ysgawn ynghyd ; Lledd a Thalgron ; Proest ac unawdl.
7. Tair Rhan ymadrawdd y sydd ; Enw, Rhagenw, a Berf.
8. Tri rhyw ymadrawdd y sydd ; ymadrawdd perffaith, ymadrawdd cyfiawn, ac ymadrawdd ddurn.
9. Tair Rhan Prydyddiaeth y sydd ; Sillaf, Gair, ac Ymadrawdd.
10. Teir rhyw Sillaf y sydd ; Sillaf dalgronn, sillaf leddf, a sillaf Dipton.
11. Teir sillaf dalgronn y sydd ; Dipton dalgronn, a Thalgronn leddf, a Thalgronn gotta.
12. Teir sillaf leddf y sydd ; Pengam leddf, cadarn leddf, a thawdd leddf.
13. Teir sillaf dipton y sydd ; Dipton dalgronn, a dipton leddf, a dipton wib.
14. Teir dipton gymmeriad, a chymmysg y sydd ; Dipton dalgronn leddf ; dipton bengam leddf, a dipton dawdd leddf, neu gadarn leddf.
15. Tair Rhyfedd ddipton y sydd ; dipton ddieithr, a dipton losgyrnawg, a dipton wib.
16. Tair dipton odidawg ganiad y sydd ; Dipton dalgronn leddf, a dipton losgyrniawg, a dipton gadarn leddf.
17. Tair sillaf gadarn leddf ganiad y sydd ; Trom leddf ; byddar leddf, a chadarn leddf.
18. Tair sillaf ysgawn ganiad y sydd ; sillaf dalgronn ; a sillaf bengam leddf, a sillaf fud.
19. Tair sillaf ddieithredig y sydd ; Dipton ddieithr, a bogail ymlaen bogail, a dipton wib.
20. Tair dipton y sydd ni cheir proest yn eu herbyn ; Dipton dawdd leddf, dipton dalgronn, a dipton wib.
21. Tri Bei gwahanredawl y sydd ar Englyn unawdl ; Carnmorddiwes, a thinab, a drwg osodiad ar odlau.
22. Tri pheth a gywreiniant ymadrawdd ; Cyfansoddiad gweddus ar y geiriau, a chyfiawnder ar ddychymmyg, a lliw.

23. Tri pheth a amherffethiant ymadrawdd ; amherthynas, a cham ystyr, a eisieu enaid.

24. Tri pheth a gydfreiniant ymadrawdd ; ac a'u teilyngant ; Ehdurwydd, ac huolder parabl, a chywraideb synwyr, ac anianawl ddeall y dadganiad.

25. Tri pheth a anghywreiniant ymadrawdd ; Pwl-ddadganiad, ac anghywreindeb synwyr, ac anystyriol ddeall y parablwr.

26. Tri rhyw Gerddor y sydd ; Clerwr, Teuluwr, a Phrydydd.

27. Tri pheth a berthynt ar glerwr ; goganu, ymbil, a gwarthrudd-iaw.

28. Tri pheth a berthynant ar Deuluwr ; cyfanneddu a haelioni, a digrifwch, ac erfyniad da yn deuluwraidd heb rwy ymbil am denynt.

29. Tri pheth a berthynant ar Brydydd ; clodfori, a digrifhau, a gwrth neu gogan gerdd y clerwr.

30. Tri unben cerdd ; Prydu, a dadganu, a chyfrwyddyd.

31. Tri pheth a anurddant gerdd ; ei datgen yn anamser, heb ei gofyn, a chanu yn amherthynas, nid amgen nogir neb nis dyleu, ac eisieu cerddwr i'w barnu.

32. Tri pheth a urddant gerdd ; Ehdurwydd, a ehofnder parabl, ac ethrylith y datgeiniad, ac awdurawd y Prydydd.

33. Tri pheth a hoffant gerdd ; Dyfnder synwyr, a'i ystyr, odidawg ddychymmyg, ac awdurawd y Prydydd.

34. Tri pheth a anhoffant gerdd ; basder synwyr, a sathredig ddychymmyg, ac anurddas y Prydydd.

35. Tri pheth a gywreiniant ar gerdd gywreïn-cyfansoddiad ymadroddion, ac amllder Cymraeg, wrth ei chyfansoddi, a dychymmyg ar y gerddwriaeth wrth gyfansoddi y Gerdd.

36. Tri pheth a anghywreiniant Gerdd, eisieu modd i gyfansoddi ymadroddion, ac amllder Cymraeg, ac angherddwriaeth.

37. Tri pheth a beir i Gerddwr fod yn aml ei Gerdd ; cyfarwyddyd ystorieu, a barddoniaeth, a hen gerdd.

38. Tri pheth a bylant awen cerddwr ; anghyfarwyddyd, angherddwriaeth, ac anghanmawl.

39. Tri pheth a lygrant o gwbl awen cerddwr ; tra meddwdawd, a thra godineb, a ysgymmundawd.

40. Tri pheth a ddyly Prydydd eu gochel ; Llynna (Liquor) a Phuttein, a Chlerwriaeth.

41. Tri pheth a ddyly Cerddwr eu canmawl ; haelioni, ddigrifwch, a clerwriaeth.

42. Tri pheth a fawrhaa Cerddwr ; gwisgoedd, a chydnabod, a chanmawl.

43. Tri pheth a ddistrywant gerddwr ; noethni, ac anghydnabod, ac anghanmawl.

44. Tri pheth ni chyngan mewn cerdd ; anwadalwch, ac ysmalhawch, ac angherddwriaeth.

45. Tri pheth y cae cerdd arnaw, heb fyned yn eu herbyn ; hen gerdd yr hen brydyddion, a dychymmygawl awdurawd y prydyddion newydd, a chelfyddyd y gerddwriaeth.

46. Tri rhyw Broest y sydd ; Proest dalgronn, a phroest gadwyn-awg, a lleddf broest.

47. Tri rhyw unodl y sydd, unodl-union, unodl cyrch, ac unodl crwcca.

48. Tri pheth a ddyly Cerddwr eu credu ; gogangerdd Clerwr yn y lle y prytto Prydydd ; canys trech y ddyly fod moliangerdd y Prydydd no gogangerdd y Clerwr. Eil yw ni ddyly gredu canu camgerdd, neu angerdd o Brydydd canmoledig, ac awdurdawd iddaw ; canys damwain yw caffael datgeiniad, a ddatgan o gerdd yn gwbl, megis y can o Prydydd. Trydydd yw ni ddyly ef gredu peth ni allo bod, herwydd y doethion, megis na ddylid ymolchi dduw Gwener, neu olchi penn dduw Mercher, can ni weheirdd y doethion un o'r pethau hynny, ac nid pwyll eu credu rhoddi coel arnynt.

49. Tri pheth nid gweddus i Brydydd ymeuogi ynddynt, nac ymarfer o honynt ; gwrth neu addysg, dywedyd celwydd yn ystig, a goganu yn ddiachos.

50. Tri pheth a lawenhaant, ac a wnant ogoniant i Gerddwr ; ei berchi, a chanmawl ei gerdd, a rhoddion gwyr da.

51. Tri pheth a goddant Gerddwr, ac a'i tristhaa ; ei hamherchi, ac anghanmawl ei gerdd, a'i naccau.

52. Tri pheth warthruddant Gerddwr ; ei anghredu, ei anghanmawl a'i chamfarnu.

53. Tri anhepgor Cerddwr ynt, Ehudrwydd parabli, ddatganu cerdd, a myfyrdawd cerddwriaeth rhag ei bod yngham anghymmeradwy, ac ehofnder i ateb a ofynner iddaw.

54. Tri pheth a ddyly Cerddwr eu haddef, cyfrinach, a chywilydd cydymmaith, a chelwydd anghyweddus.

55. Tri pheth ni ddyly Cerddwr eu celu, gwirionedd diargywedd, a barn ar gerddwriaeth, a chlod dynion da.

56. Tri pheth a waberddir i Gerddwr ; camfarnu ar gerddwriaeth, a goganu heb ei haeddu, neu ddywedyd cywilydd yn ei ddyg, a chroes angerdd, neu ddryganian.

57. Tri pheth a bair cariad, a chanmoliaeth i Gerddwr ; haelioni, digrifwch, a mawl defodau da, neu glodfori dynion da.

58. Tri pheth a wradwyddant Gerddwr ; cybyddiaeth, a defodau drwg, a thra chynildeb.

59. Tri pheth a barant garu Cerddwr ; cyfundeb, a haelioni, a rhywiogrwydd.

60. Tri pheth a wna Awen i Gerddwr ; ethrylith, ac arfer, a chel-fyddyd.

61. Tri pheth a lwgr Awen y Cerddwr ; medd-dod, a godineb, ac anghanmawl.

62. Tri pheth a wellha Awen Cerddwr ; ymryson, a llawenydd, a chanmawl.

63. Tri pheth a ddyly Cerddwr eu cyweiriaw wrth ei datganu i eraill, pan gofynner iddaw, dyg, a gwirionedd, a barn ar gerddwriaeth.

64. Tri pheth a anystyrian Gerddwr ; noethni, ac eisieu Cerddwr ac nad anhapper.

65. Tri pheth a anrhydedda Gerddwr ; gwisg, ac awdurdawd, ac ehofnder.

66. Tri pheth a bair cashau Cerddwr ; cybyddiaeth, a dyfrllydrwydd, a goganu dynion da.

Ac felly y terfyna Dosparth Edeyrn Dafawd Aur ar yr Iaith Gymraeg, a'r Mesureu Cerdd Dafawd, ac ar eraill bethau a berthynant a'r Brydyddiaeth a Defodan a ddylynt fod ar Brydydd, herwydd Doethineb yr hen Brydyddion Cymreig.

Terfyn.

Y PUM LLYFR CERDDWRIAETH.

LLYMA ddysc i adnabod Kerddwriaeth kerdd davod herwydd llyfr Davydd Ddu Athraw.

Beth yw Llythyren ? Y llyferydd lleiaf a gair ; a silldaf ac ymadrodd ; Pedwar peth a berthyn ar lythyren, nid amgen Henw, Ffugr, Ordwr a Phower. Pedeir llythyren ar hugain yssydd ynghambaraec, nid amgen ; a, b, c, d, e, f, g, h, i, k, l, ll, m, n, o, p, q, r, s, t, v, w, x, y. Or llythrennau rhai yssydd vogoliaid, nid amgen a, e, i, o, v, w, y. A'r lleill oll yssydd gydsseiniaid, kydsseiniaw a'r bogaliaid a wnant. Or kydsseiniaid rhai yssydd lythr tawdd, nid amgen ff, l, ll, m, n, r, s, Sef yr achaws y gelwir hwynt yn dawdd, toddi a wnant mewn y kerdd, ac fal hyn y toddant ; Gwasgu dwy silldaf dalgron yn un leddf, val y mae Mydr. Eraill or kydsseiniaid y sydd fud fal y mae b, c, d, g, k, p, t. Ar achos y gelwir hwynt yn llythr mud oblegid bychan yw eu ssain yn yr ymadrodd. Sef yw y modd i adnabod mud a thawdd : yr honn y bo ssain y vogail yn i dechreu, tawdd yw, val y mae s, yr honn y bo ssain y vogail yn i diwedd mud yw, val y mae b. Raid yw gwybod am y llythr pa rai ssydd lythrau ou grym eu hunain, a pha rai ssydd Ladin neu Roec. Ll, yssydd a grym dwy l, ynddi, w, y ssydd a grym dwy v, ynddi. X, Lladin yw ac nid anghenrhaid wrthi ynghymraec, kans c, ac s, a roir yn i lle. q, llythyren o Ladin yw ac nid rraid wrthi ynghymraec kans c a roir yn i lle. h, nid llythyren yw namyn arwydd uchenaid ac ni ellir bod hebddi ynghymraec i ysgrivennu geiriau ucheneidiol, val y mae hael, hoedl. Or llythrennau y gwnair y silldafau, wrth hynny y rhaid yw gwybod beth yw silldaf, kyznulleidfa lliaws o lythrennau ynghyd ; kyd boed silldaf

weithiau o un llythyren, val y mae a, weithiau o ddwy, val y mae, ar. weithiau o dair, val y mae, aur. weithiau o bedair, val y mae, karn. weithiau o bump, val y mae gwera. weithiau o chwech, val y mae gwnawn. weithiau o ssaith, val y mae, Flandrs; Ac ni ddichon bod mewn silldaf mwy no hynny o lythyrennau.

Bellach rhaid yw gwybod gwahan rhwng y silldafau, kans rhai or silldafau a fyddant drymion o achos bod dwy or kydsseiniaid unrhyw yn i diwedd val y mae, Gwenn, Karr, rhai yn ysgafn val y mae Gwên, K&r. Rhai a fyddant dalgrynnion o un gosodiad, neu un vogal, ac weithiau o ddwy, ar naill heb gael kyfiawn ssain val y mae Gwâs, neu Gwŷch, ac o un vogal, val y mae, kas, neu, dan, neu, sych. Ac yn Dipton dalgron, aw, val y mae llaw, ew, val y mae llew, i w val y mae lliw. uw, val y mae Duw. yw, val y mae, byw. Hyna y pump. Ac yn ddipton dalgron ddiethr; val y mae jár, jás, jor, jwroh; sef yr achos y gelwir hwynt yn ddiethr ddiptoniaid am allu o silldaf dalgron odli gyda phob un o naddynt; ar diptoniaid hynn oll a vyddant o gysswllt dwy vogal i gyd. Dwy ddipton dalgron wib y ssydd, nid amgen, aur; am na chaiff ddim heb westodl ai hunotlo; klan am na chaiff ddim ai proesto. Pan vo I'o vlaen dipton wib val y mae, lau, honno a elwir dipton ddiethrwib. Pan vo silldaf ai dechreu yn wib ai diwedd yn gadarnleddf, val y mae, ffrauer; honno a elwir dipton wibleddf. Silldaf leddf a vydd o deirffordd; un yw pan vo dau ossodiad yn y silldaf, val y mae, mygr; neu ddwy vogal a dau osodiad, val y mae, marw. A phan fo dwy vogal i gyd yn silldaf ac un yn goleddfu at y llall, val y mae, doe, ŵy, val y mae Gwy, ac val y mae trai. Y rhain ai kyffelyb a elwir, diptoniaid pengamleddf rhywiawg, kans pengammu a wna un o'r bogaliaid tu ag at y llall, eithr bod y ddwy raccw, ae, oe, yn ymssathr ac er hynny lleddf rhywiawc ynt, kans ymrafaeliaw asynwyr a wnant yn yr ymadrodd, ac ymrafaeliaw odlau, val y mae, Gwaec, Goec. Hevyd rhaid yw edrych am yr unrhyw ddiptoniaid uchod, ae, oi, oe; pa ffurf y gwahanir hwynt, bob un o honynt yn un silldaf; ac wrth hynny edrych yn y gair lliaws o silldafau, sef yw hynny, mewn gair a llawer o silldafau ynddaw, val y mae Kymraec; yna y gwahanir hwynt yn ymrafael silldafau; ac yna y bydd pob un yn silldaf dalgron. Eithr pann vont mewn gair unsilldafoc, val y mae, Gwaec, neu Groec, yna dir yw i gwasgu yn un silldaf, a honno a elwir yn pengamleddf. Hevyd rhaid yw gwybod pa vodd y bo y ddwy vogal yn y silldaf, herwydd i dywediad, ai i gyd, yntau ar wahan; os ar wahan y byddant o herwydd dywediad, silldaf leddf vydd, val y mae Gŵyr, neu Gŵyl; os i gyd vydd y dywediad yn wasgedig val y mae, Gwŷr, neu Gwŷl, silldaf dalgroun vydd; kans yn lle hwnnw y kyll w, i grym ai ssain

achos i bod yn wasgedig ynghessail g, gonglawc ; a llyna y geiriau ar un llythr ynddynt olynol, ac un yn lleddf ar llall yn dalgronn Pan vo dwy vogal i gyd ymhervedd gair ar gyntaf o naddunt yn hir herwydd akenn ; sef yw hynny, dywediad ; y gair hwnnw a elwir bogal ymlaen bogal yn y mydr, val y mae, Gwennlian, neu Kymraec ; talgron vydd y silldaf olaf am vod akenn hir arni. Yr ail modd yw am silldaf leddf pan vo y, yn y ssain tywyll rhwng dwy o'r kydseniaid heb i hysgrivennu, val y mae, mydr, yna y gwasg hi ddwy silldaf dalgrynnion yn un leddf ; a honno a elwir, gadarnleddf. Sef achos y gelwir yn gadarnleddf am vod dwy or kydseniaid ynghyd. Sef achos y gelwir yn lleddf herwydd y llythr tawdd a vydd ynddynt. A phann vo silldaf yn dechreu yn bengamleddf ai diwedd yn gadarnleddf, a dwy vogal i gyd ar naill yn goleddfu at y llall, val y mae, Lloegr, Lleidr ; honno a elwir dipton gadarnleddf. Y trydydd modd yw pann vo, y, neu w, yn ol llythren dawdd, neu vud, a bogal oe blaen val y mae, marw, neu kaly, boly, honno a elwir silldaf dawddleddf. A phan vo dechreu silldaf yn bengamleddf ai diwedd yn dawddleddf, val y mae meirw, Eiry, honno a elwir dipton dawddleddf. Silldafau a dervynant mewn dwy neu dair or bogaliaid, ai dechreu yn bengamleddf ai diwedd yn tervynu ar dipton dalgron, val y mae, Gwaew, hoew, gwyw, y rhai hynny a elwir diptoniaid talgronleddf. Pan vo dwy lythyren vud unrhyw yn ol bogal neu lythyren dawdd, val y mae, bratt, neu tant ; honno a elwir silldaf fud neu o henw arall, silldaf vyddar. A phann vo silldaf ai dechreu yn bengamleddf ai diwedd yn fud, neu yn vyddar, val y mae, braint, honno a elwir dipton vud, neu vyddar. Hefyd pob silldaf ar a dervyno mewn, ll, mud neu vyddar y gelwir. Pann vo silldaf ai dechreu yn ddieithr ai diwedd yn fud, val y mae Iork, honno a elwir dipton ddieithrvud. Pan vo silldaf ai dechreu yn vyddar ai diwedd yn gadarnleddf, val y mae kwlltr, neu Puntr, hynny a elwir silldaf vyddarleddf. Pan vo silldaf ai dechreu yn bengamleddf ai phervedd yn vyddar ai diwedd yn gadarnleddf, val y mae, Pwyntl, neu Pwyts, honno a elwir dipton byddarleddf. Pan vo silldaf yn tervynu mewn pedair kydsain, ac y, a ssain mud arni, y rryngthynt a thywyll ddatkaniad val y mae, Baldr neu kolpra, Ffandrs ; honno a elwir silldaf dalgronleddf, neu o henw arall, silldaf dalgrongadr. Pan vo silldaf ai dechreu yn ddieithr ai diwedd yn gadarnleddf neu yn dromleddf, val y mae, Siaffr, neu Siars, honno a elwir dieithrleddf. Pan vo I, o vlaen dipton dalgron, val y mae, Diawl, ac ymlaen dipton leddf, val y mae, Dioer, yn uu sillaf y bernir hwynt i gyd, a honno a elwir dipton losgyrnioc o achos bod y llosgwrn ymlaen y ddipton. Pan vo, n, neu s, yn ol, r, val y mae, Gwern, Gwers, honno a elwir

silldof dromleddf. A phan vo silldof ai dechreu yn bengamleddf, ai diwedd yn dromleddf, val y mae, Beirn, Keirs ; honno a elwir dipton dromledd. Pan vo th, neu ch, yn ol, r, val y mae, Perth, neu serch, honno a elwir silldof bengrychleddf. A phan vo dwy vogal yn y silldof, val y mae, Seirth, Ceirch, honno a elwir dipton bongrychleddf. Tri Rheolaeth silldof sydd ; ei hyd ei phwys, ai natur. Llyma rheol i adnabod beth vo silldof betrus ai un ai dwy, a pheth vo silldof ai tromm, ai ysgafn ; lliosocker y gair herwydd silltfaeu ; ac val y bo y gair lliosoc, velly y bydd yn yr unig ; ac yn yr odidawc kyn i lliosogi. Oni wys beth yw, kalonn, ai trwm ai ysgafn, lliosoker a dywetter, kalonnau, a chans trwm yw yn y gair wedi lliosoker ; wrth hynny trwm vydd yn y gair kyn i lliosogi ; ac ynywedd honno oni wys beth yw, amkan ; ai trwm ai ysgafn ; lliosoker y gair a dywetter, amkannau ; ac wrth ei vod yn ysgafn yn lliosawc ysgafn vydd yn unig. Hevyd llyma arwydd bod, l, ac m, yn llythr gloyw trwm o herwydd ssain ac akenn ; Edrych beth yw kalonn, ac nid ysgrivennir onid un l, ped ysgrivennid a dwy y hi ai mewn grym, ll, ac velly yr ysgrifennir trwm neu trom ac un m, a rhaid yw ysgrifennu y kydsseiniaid eraill ddwywaith lle bo gair trwm i ssain. Hefyd oni wys beth yw, Bagl, ai un silldof ai dwy, a pha vodd yr ysgrifennir yn y mydr ; lliosoker Bagl, o herwydd silldafau, a dywetter, Baglau, ac am hynny un silldof yw Bagl ; ac yna pan lliosoker y tawdd yr, y rrwng y llythyren vud ar dawdd am i bod a ssain byddar arni, ac am hynny nis ysgrifennir mewn kerddwriaeth yn yr unig mwy nor lliosawc. Am hynny dwy silldof yw, Bygwyl, a thri yw Bygylau : kans silldof rragor a ddyly vod yn y lliosawc rhac yr unig. Yr ail reol i adnabod silldof yw kyvansoddiad y geiriau val y mae, Lleidr, yn rrannedic a Lleidrddyn yn gyvansoddedic. Y drydedd rreol i adnabod silldof yw arddisgyniad ; o bydd y kyssevin yn un silldof yr arddisgyniad a vydd dwy silldof, val y mae, lleidr, yn gyssevin, ac yn arddisgynedic, val y mae, lleidraidd.

Weithion yr hyspyswn pa sawl peth a berthyn ar silldof ; pedwar peth, nid amgen ; Amser, Rhif, Akenn, ac anadl. Dau amser a vydd i silldof hir, val y mae, Tents ; ac i ryw silldof tri amser val y mae, Ffandrs ; ac un amser a vydd i silldof verr, val y mae, tec. Rhif y mewn silldof yw i llythyrennau mal y dywetpwyd uchod, o un i ssaith. Tair akenn y ssydd i silldof, nid amgen, akenn ddyrchavedic, akenn ddisgynnedic, ac akenn amgylchedic. Dau anadl y ssydd i silldof, un krych, val y mae, serch ; ac un llyfn, val y mae tec. Tair rannu silldof y sydd ; llythyren, amser, ac akenn. Tri rryw llythyren y ssydd, Bogal llythyrenn vud, a llythyren dawdd. Tair silldof y ssydd, silldof dalgron, silldof

leddf, a silldaf ddipton. Tri rryw leddf y ssydd; pengamleddf-kadarnleddf, a thawddleddf. Tair silldaf dalgronn y ssydd. Talgron gwta, talgronn wib a dipton dalgronn. Tair Dipton y ssydd, dipton leddf, a dipton dalgronn, a dipton wib. Tair diptong gymysc y ssydd, dipton dalgronleddf, dipton gadarnleddf, a dipton dawddleddf. Tair dipton ryvedd y ssydd, dipton ddieithr, dipton losgyrnioc, a dipton wib. Tair silldaf odidawc y ssydd, silldaf vyddarleddf; silldaf dalgronleddf; a silldaf losgyrnioc. Tair silldaf gadarn ganiad y ssydd; silldaf dromleddf; silldaf vyddarleddf; a silldaf gadarnleddf. Tair silldaf ysgafn ganiad y ssydd; silldaf dalgron; silldaf bengamleddf, a silldaf vud. Tair silldaf ni cheir Proest ai hatebo; dipton dawddleddf; dipton dalgronleddf; a dipton wib.

Llyma ffordd bellach i adnabod silldaf yr honn y ssydd lath vessur i bob prydydd. Weithion o'r silldafau y gwnair y geiriau, kans rrai or geiriau a vessurir o un silldaf, val y mae aur; eraill a vessurir o ddwy, val y mae, arian; o dair val y mae, gwinwyddon; o bedair val y mae, ysbyddadenn; o bump, val y mae, yagyvaruogod; o chwech, val y mae ysgrivennedigaeth; o ssaith, val y mae, ysgrivennedigaethau, echdywynedigrwydd, datcuddiedigaethau, neu kyvarsangedigaethau.

Pa ssawl gwasgawdlythr y ssydd? Naw; nid amgen, b, c, d, k, ll, m, p, t, a phob un or rhain a gollant val gwasgawd, ac a ddaw grym un arall yn i lle ymblethiad yr ymadrodd, val hynn; yn lle b, y daw f, neu m, val yn y gair hwnn, brŷs, yr wyf ar frŷs, m, yn lle b, val yn y gair hwnn, brawd, vy mrawd; yn lle d, y daw dd, neu n, val yn y gair hwnn, dyrchafael, ym ddyrchafael, neu vynyrcsafael, g, a gyll heb ddim yn i lle pan ddel bogal oe blaen, val yn y gair hwn, Gŵr; ar g, val hyn ynkolli o ŵr, yr c, ar k, yr un ydyn, ac yn eu lle y daw g, neu ch; neu ngh; ynghyd a hynny oll yn y gair hwnn, kablu; val hyn, i gablu; a chablu; vynghablu.

Yn lle ll, y daw l; val yn y gair hwnn, llwfr; e vu lwfr. Yn lle m, y daw f, val yn y gair hwnn; merch, wely ferch. Yn lle, p, y daw b, neu rym ff a honno a ysgrivennir a ph; ac weithiau y daw, mh, ynghyd a bogal or blaen yn lle p; val yn y gair hwnn, porphor; val hynn, ai borphor a fforffor neu a phorffor; neu vymhorffor. Yn lle t, y daw d; neu th; neu nh; ynghyd a bogal oe blaen, val yn y gair hwnn, twng; i dyngu; a thyngu; vy nyngu.

Pa ssawl or kydsseiniaid ysydd varchogythr? Tair; nid amgen l, n, r, sef yr achos y gelwir hwynt vely, am eu bod yn vynychn ynechreu geiriau yn dioddef i ŵyth gydssain eraill eu marchogaeth heb un vogal y rhyngthynt, sef yw yr ŵyth hynny; b, d, f, ff, g, k, p, t; val yn y geiriau hyn, Blaidd: Drud: Braise: Fry: Ffrom: Fflwch: Grym: Glew: Gnawd: Kryf: Kledd: Knyw: Prid: Plwm: Troed: Tlŵs.

Passawl kledren dawddleddf yssydd? Chwech, nid amgen, d, dd, l, n, r, s, ar achos y gelwir hwynt velly am vod yn gwneuthur silldafau tawddleddf ar bob un o naddunt, val hyn; kadw gweddw, elw, enw, erw, asw.

Yma weithion yr ysbysswn passawl peth a bair i sillaf golli i chyfiawn akenn; chwe pheth ai pair, nid amgen, y kyssevin yw i chyvansoddi o silldaf arall; ac yna y mae hi yn newidiaw i henw, ac yn myned o ddyrchafedic yn ddisgynnedic ac yn kolli i chyviawn akenn; kans kyviawn akenn pob silldaf, yw akenn ddyrchafedic. Yr ail peth yw pan gyvansodder tair silldaf ynghyd, y gair hwnnw vydd akenn amgylchedic. Y trydydd peth yw kyvansoddi pedair silldaf ynghyd yn un gair, yna nid oes i'r gyntaf or pedair, akenn gyvrivol yn y byd. Y pedwerydd peth yw, arwydd uchenaïd, sef yw honno h, yr honn a bair i air a lliaws o silldafau ynddaw vod ac akenn ddyrchafedig arno megis pann vo yr arwydd uchenaïd rhwng y ddwy silldaf olaf val y mae, kadarnhau. Y pumed peth yw ranniad y gair, megis pann vo gair y bydder yn arver o'i ysgrivenu yn un gair; ai rannu yn yr akenniad neu yn y dywedïad val hyn, Galâth, neu ysbâs. Y chweched peth yw kyvansoddiad silldafau ynghyd yr hwn beth yssydd yn peri i silldaf ac akenn drom arni golli i phwys, val y mae, Gwenn, kans pan gyvansodder hi gyda silldaf, neu silldafau, val pe i dywedid, meinwen; yna y kyll hi i phwys, ac y gellir odli i gyd a hi honn a vynnwr ai silldaf drom, ai silldaf ysgafn.

Yma y tervyna y Llyfr kyntaf or pum Llyfr Kerddwriaeth Kerdd Davod.

Ysgrivenwyd gau R. I. o Scorlegan yn Llangynhafal 1578.

Y pum amser; ar *pum Modd*;

Mynag, Gorchymmyn Dymunwyf, Kusan,
Kysawilt, Anherrywyf,
Kara, Karwn, oerbwn wyf
Kerais, Karaswn, Karwyf.

1 Enw, 2 geni, 3 Rhoddi mewn rhwyf kyhoeddus, } Y chwe Chenedl.
4 Kyhuddo, 5 Galw, 6 Gwrthglwyf.
Yn, yr, dan, ar a garwyf } Pum Gobenydd Berf.
A, wnn, ais, ysiwn, ssais, wyf.

Howel ap Syr Matthew ai cant.

Weithion yr ysbysswn or ail Llyfr Kerddwriaeth kerdd davawd; kans tair rhan Prydyddiaeth yssydd, nid amgen silldaf: gair: ac ymadrodd. Or geiriau y gwneir ymadroddion yn berffaith; yrhai yssydd gyfrinach rhwng Beirdd Ynys Brydain, ac a elwir Dwned Kymraec.

Pa ssawl rhann ymadrodd yssydd? Wyth; nid amgen; Henw,

Rachenw, Berf, Racferf, Kyfranniad, Kyssylltiad, Arddodiad, a Thafodiad. Or rhain, pedair rhan a dreiglir, a phedair ni threiglir. Y pedair a dreiglir, yw Henw, Rachenw, Berf, a Chyfranniad. Y pedair ni threiglir, yw, Racverf, Kyssylltiad, a Thafodiad. Tair rhan a dreiglir ac achos, ac un heb achos, Henw, Racenw, a Chyfranniad a dreiglir ac achos, a Berf unig heb achos.

Beth yw Henw? Rann ar iaith a dreiglir; a welir, neu a glywir, neu a deimlir; neu a ddysko henw ar beth, val y mae Angel, Dyn, Meddwl, Prens: Ar y weler val y mae Dyn, Awyr: ar a glywer, val y mae, Gwynt: ar ni ellir nai glywed nai weled val y mae, Enaid, Angel, Meddwl. Dau henw yssydd; nid amgen, Henw gwann, a Henw Kadarn. Henw kadarn a saif wrtho e hun heb nerth arall val y mae, Gwr: Henw gwan ni saif wrtho e hun heb nerth arall, val y mae Tec, Hagr, Gwynn, Du, Doeth; a hevyd pob Henw gwan a gymer gymheiriaid, ond pedwar, nid amgen Henw digiedic oi vlaenor val y mae, yr hwnn; Henw govynnedic, val y mae, Pwy; Henw rannedic dosbarthedic, val y mae, yr un rai; Henw anhervynnedic, val y mae, Pwy bynnac. A rhain y ssydd a grym Racenwau, ac er hynny Henwau ydynt. A phasawl notbannoc y treiglir Henw? a thri, nid amgen, Hic, Hec, Hoc, yn Lladin; Hwn, Hon, Hyn, ynghymraec; Hwn yw y Masgl, Hon yw y Ffemal, Hyn yw y Neodr. Pa ssawl peth a ddamweinia ar henw? Chwe pheth, nid amgen; Ansawdd, Kymheiriad, Kenedl, Rif, Ffugr, ac Achos. Beth yw Ansawdd ar Henw? Ansawdd yw Gwybodedigaeth i wybod beth yw Henw ai Priodol ai Kyffredin; Henw priodol a vydd ar wr neu ar le: ar ŵr val y mae, Ieuan: ar le, val y mae Iork neu Llundain. Pob enw ar ni boant velly; Kadarn kyffredin ynt, val y mae Gŵr neu Dref neu Dŷ. Deuryw Henw priod yssydd, Henw bedydd a Llysenw: Henw bedydd val y mae Madog; Llysenw val y mae, Madyn; Beth yw Kymheiriad? Teigradd Kymheiriaid yssydd, nid amgen Possiaid, Kymheiriaid, a Superlliaid: Pa ddelw yr adnabyddir, Possiaid? Pob peth a arwyddoka o henw gwann gwastad heb wneuthur na mwyedigaeth, na lleiedigaeth ynddaw e hun, val y mae; Gwynn, Du, Doeth; y kyfryw hyn Possiaid vyddant. Pa ffurf yr adnabyddir Kymheiriaid? Kymheiriaid yw yr Enw gwann a wnel mwyedigaeth neu leiedigaeth ar y Possiaid o un radd val y mae Gwynnach, Duach Coethach, Tegach, Hagrach, Iachach. Pa vodd yr adnabyddir Superlliaid? Superlliaid a vydd pan vo Henw gwan yn arwyddokau ymwyaf oll, neu y lleiaf oll, val y mae Gwynnaf oll, Duaf oll, Doethaf oll, Tekaf oll, Hakraf oll, Iachaf oll. Pum Kenedl yssydd i Henw, nid amgen; Gwrw, Banw, Neodr, Kyffredin, ac Anwybod; Masgl yw y gwrw, ac a dreiglir a Hwnn; val y mae, y Gŵr hwnn;

Ffemal yw y peth Banw, ac a dreiglir a Honn ; val y mae y wraic honn : Neawdr a vydd pan vo henw gwann yn dyvod mewn grym Henw kadarn ; val y mae ; Dâ mawr yssydd i Ieuan ; y Da yssydd Neodr ac a dreiglir a Hynn, Da, Nerth, Kryfdwr, Gwycheder, Haelioni, Dewrder, Llywenydd ; Neodr ynt ai kyfriw, Kyffredin yw pob Henw gwann ac a aller i roi i gyd a phob un o naddynt, val y mae ; Hael ; kans ef a ellir dywedyd Gŵr hael, Gwreic hael. Anwybod yw y peth ni wypo neb beth vydd ai Gwrw ai Banw, val y mae Kolommen, kans pan welo Gwr Golommen anwybod yw iddaw beth vydd ai gwrw ai banw. Passawl Rif yssydd i henw ? Dau ; nid angen, unic a lliosawc ; unic, val y mae, Gwraic ; lliosawc val y mae Gwagedd. Henwau unic kynnulledic yssydd, ac anhawdd yw gwybod beth ynt ai unic ai lliosawc ; eithr val y gweler y lliaws yn dyvod o honynt ; unic, val y mae Coed ; lliosawc val y mae, koedydd. Dwy Ffugr yssydd i henw ; un rannedic, val y mae Gwr ; un gyvansoddedig a gyvansoddir a dau henw kadarn, val y mae Kerddwr, o ddau henw gwann, val y mae dulas ; o henw gwan a henw kadarn val y mae, Gwynlliw. Chwech achos yssydd i Henw, nid angen ; Nominadio, Genedio, Dadio, Achassiaid, Bogiaid, ac Aplliaid. Nominadio a arwyddokaa henwi ac a ddaw o vlaen Berf, ac a arwyddokaa y peth gwneuthuredic, ac o vlaen y peth gwneuthuredic y daw ar beth dioddevedic o vlaen Berf ddiodevedic y daw, ac ateb yr kwestiwn, pwy, val y mae, Mi a garaf, Ti a geri, Siôn a gar ; Mi, Ti, Sion, yw y Nominadio ; karaf neu kerf yw y Berf, Genedio a arwyddoka genedigaeth ac a vydd pan vo dau Henw kadarn yn dyvod ynghyd ac un yn perchennogi ar y llall ; yr un a vo yn perchennogi a vydd genedic val mae, Penn Rhys ; Rhys yw y Genedio. Neu pann vo yn dyvod yn ei Superlliaid radd, val y mae, Y decaf o'r Dynion ; Y Dynion yw y Genedio. Dadio a ddaw mewn ymadrodd pann ddel peth yn rhoddi i beth arall ; y peth y rrhodder y peth iddaw a vydd Dadio val y mae, Moes i mi ; Mi yw y Dadio. Achusiaid achos a arwyddoka kyhuddaw, ac ddaw ar ol Berf bersonnawl yn ddiodevedic ; neu a ddaw ar ol pob Arddodiad ond a arwyddokaa gwrthod, val y mae yr wyf vi yn Ty. Bogiaid a arwyddoka galw, val y mae ; Ieuan dyred yma ; Ieuan ssydd Vogiaid. Aplliaid a ddaw pan ddel un o'r chwech arwydd hynn o vlaen Henw kadarn, nid angen ; Yr, Gyda, Wrth, Drwy, Or, Noc ; Tri or rrhein a wnant wrthodigaeth ; a thri nis gwnant ; y tri ai gwnant yw, Drwy, Or, Noc ; y tri nis gwnant yw, Yn, Gyda, Wrth ; ac yr na wnant wrthodigaeth, arwyddion Aplliaid ynt. Or achos yr arver ydd ys ymhob jaith yn treiglo diwedd geiriau Yngroec ac yn Lladin ; Yngroec, val y mae, Inpente coste, in parussene ; Yn Lladin val y

Domo in Campo ; a rrai yn yr ysgruthr lan a ossoded or Groec y mae yn iaith ni yn kymerud i gwarant, ac nid or Lladin.

Beth yw rhachenw ? Ran ar ieith a dreiglir, a ddoter yn lle priodawl henw un rryw a henw hayach, ac a gymer dau berason. Chwe pheth a ddamweiniant ar Rachenw, nid amgen, Anssawdd, Kenedl, Rif, Ffugr, Person, ac Achos ; dwy Ansawdd yssydd i Rachenw, nid amgen ; un dervynnedic val y mae, Myvi, Tydi, Evo ; ac un annhervynnedic, val y mae ; Mau, Tau, Eiddaw : un dervynnedic a gymer persson, ac un annhervynnedic ni chymer persson. Tair Kenedl y ssydd i Rachenw ; Masgl, val y mae ; hwnn : Ffemal, val y mae, honn, Neawdr, val y mae hynn. Dau Rif yssydd i Rachenw, unic val y mae, hwnn ; lliosawc, val y mae, Rain. Tair persson yssydd i Rachenw ; nid amgen, y Gyssevin a ymadrodda o honi i hun, val y mae, Mi ; yr ail a ymadrodda o honot ti, val y mae Tydi. Y drydydd a ymadrodda o honaw ef, val y mae, Evo. Chwech achos yssydd i Rachenw val i henw ; Dwy Ffugr yssydd i Rachenw ; un rannedic val y mae Mi ; ac un gyvansoddedic, val y mae Myvi. Ugain Rachenw yssydd, nid amgen, Mi, Ti, Ef, Myvi, Tydi, Evo, Hwnn, Hwnnw, Mau, Tau, Eiddaw, Minnau, Tithau, Yntau, Myhun, Tyhun, Ehun, Einym, Einwch, Eiddynt. Or rrai hyn pedwar tadoc yssydd, nid amgen, Mi, Ti, Ef, Hwnn ; ar lleill oll tynnedigion ynt.

Beth yw Berf ? Ran ar iaith a arwyddocao gwneuthur, neu ddiodef, neu vod, Gida Modd ac Amser a Pherason, ac a dreiglir heb achos na nod bannoc. Saith beth a ddamweinia ar Verf nid amgen ; Modd, Konsigassiwn, Kenedl, Rif, Ffugr, Amser, a Pherason. Pa vodd y mae ansodd mewn Berf ; mewn Modd, a Pherason. Chwe Modd Berf yssydd, nid amgen, Mynagedic, Gorchymedic, Damunedic, Galluedic, Kyssylltedic, ac Hannhervynnedic. Mynagedic Fodd a vynac ymadrodd iawn, ac a arwyddokaa govyn neu draethu, val y mae, mi a garaf verch ; a gaf y verch ? Gorchymynedic Fodd a orchymynn, val y mae ; Gwna dy waith. Damunedic vodd a ddymunna, val y mae mynnwn vy mod yn y Nef. Galluedic Fodd a arwyddokaa nerth a gallu, val y mae, mi a alla godi ; mi a alla redec. Kyssylltedic Vodd a vydd pan vo kyssylltiad yn dyvod mewn ymadrodd o vlaen Berf ; ac yn kyssylltu, val y mae, Ti a gei geinioe pan welych vynghar. Annhervynedic vodd a vydd pan vo dwy Verf yn dyvod i gyd, yna y ddiwethaf o naddynt a vydd annhervynedic verf heb na rrif na pherason val y mae, af i garu. Tri konsigassiwn y ssydd mewn Berf, un mewn a ; ail mewn, i ; y trydedd mewn, e. Pum kenedl yssydd i berf, Gwneuthuredic, Dioddefedic, Neawdr, Kyffredin, a Berf Ddiponent ; Gwneuthuredic, yw Berf a vo yn gwneuthur gweithred i beth

dioddefedic, ac a ddichon Berf ddiodefedic ddyvod o honi, val y mae, karaf : Berf ddiodevedic a ddiodef weithred y wneuthredig, val y mae, am kerir : Berf Neawdra vydd o ddau vodd, nid amgen ; un wneuthuredic ac ni oddef ddim val y mae, safaf, Redaf : arall y ssydd wneuthuredic a diodevedic, val y mae : yr wyf lawen, ef a lawenheir, mi amddiriedaf. Berf gyffredin a arwyddokaa gwneuthur a goddef ynddi e hun, val y mae ; kussanaf, evo am kussenir ; beiaf evo am beir, Berf Ddiponent a arwyddoka gwneuthur, neu ddiodef oi natur e hun yn ddiamrafael, val y mae, dywedyd yn drech, neu mi a ddywedaf, neu ddywedyd, Geni neu Hanfodi. Berf wneuthuredic a vyn Nomnadio oe blaen, ac achusiaid ar ei hol, val y mae ; mi a garaf Verch. Berf ddiodefedic a vyn Nomnadio oe blaen, ac Appliaid gyd ac Arddodiad ar i hol, ar Nomnadio yn diodef ar Appliaid yn gwneuthur, val y mae, Mi am dysgir yn Ygolhaic. Berf Neodr a vynn Nomnadio gwneuthur or blaen, ac ni all gael kyhuddedigaeth ar i hol ond un ar beth a vo priodawl iddi i hun val y mae, Mi a gerddaf y ffordd, ac ni ellir dywedyd, mi ath gerddaf di, neu Ti am kerddi i. Dau rif y ssydd i Verf, nid amgen, unic ; val y mae, karaf, lliosawc, val y mae karwn oll. Dwy ffugr yssydd i Verf un yn rannedic, val y mae ; kydgaru ; Pum hamser yssydd i Verf, nid amgen kynhyrhiol, Amherffaith, Perffaith, Mwy no pherffaith, a Ffutr ; Kynnyrhiol yw yr amser y sydd yr awr hon, val y mae, karaf, Amherffaith yw yr amser nid aeth ymddaith yn gwbl, val y mae karwn, karud, karai. Perffaith yw yr amser a aeth ymddaith yn gwbl, val y mae ; kerais, keraist, karodd. Mwy no pherffaith a aeth ymddaith yr ys talm kyn perffaith, val y mae, karasswn, karassud, karassai ef. Ffutr yw yr amser y sydd yn dyvod rrag llaw, val y mae, karwyf. Tair person y sydd i Verf, nid amgen y Cyssevin val y mae, karaf ; yr ail val y mae kerir : ar drydedd, val y mae, kar ef : ac yn lliosawc ; karwnn, kerwn, karant.

Beth yw Kyvraniad ? Rann ar iaith a gymmer rann i gan Henw, a rann i gan Verf ; i gan Henw i kymer Genedl ac achos ; i gan Verf, i kymamer, Amsser a ssynwyr ; i gan bob un o naddunt y cymer Rif a Ffugr. Chwe pheth a ddamweinia ar Gyvranniad, nid amgen, Kenedl, Achos, Amsser, Synnwyr, Rif, a Ffugr. Tair Kenedl y ssydd i Gyfranniad val i henw gwann. Chwech achos y ssydd i Gyvranniad val i Henw. Tri Amsser Kyvranniad ; kynnyrhiol, val y mae, yn hani ; Perffaith, val y mae ; o gani ; a Ffutr, val y mae ; i gani. Tri rryw ssynwyr y ssydd i Gyfranniad val y mae tair kenedl i Verf ; cans i Verf wneuthuredic y daw dau barth, nid amgen, kynnyrhiol a ffutr. O Verf ddiodefedic y daw dau barth, nid amgen, perffaith, val y

Gwedi karu ; kynnyrchiol val y mae, yn karu. O Verf Neawdr y daw dau gyvranniad, val y mae i Henw gwann, nid amgen ; unic a lliosawc. Dwy ffugr y sydd i Gyvranniad, un gyvansoddedic, val y mae, yn kydgaru ; un rannedic, val y mae, yn karu. Pa ffurf yr adnabyddir kyvranniad yr amser kynnyrchiol ; Pan vo, yn ; yn dyvod o vlaen arwydd Berf annherfyndedic ; yr, yn ; ar Verf annhervynedic a vydd un gair, a'r gair hwnnw vydd kyvranniad o amsser kynnyrchiol, val y mae yn karu, yn kanu, yn tyvu. Kyvranniad o amsser perffaith wrth i ssynnwyr ai dervynn yr adnabyddir ; kans megis Henw gwann vydd y dychweliad ; ac o Verf y daw a thervynu a wna yn edic, val y mae, karedic, dysgedic, Cyvranniad o Ffutr gwneuthuredic a adnabyddir pan vo, y ; yn dyvod ar ol Berf afryolus ac o vlaen Berf annherfyndedic : Yr, y ; ar Verf annhervynedic a vydd kyvranniad o amsser Ffutr gwneuthuredic, val y mae ; y garu, y ssaethu, y ganu. Kyvranniad o Ffutr dioddedic a adnabyddir pan vo, ym ; yn ddiodevedic ; yn dyfod yn ol Berf afryolus, ac o vlaen arwydd Berf annhervynedic ; ar Verf afryolus yn arwyddokau gwneuthur yr Kyvranniad diodevedic, yr, ym ; ac arwydd y Verf annhervynedic a vyddant un gair : ar gair vydd Kyvranniad or amsser Ffutr, o Verf ddiodeddic, val y mae, yr wyf i yn karu, ef am gwnaethpwyd ym karu. Gwybydd vod y Kyvranniad y ddiodevedic ac yn amsser Ffutr. Parth ssathredic a ddaw pan ddel, y, neu, O, ac arwydd y Berf a arwyddokao assymudo, val y mae ; kerddaf ; ac o vlaen arwydd Berf annhervynedic yr, y, neu, o, ac arwydd y Verf annhervynedic a vyddant un gair, ar gair hwnnw vydd parth ssathredic, val y mae, Mi âf i garu, Mi ddof o garu. Henwau parthedic a vydd pan vo arwydd Berf annhervynedic yn myned mewn grym Henw ac arwydd Genedic, val y mae, or karu, yr karu ; ac yn Achussiaid ac Apiliaid, val y mae, yn karu.

Beth yw Rhacverf ? Rann ar iaith a ossoter wedi Berf, ac yn gyflawn ssynnwyr y gorphen ymadrodd neu y dechraa. Tri pheth a ddamweinia ar Racverf, nid amgen ; ssynnwyr, Kymheiriad, a Ffugr. Ugain ssynnwyr y ssydd i Racverf ; kans rrai or racverfau a arwyddokaant amsser, val y mae, Heddiw, Doe, Yvory, Trennydd ai kyffelib hwy. Rai a arwyddokaant le, val y mae, Yma, Accw, Uchod, Issod, Yngod, Obry, Pa le. Rai arwyddokaant rif, val y mae Unwaith, Dwywaith, Teirgwaith, ac a vo kyffelib ir rain. Rai o Ordr val y mae Oddiyno, yn ol hunny, yn ddiwaethaf oll. Rai o wadu, val y mae, Nid, Nage, Nid dim. Rai a arwyddokaant ddangos val y mae ; Syllt, Wele. Rai a arwyddokaant gynnihadu, val y mae ; Ie. Rai a arwyddokaant gyuno, val y mae velly. Rai a arwyddokaant urddo, val y mae ; Oddyna. Rai a arwyddokaant

ovyn, val y mae ; Pa achos ? Ai ef ? O bale ? Hyd ymhale ! Pa ham. Rai o gynghori, val, gwnewch rragoch. Rhai o wenjaith, val... Rai o wyrthwynebu, val y mae ; Nac ef. Rhai o anghyvlawnedigaeth, val y mae ; Prin agos, Gan rawyaf, Hayach. Rhai a arwyddokaant gyffelybrwydd, val y mae ; Val, Vegis, Velly. Rai a arwyddokaant Ansawdd neu Vodddion, val y mae ; Yn ddoeth, Yn deg, Yn Wynn, Yn dda, Yn ddrwg. Yn ddsygedic, Yn gryf. Rai a arwyddokaant ddognedd, val y mae ; Yn rrann, Yn vawr, yn Vychan. Rai a arwyddokaant bettrussaw, neu ammasu, val y mae ; Nid hwyrach, Ond odid. Ac Advydd Rai a arwyddokaant wahann, val y mae ; Yn ol, Ymlaen. Rai a arwyddohaant dyngu, val y mae ; Ym Duw, Ym y Groc. Rai a arwyddokaant... val y mae, Yn gynt. Rai a arwyddocant gynnull, val y mae ; ygd. Rai a arwyddokaant rybudd, val y mae ; How, Hai. Rai a arwyddokaant gymell, val y mae ; Ar ffrwst, neu yn vuan, Rai a arwyddokaant oedi, val y mae ; O hyn allan, hyd yn hyn. Rai a arwyddokaant beresonoliaeth, val y mae ; Gyda mi, Gyda thi, Gyd ag ef. Rai a arwyddokant, gymheiriaid neu vaintioli, val y mae ; Yn vwy, Yn llai, Yn vwyaf oll. Tair gradd gymheiriaid yssydd i Bacverf, nid amgen Possiaid, val y mae ; Yn ddrwg, Yn dda ; kymheiriaid, val y mae ; Yn waeth, Yn well ; a Superlliaid, val y mae ; Yn waethaf oll, Yn orau oll. Dwy Ffugr yssydd i ragverf, nid amgen un rannedig, val y mae yn ddoeth ; ac yn gyvansoddedic, val y mae ; yn annoeth.

Beth yw Kyssylltiad ? Rann ar iaith a arwyddocao kyssylltu neu wahanu rrwng rrannau eraill ; Hi a gysyllta leoedd ac a wahana ssynnhwyrâu. Tri pheth a ddamweinia ar gyssylltiad, nid amgen, Gallu, Ffugr, ac Ordr. Pum Gallu ssydd i Gyssylltiad nid amgen ; un yw kyssylltu neu glymu val y mae ; Gwr a Gwreic. Neu Mi a Thi. Neu Ddyn ar Llall. Yr ail yw gwahanu, val y mae ; Mi nid Ti, Mi neu Di neu Arall. Y trydydd a byrth neu a gyvlawna ymadrodd, val y mae ; Nid amgen, neu er hynny, neu sef yw hynny. Y pedwerydd a vydd achossawl, val y mae, O daw ef, minnau a ddeuaf, pan ddel yvo minnau a ddeuaf, Oni ddaw evo ni ddeuaf vinnau, Mi a drawaf y Gwr kans ef am trewys i ; neu val hyn hevyd, Os, O, Onid, Onis, Onith, Ai, Achos, Paham, Ac achos paham, Ond, Na, Nas, Ni, O achos, Rwng, Aphan vo, Am ba beth, Yn enwedic, Hevyd, Ac hevyd, Yntau, Oddieithr, Neu, Oddigerth, Dros ben. Y pumed gallu yssydd ressymawl, val y mae, O daw ef, Paham na ddaw yntau, Paham y llas y gwr, am iddaw i haeddu, neu val hyn yma hevyd ; Oblegid, Ac oblegid yn wir or achos, Paham yn wir or achos, Or plegid, Am hynny. Llyma henwau y pump Gallu yssydd i Gyssylltiad val y dywedpwyd uchod ; kyssylltu, Gwahanu, kyvlawni, Hachossio, a ressym-

oli. Dwy Ffugr yssydd i Gyssylltiad, un rrannedic, val y mae ; am hynn, ac un gyvansoddedic, val y mae ; Am hynny. Tri Ordr neu dri Urddas y ssydd i Gyssylltiad ; y kyntaf yw raggvlaenu geiriau yn i kyssylltu val mae, Ac, Ar, Ath, A ; yr ail yw kanlyn y geiriau y boant yneu rrwymau, val y mae ; Ne, Neu, Y Naill, Am, An. Y trydydd yw rragvlaenu a chanlyn yn gyffredin y geiriau, val y mae ; Or achos, Or plegyd, Or kas, Or herwydd, Or bydd, O bydd, Neu Oni bydd.

Beth yw Arddodiad ? Ran ar iaith yr hwnn a ddodir o vlaen ymadroddion eraill, y naill ai mewn Ffugr rrannedic, val y mae, At y tad ; Yntau mewn ffugr gyfansoddedic ; val y mae ; Annysgedic, neu Angharedic ; ac a gyvlawnho, neu a newidio, neu a ssynnyro, neu a leihao, neu a ssymuto ssynnwyr y rannau eraill. Apossisiawn, yw ffugr rannedic ; Kompossisiawn, yw ffugr gyvansoddedic. Un peth a ddamweinia ar arddodiad, nid amgen ; Achos ; Passawl achos yssydd mewn Arddodiad ? Dau, nid amgen Achussiaid, ac Aplliaid ; Degarhugain a wasanaetha i Achussiaid, nid amgen, Emyl, val, emyl y Tŷ, At, val, At y tad ; Gar bron, val, gar y bron y brenhin ; O vlaen : val o vlaen y march ; Gyvairwyneb, val gyvairwyneb ar Tŷ : Y tu yma, val, y tu yma i'r tŷ : O bobparth, val o bobparth i'r Dref : Garllaw, val garllaw yr Eglwys ; Heb, val ; heb y Kastell ; Ymhlith, val, ymhlith y bobl ; Unwedd, val unwedd ar ty. Allan, val, allan or maes : Yn erbyn, val yn erbyn gelynyon ; Ynghylch, val ynghylch y pasc ; Parth neu neu tu, val ; parth ar dref ; O vewn, val ; O vewn y gaer ; O vewn y mis ; Er, val, er trugaredd Dduw ; Yn ol, val, yn ol yr Wyl ; Yn agos, val ; yn agos i'r nos ; Is, val ; is gil y ddor. Rwnng, val y mae ; rrwng y tai, neu, ryngom.

Dros, val, dros y mor, neu drossom.

Or tu hwnt, val or tu hwnt ir mor.

Uwch benn, val y mae ; uwch benn y tŷ.

Ymlaen, val y mae ; ymlaen yr wyl.

Erbyn, val y mae ; erbyn yr wyl.

Am, val, am y pared a'r verch.

Hyd, val, hyd Duw ssul.

Oddieithr, val, oddieithr y Ddinas.

Oblegyd, val ; oblegyd yr eisteddfod.

Pymtheg a wasanaetha ir Aplliaid, nid amgen nor rrai hyn.

Or blaen, val ; or blaen ir gwr.

Or tu hwnt ; val, or tu hwnt ir march.

Or tu yma, val ; or tu yma ir gwr.

Or tu ol, val ; or tu ol ir march.

Or tu kevn, val ; or tu kevn ir klawdd.

Or tu bronn, val or tu bronn ir march.

Or tu draw, val ; or tu draw i'r avon.

Wrth ymyl y ffordd ; wrth ystlys y gwr.

Wrth, neu oi wrth bob peth a vo a henw kadarn arno neu Rachenw. Om ty i, Drwy yr avon. Pedwar Arddodiad a wasanaetha weithiau i Achussiaid, weithiau eraill i Appliaid, nid amgen, Yn, val y mae, Yn y ty ; Yr, val y mae ; Yr koed. Dan, val y mae ; Dan y ty ; Ar, val y mae ; Ar y vaink. Y lleverydd ar arddodiadau os hwynt hwy a ossodir i hunain heb air achosawl i wasanaethu yn gyssylltedic a hwynt, ni byddant hwy arddodiadau nam yn newidiol vyddant yn Racervau, val y mae, Y neb ni ochelo ymlaen a vydd yn ediveiriol yn ol, neu val hyn ; kanmol yngwydd a goganu yn apssen, annonest yw.

O bydd y gair achosawl yn y lliosawc rif wedy i gyssylltu ar arddodiad hwnn, Hyd, y gair hwnnw a vydd Genedio, val y mae ; Hyd y clustiau ; Hyd y fferau.

Beth yw Tavlodiad ? Rann ar iaith a arwyddokaa Diheurwydd neu addeviad meddwl dan lev gyhuddedic amherffaith. Un peth a ddamweinia ar Davlodiad, nid amgen ; ar ddangos i hun neu ssynwyr. Pedwar rryw arddangos ysydd i Davlodiad kans rrhai or Tavlodiadau a arwyddokaant lawenydd, val y mae, Wi, neu Gwynn vy myd ; Neu chwerthin, val y mae ; Ha, Ha, Ha. Rai a arwyddokaant ddolur neu dristwch neu ovid, val y mae ; Och, neu Gwae vi. Rai a arwyddokaant ofn, val y mae. Attad, Bw. Rai a arwyddokaant ddiystyrwch, val y mae ; Ffei, Wb, Wb, Wft. Rai a arwyddokaant rybudd val y mae ; How. Rai a arwyddokaant ddistawrwydd, val y mae ; Ust. Rai a arwyddokant annoc, val y mae ; Hys ; ac od oes mwy dealler wrth hynny yw kyffelyb.

Pa rannau o'r ymadroddion a ellir eu rroddi vegis Tavlodiad. Henw gwann ei hun, val y mae, Drwc ; a rryw amsser Rachenw, a Henw gwan, val y mae Myvi druan Weithiau eraill, rresswm kyvan, val y mae ; O Arglwydd da, neu Iesu dy Drugaredd.

Llyma ffordd a ddysc dychwelyd neu dreiglau geiriau val y galler gwybod pa Gas, pa berson, pa vodd a *pha* a pha amsser a ddoter yu yr ymadrodd wrth i wneuthur yn ddyledus ac yn gyvian, nid amgen ; no dysgc i dreiglau ymadroddion yn berffaith val y mae hynn yr Verf. Karaf, kery, kerais, karu, or karu, yr karu, at y karu, o garu, I garu, yn karu.

Pum hamsser a ddaw o vynagedig vodd nid amgen ; kynhyrchiol, Amherffaith, Perffaith, Mwy no pherffaith a Ffutr : Kynhyrchiol, val y mae ; karaf, kery, kar ef, ac yn lliosawc, karwn, karwch, karant. Amherffaith amser, karwn, karud, karai : ac yn lliosawc ; kerym, kerych, kerynt. Perffaith amsser, kerais, keraist, karodd ; c yn lliosawc ; karassom, karassoch, karassant. Mwy no pherffaith

amsser ; karasswn, karassud, karassai ac yn lliosawc ; kaessym, kaessych, karassynt. Ffutr amser ; karwyf, kerych, karo ef : ac yn lliosawc ; karom, haroch, karont hwy rrag llaw.

Dau amser a ddaw o Verf Orchymynedic ; Kynhyrchiol ; kar di, kared ef ; ac yn lliosawc, karwnni, kerwch chwi, karont hwy rrac llaw. Ni ellir yn gynhyrchiol yr awrhoen. Ffutr, val y mae ; kar di rrac llaw, kared ef ; ac yn lliosawc : karwn ni, kerwch chwi : karont hwy rrac llaw. Ni ellir gerchymyn namyn mewn dau amsser, ac mewn dwy berisson.

Tri amser a ddaw o ddamunedic vodd. Kynhyrchiol amsser ; Ef a allai y karaf yr awrhonn, Y kery—y kar ef ; ac yn lliosawc, Ef a allai y karwn, y kerwch, y karant hwy. Mwy no pherffaith ; Ef a allai y karasswn, y karassud, y karassai : ac yn lliosawc ; Ef a allai y kaessym, y kaessych, y kaessynt. Ffutr amsser, Ef a allai y karwn rracllaw ; ac yn lliosawc, Ef a allai y kerym, y y kerych, y kerynt hwy rracollaw.

Pum hamsser o Verf gysylltedic nid amgen ; Kynhyrchiol, val y mae ; O charaf, O chery, O char ef ; ac yn lliosawc, O charwn, O charwch, O charant. Perffaith amsser, O cherais, O cheraiso, O charodd ef ; ac yn lliosawc, O charassom, O charassoch, O charassant. Amherffaith amsser, O charwn, O charud, O charai ; ac yn lliosawc, O cherym, O cherych, O cherynt. Mwy no pherffaith amsser ; O charasswn, o charassud, O charasai ; ac yn lliosawc, O chaessym, O chaessych, O chaessynt. Ffutr amsser, O charaf rracllaw, O chery, O char ef ; ac yn lliosawc, O charwn, O cherwch, O charant ; Neu val hyn, Pan garwyf, pann gerych, pann garo ef ; ac yn lliosawc. Pann garom, pan garoch, pann garont hwy.

Annhervynedig vodd ni ellir kael iddaw na Rif na Pherson, ac am hynny y gelwir ef yn annhervynedig vodd, val y mae ; Redec, Saethu, karu, neidiaw, ar kyffelyb,

Weithion y dysgwn ffordd i ddyohwelyd Berf ddiodevedic, yr ail Genedl or Bervau.

Pum amser a ddaw o Vynagedic Vodd.

Mynagedic Vodd, Kynhyrchiol amser. Am kerir, Ath gerir, A gerir : ac yn lliosawc ; An kerir, Ach kerir, Au kerir. Amherffaith amsser, am kerid, ath kerid, Hi kerid ; ac yn lliosawc, An kerid, Ach kerid, Au kerid. Perffaith amsser ; Am karwyd, Ath garwyd, A garwyd. ac yn lliosawc ; An karwyd, Ach karwyd, Au karwyd. Mwy no pherffaith amsser ; Am kaessid, Ath gaessid A gaessid : ac yn lliosawc : An kaessid, Ach kaessid, Au kaessid. Ffutr amser ; Am kerir, Ath gerir, A gerir ; Ac yn lliosawc, An kerir, Ach kerir, Au kerir.

Modd gorchymynnedic o Verf ddiodevedic, ni ellir i gael, eithr drwy ddodi y Verf Neawdr afryolus val y mae, Wyf, Wyt, Yw, yn y modd gorchymynnedic a chyvranniad o Verf ddiodevedic o amsser perffaith ar i hol, val y mae, Bydd garedic, bydded garedic ; Ac yn lliosawc ; Byddwn garedic, Byddwch garedic, Byddont garedic. Ffutr amsser ; Byddyh garedic, Byddo garedic ; ac yn lliosawc ; Byddom garedic, Byddoch garedic, Byddoch garedic. Modd damunedic kynhyrchiol amsser ; Ef a allai ym kerir, yth gerir, I kerir ; ac yn lliosawc ; Ef a allai In kerir, Ich kerir, Iw kerir hwynt. Mwy no pherffaith amsser ; Ef a allai ym karessid, yth karessid, y karessid ; ac yn lliosawc ; Ef a allai Yn karessid, Ych karessid, Yw karessid. Ffutr amsser, Ef a allai, Ym kerir, yth gerir, Y kerir ef ; ac yn lliosawc ; Ef a allai Yn kerir, Ych kerir, Y kerir hwynt. Amherffaith amsser ; Ef a allai ym kerid, yth gerid, y kerid ; ac yn lliosawc ; yn kerid, ych kerid, y kerid. Modd kyssylltedic kynhyrchiol amsser. Om kerir, Oth gerir, O cherir ; ac yn lliosawc, On kerir, Och kerir, Ow kerir. Amherffaith amsser, Om kerid, Oth gerid, O cherid ; ac yn lliosawc, On kerid, Och kerid, O cherid. Perffaith amsser ; Om karwyd, oth garwyd, O charwyd ef ; ac yn lliosawc, On karwyd, Och karwyd, O charwyd hwynt. Mwy no pherffaith amsser ; Om karessid, Oth karessid, O charessid ef ; ac yn lliosawc ; On karessid, Och karessid, O charessid hwynt. Ffutr amsser. Pann ym karer, Pann ith garer, pann i karer ef ; ac yn lliosawc, Pann yn karer, pan ych karer, Pann i karer hwynt.

Modd Annhervynedic a vydd i Verf ddiodevedic val ir wneuthuredig. Dau gyvranniad a ddaw o honni : un yn amsser perffaith, val y mae ; Karedic ; Ffutr amsser val y mae, Ym kara.

Llyma bellach val y dychwelir y Verf Neawdr afryolus y drydedd Genedl or Bervan.

Wyf, wyd, yw ; Bum, buost, bu ; Bod, Or bod, Yr bod, Yn bod ; At y bod, O vod, I vod.

Modd mynagedic kynhyrchiol amsser, Wyf, Wyd, Yw ; ac yn lliosawc, Ym, Ywch, Ynt. Amherffaith amsser, Byddwn, Byddud, Byddai ; ac yn lliosawc ; Byddym, Byddyh, Byddynt. Perffaith amsser ; Bum, Buost, Bu ; ac yn lliosawc ; Buom, Buoch, Buont. Mwy no pherffaith ; Buasswn, Buassud, Buassai ; ac yn lliosawc ; Buessym, Buessych, Buessynt. Ffutr amsser ; Byddaf, Byddy, Bydd ef ; ac yn lliosawc ; Byddwn, Byddwch, Byddant hwy rrac llaw.

Modd gorchymynnedic kynhyrchiol amsser ; Bydd, Bid ; ac yn lliosawc ; Byddwn, Byddwch, Byddont rrac llaw.

Modd damunedic kynhyrchiol amsser, Ef a allai vy mod, Dy vod, Y vod ef ; ac yn lliosawc ; Ef a allai Yn Bod, Ych bod, Y bod

hwynt. Mwy no pherffaith amsser ; Ef a allai Y buasswn, Y buassud, Y buassai ef ; ac yn lliossawc ; Ef a allai Y buessym, Y buessych, Y buessynt. Amherffaith ; Ef a allai y Byddwn, y Byddud, y Bydddai ; ac yn lliossawc, Ef a allai y Byddym, y Byddy, y Byddynt. Ffutr amsser ; Ef a allai y Byddaf rrac llaw, y Byddy, y Bydd ef ; ac yn lliossawc ; Ef a allai y byddwn, Y Byddwch, Y Byddant hwy rracllaw.

Modd kysylltedic kynhyrchiol amsser ; Od wyf, Od wyt, Od yw ; ac yn lliossawc, Od ym, Od Ywch, Od ynt hwy ; Amherffaith amsser ; O Byddwn, O Byddy, O Byddai ; ac yn lliossawc ; O byddym, O byddy, O Byddynt. Perffaith amsser. O Bum, O Buost, O Bu, ac yn lliossawc, O Buom, O Buoch, O Buant. Mwy no pherffaith amsser ; O Buasswn, O Buassud, O Buassai ef ; ac yn lliossawc, O Buassym, O Buassych, O Buessynt hwy. Ffutr amsser ; O Byddaf, O Byddy, O Bydd ef ; ac yn lliossawc O Byddwn, O Byddwch, O Byddant hwy. Neu pann Vwyf, Pann Vych, Pann Vo ; ac yn lliossawc ; Pann Vom, Pan voch, Pann Vont. Modd annhervynnedic, val y mae ; Bod, a hwnnw a ellir i roddi i gyd a phob amsser ; Henwau parthedic a ddont or un Verf, nid amgen ; Or Bod, Ir Bod, At y Bod, Yn Bod. Dan Barth gaib ysydd ; Un or kynhyrchiol, val y mae ; Yn Bod ; Arall or Ffutr val y mae ; I Vod.

Bervau diagynnedic yw y rrai ni aller i dychwelyd mewn kwbl o voddion, ac amsserau, val y mae ; Moes, Moessed, ac yn lliossawc ; Moesswn, Moesswch, Moessant.

BELLACH AM GASTRAWEN.

Ymadrodd neu gastrawennu yw kyvansoddi geiriau i gyd yn weddus.

Ymadrodd a ddechreuir o bedwar modd ; Weithiau y dechreuir drwy Nomnadio a berf berssonawl pann vo ymadrodd yn arwyddokau manegi peth neu wneuthur, val y mae ; Mi a wna dy. Weithiau y dechreuir drwy Verf amherssonawl, pann vo ymadrodd heb na Rif na Pherson, val y mae ; Neur darllen mewn Ysgolau. Weithiau y dechreuir drwy Vogiaid, pan vo ymadrodd yn arwyddokau Galwedigaeth, val y mae ; Simwnt kan gywydd. Weithiau y dechreuir drwy Aplliaid rrydd pann vo ymadrodd rrydd heb verf ynddo, val y mae ; A mi yn kerdded dros y mynydd Hydd a laddpwyd. Pan ddechreuer ymadrodd drwy Nomnadio a Berf bersonawl, y Nomnadio ar verf bersonawl a ddyleant vod yn yr un rif ac yn un bersson, ac or Nomnadio y dyleir dechrau ymadrodd kyd kystrawenner Ynghymraec y verf yn gyntaf, val y mae ; Yr wyfi yn rhoddi ac yn kynhiadu vynhir am tyddynau. Berf wneuthur-

edic yn gyffredin wedi kaffo Nomnadio oe blaen a vyn cael Achussiaid wedy hi, val y mae ; Mi a dreuliais Varian. Berf dioddevedic yn gyffredin a vynn kael Appliaid gydac Arddodiad wedy hi, val y mae ; Mi am keir ath weithred ti, neu o weithred arall. Berf amherssonol herwydd y mae Berf annhervynedic ac a gastrawennir gydac Achussiaid wedy hi, val y mae ; Mi a chwanychwn weled vynghariad. Gwybydd di mae y neb a veddianno ar y llall a vydd Genedio, val y mae ; llyma Lyfr Simwnt. Ar neb y rodder y peth iddaw a vydd Dadio. Ar neb y dyker oi arno a vydd Appliaid, val y mae ; Mi a dynnaf dy gap o i wrthud di. Gair gwann a gair kadarn a ddyleant vod i gyd yn un achos, yn un genedi, ac yn un rif, val y mae ; Hwnn ssydd vab da, Honn ssydd verch dda ; Y rrain a ymgarant. Pob parth rrywiawc, Pob parth sathredic, a phob Henw parthedic a vyddant unrryw achos wedy hwynt ; ac a vynno y Verf y delont y genthi, val y mae ; Mi a garaf vy Meistr ; Yr wyf fi yn darllain Kato ; Mi a gerddaf i ddarllain Kato.

Bellach rraid yw gwybod gwahanu rrwng kystrawennau val y galler dosparthu rryngthynt. Or kystrawennau rrai y ssydd berffaith o ssynnwyr, ac amherffaith o lef, val y mae ; Pobl a redant. Rai yssydd berffaith o ssynnwyr ac o lef i gyd, val y mae Ieuan a red. Rai y ssydd berffaith o lef ac nid perffaith o ssynnwyr, val y mae ; Pobl a red.

Or kystrawennau perffaith o lef ac o ssynnwyr i gyd, Rai yssydd gerddedic, Rai yssydd angkerddedic, Rai yssydd ail gerddedic. A rrai yssydd anweddedic. Kerddedic yw y gystrawen y bo gweithred y verf yn myned o bersson i bersson arall, neu bersson yn dangos dioddefaint i gan bersson arall yn myned ymhersson arall, val y mae ; Mi a ddarllleaf vy ngwers. Neu vy ngwers a ddarlleir om gweithred i.

Angherddedic yw y gystrawen ni bo gweithred y verf yn myned o bersson i bersson arall ; neu ni bo dioddevaint yn myned o bersson i bersson arall, val y mae Vynghydymddaith ssydd deg.

Ail gerddedic yw y gystrawen y bo dau ryw ddichweinidigaeth iddi, val y mae ; Mi a adolygaf y ti val y bych di vy nghydymddaith.

Unweddedic yw y gystrawen y bo yr unrhyw bersson yn gwneuthur ac yn dioddef e hun, val y mae ; Mi am karaf, Ti ath geri, Yntau ai kar e hun.

Y Nomnadio vyth a gystrawennir yn gerddedic i gyd ar Verf berssonawl ; ar kam achosion i gyd ar berfau amherssonawl ; ar achussiaid i gyd a'r berfau annhervynedic ; kam achussiaid hagen i gyd ar berfau perssonawl, ac i gyd ar Nomnadio a gystrawennir yn gerddedic. Kam achos yw pob achos, Eithr Nomnadio a Bogiaid, ar rrai hynny y ssydd iawn achosion.

Weithion rraid yw gwybod gwahanu y berfau, val y galler gossod pob un yn i chyfie. Or berfau rrai ysydd beressonawl, ac eraill amheressonawl.

Pob berf beressonawl a vyn Nomnadio oi blaen, neu beth a osoter yn lle nomnadio, val y mae ; Darllain ysydd dda.

Pob berf amheressonol a vyn kael kam achos kynn no hi, neu beth a osoter yn lle cam achos, val y mae ; Neur darllain, neu I ddarllain.

Or berfau peressonawl rrai ysydd verfau kedyrn, rrai ysydd verfau galwedic, a rrai ysydd verfau gweinion. Tair Berf gadarn ysydd, nid amgen.

Pump berf galwedic ysydd yn Lladin a dwy ynghambaraec nid amgen, Em enwir, Em gowir. Y berfau eraill ysydd rai gweinion, a berfau kedyrn, a berfau galwedic ; a berfau y bo i grym hwyntau arnynt, val y mae ; Af, a berfau a berthynont ar ddissyvedigaethau, val y mae, Savaf, Eisteddaf ; a berfau a berthynant ar weledigaeth, val y mae ; Em gwelir, Em dangossir ; ar berfau hynn a vynnant kael Nomnadio wedi hwynt, megys kyn noc hwynt ; A pha gystrawen bynnac a vo ar y verf yn y blaen, honno a vydd arni yn i hol yn i dychweliad ac yn i thervynniad, ac yn y kyvrannadau, Annhervynadau y berfau hynny a vynnant gael achussiaid gwedy hwynt, o bydd achussiaid kyn noc hwynt, kans unrryw achos ac a vo kynn noc hwynt a vydd wedy hwynt val y mae Trueni i wr vod yn ddrwg. Mi a baraf wr ewyllysiol i vod yn dda, ac amryw gonstrawen a honno a vydd ar y kyvranniadau a ddel i gan y verf honno, val y mae ; Y peth hwnn ysydd o wr ywyllysiol i vod yn dda ; Mi a welaf wr yn bod yn dda.

Berfau galwedic a vynnant henw priod wedy hwynt ; neu alwedigaeth briod : henw priod, val y mae ; Em gelwir Simwnt ; ac os yr ymadrodd a vydd amgen no hynny, kam ymadrodd a vydd ; oni bydd gossod y verf alwedic yn amhriodol, val y mae ; Em gelwi i dy dadoc ; sef yw hynny ; Em kyfrifir i dy dadoc.

O bedwar modd y govynnir am henw priod val y mae hynn ; Pa vodd y gelwir hwnn ? Pa henw y gelwir hwnn ? Pa henw a gavas hwnn ? Pa henw ysydd i hwnn ?

Or berfau gweinion rrai ysydd verfau rryddion, Rai ysydd verfau erchefnedic. Berf rydd yw yr honn y bo digon o ssynwyr ynddi heb edrychedigaeth o gam achos wedy hi, val y mae ; Ef yn rredec, Ef yn rrodio, Ef yn dywedud.

Berfau erchefnedic yw y rrai y bo ynddynt edrychedigaeth ar gam achos o ddi allan gwedy hwynt, vel y mae ; I gweler, I kynnydder.

Or berfau rryddion rrai a gonstrawennir gyda Genedio, Rai gyd a

Dadio. Rai gydao Achussiaid a Rai gyd ac Appliaid. Y berfau hynn, Truanhau, Kosbi, a phob berf ac a berthyno ar ebryvgy neu goffhau a vynnant wedy hwynt achussiaid neu Enedio, val y mae ; **Mi yn ebryvgy ryngwers, neu om gwers.**

Trugarhau a all gael Dadio gwedy hi, val y mae ; Arglwydd trugarha ymi. Y verf honn, A dal, a gyvansoddir gyda Nomnadio, a Genedio wedy hi, val y mae ; Y gwnn hwun a dal dec o ssylltau. Y berfau hynn, parodhau, gorchymynnu, dywedyt ; a vynnant gael Dadio wedy hwynt ; neu achussiaid a berf annhervynedic, val y mae hynn ; Mi a orchymynnaf yti wneuthur hynn ; ac a vunno kael achussiaid neu verf annhervynedic, val y mae ; Mi a ddywedaf y ti. Neu, Na ddywaid y gair hwnnw y my vi. A phob berf a berthyno ar gymwynassau neu anghymwynassau, a vyn kael Dadio wedy hi, val y mae ; Mi a venffykaf y ti.

Bervau a arwyddokaant arglwyddiaeth neu oruwchelder neu ddarostyngedigaeath, neu ufudd-dawd, neu gymheiriaeth, neu gydymddeithas, a vynnant Ddadio wedy hwynt, val y mae ; Mi a ydolygaf y ti, Mi a ddarostyngaf i ti, Mi a gydymddeithiaf y ti, Mi a gymheiriaf y ti.

Berfau a berthynont ar weddio val y mae ; Mi a weddiaf, Mi a ydolygaf ; neu ar gwynaw, neu ar wylaw a vynnant kael Achussiaid wedy hwynt, val y mae ; Yr wyf vi yn dy weddio di, Mi a wylaf ddwfr.

Berfau a vynnant weithiau achussiaid wedy hwynt drwy ffugr val y mae ; Mi a ddoluriaf vy mhen ; Ac weithiau pan arwyddokao amsser, neu le, val y mae ; mi a drigais i gyd a thi dridiau. Ac weithiau pann arwyddokao achos, val y mae ; Mi yn amkanu, rryveloedd.

Or berfau archeffnedic, rrai yssydd verfau achussiaiwl, rrai yssydd verfau gwneuthuredic, rrai yssydd verfau dioddefedic, rrai yssydd verfau Neawdr, y rrai yssydd verfau kyffredin.

Berf achussiaiwl a vynn achussiaid wedy hi, val y mae ; mi ath gerais di. Rai eraill o verfau achussiaiwl ni allant lehau achussiaid wedy hwynt oni bydd berfau annherfynedic yn ol, val y mae ; Mi ath debygaf di i vod yn varchog. Rai eraill or berfau achussiaiwl a vynnant wedy hwynt ddau gam achos ymravael, nid amgen, Achussiaid ac Appliaid, neu Genedio, val y mae ; Mi a brynaf y llyfr o ddwy geinioc, neu ar ddwy geinioc, neu a dwy geinioc.

Y berfau hyn, Roi, Kanniadhau, Prynnu, ai kyffelyb hwyntau a vynnant Achussiaid wedy hwynt, a Dadio, val y mae ; Mi a roaf y ti geiniog, neu ffloring, neu bunt.

Weithion y ssoniwn am obennyddion berfau. Pump gobennydd berf wneuthuredic yssydd, nid amgen, yn, Af, val y mae ; karaf ;

yn Ais, val y mae; Kerais; yn Wnn, val y mae; Karwn: yn As-swn, val y mae Karasswn: yn Wyf, val y mae Karwyf.

Pump gobennydd berf ddiodevedic yssydd, nid amgen; yn Ir, val y mae; Am kerir: yn Id, val y mae Am kerid; yn Wyd, val y mae; Am karwyd: yn Essid val y mae, Am karessid; yn Awdd, val y mae; Am karawdd rrac llaw.

Pa vodd yr adweinir Appliaid?

Appliaid weithiau a ysgyfl y peth ato, val y mae; Yn y ty, Yn y mor, Yn y Dref; Weithiau eraill ai gwrthyd, val y mae; Oi wrth y dref, Oi wrth y mor. Hevyd chwech arwyddedigaeth yssydd i Appliaid, val y dywetpwyd or blaen, nid amgen, Yn, Gyda, Wrth, Or, Drwy, Noc. Yn, Gyda, Wrth, a arwyddokaant ysgyflledigaeth, val y mae; Yn y ty, Gyda'r brenhin, Wrth i vwnwgl y ty; y brenhin ar mwnwgl, Appliaid ynt o nerth yr Arddodiaid hyn; or, drwy, noc, a arwyddkaant wrthodedigaeth, val y mae; Or ty, Drwy y ty, Noc y vo; val dywedyd. Gwell wyf vi noc e vo. Ac velly y llywodraethir yr achossion. Y nomnadio a wna y peth, y Genedio piau, y Dadio y rhoddir y peth iddaw, yr Achussiaid a gyhudda, y Bogiaid a eilw, ar Appliaid a ysgyfl, neu a wrthud.

Pa ssawl kydgordiad y ssydd mewn Ymadrodd?

Pump, nid amgen y kysevin; sef yw hwnnw, y kyntaf a vydd y rrwng y Nomnadio achos ar verf; hwynt a gydgordiant mewn dau beth, nid amgen, mewn Rif a Pherson: Pa vodd vydd hynny? Yr un rrif ar un bersson ac a vo ir Nomnadio or blaen a vydd ir verf ar i ol, val y mae; Mi a garaf, Ti a geri, Ef a gar.

Yr ail kydgordiad a vydd y rrwng yr Henw kadarn ar Henw gwann; hwynt a gydgordiant mewn tri pheth, nid amgen; Rif, Kenedl, ac Achos: Pa ffurf vydd hynny? Yr un rrif, yr un genedl, ar un achos ac a vo ir henw kadarn or blaen a vydd ir henw gwenn ar i ol, val y mae, Ty gwynn, Neuadd wenn.

Y trydydd kydgordiad a vydd y rrwng henw dygiedic oi vlaenor ai vlaenor; hwynt a gydgordiant mewn tri pheth, nid amgen, mewn rrif, kenedl, a phersson. Pa ddelw vydd hynny? Yr un rrif, Yr un genedl, ar un bersson a vydd ir henw dygiedig ar ol i vlaenor ac a vo yw vlaenor, val y mae yr ymadrodd hwnn; Prens a losgwyd heddyw yr hwnn a dorrwyd ddoe; Derwen a losgwyd heddyw yr honn a dorrwyd ddoe. Da a drefnwyd heddyw yr hynn a gad er ys blwyddyn.

Y pedwerydd kydgordiad a vydd y rrwng henw rannedic dosparthedic a Genedio; hwynt a gydgordiant mewn un peth, nid amgen; mewn kenedl. Pa vodd vydd hynny? Yr un genedl ac a vo i'r henw rrannedic dosparthedic o vlaen y Genedio, a vydd ir Genedio ar i ol yntau, val y mae; Ieuan yw un or dynion, ar Genedio a reola'r henw, rrannedic dosparthedic.

Y pumed kydgordiad a vydd y rrwng Superlliaid radd a Genedio ar i ol : hwynt a gydgordiant mewn un peth, nid amgen mewn kenedl unic. Pa vodd vydd hynny ? Yr un genedl ac a vo ir Superlliaid radd or blaen, a vydd i'r Genedio ar i ol, val y mae ; Mair yw y dekaſ or dynion, un genedl yw Mair ar dekaſ ; ar dekaſ a ddyly vod yn un genedl ar dynion, ac oni byddant velly ni byddant yn kydgordio. A hevyd oni byddant o un natur ni chydgordiant, val y mae ; Y gwr gorau or gwyr. Ryw amsser y bydd rreswm yn sevyll yn lle henw kadarn, val y mae ; Yn klowed bod y brenhin yn mynd i Ddofr.

Pan vych gwedy kael yr henw dygiedic oi vlaenor, govyn y kwestiwn, Pwy, ne pa beth : ar gair a atepo ir kwestiwn a vydd y blaenor, val y mae ; Pwy yssydd wr da ? Yr hwn yssydd yn kadw kyngor i henaviaid a chyfraith.

Y blaenor yn gyffredinol ydyw gair ar yssydd yn myned o vlaen y dygiedic ; ar dygiedic yn i goffhau drachefn.

Ryw amsser y dygiedic oi vlaenor y ssydd ar rresswm kyvan yn myned oi vlaen yn lle i vlaenor, ac a ossodir yn y Neawdr genedl or unic rif, val y mae ; Mi a ddaethum mewn amsser kymhessur yr hwnn beth yssydd orau or kwbl. Namyn os yr henw dygiedic oi vlaenor a vwrir at ddaſ glaws, neu vwy yna y rroir y dygiedic oi vlaenor yn rrif lliosawc, val y mae ; Yr wyt ti yn kyngu llawer, ac yn yved yn vnych, yrrain bethau yll dau ynt elynion ir korff.

Pan vo llawer o vlaenoriaid unic a chyssylltiad kyssylltedic y rryngthynt ; hwynt a vynnant henw dygiedic lliosawc gwedy hwynt, val y mae ; Y rreol ar penndevigaeth y rrhain a ovynnaist di.

Henw dygiedic oi vlaenor wedi i ossod y rrwng dau vlaenor, a eill gadw a phob un yn gyffredin, val y mae ; Mae planed yn yr wybr yr hon a elwir Satwrn.

Weithiau yr henw dygiedic oi vlaenor, weithiau yr henw gwann, a etyb ir tadoc, yr hwnn a ddyellir yn y meddiannol rachenw, val y mae ; Yr oedd bawb yn dywedud pob dayoni, ac yn kaumul fy ffortan ; yr hwnn oedd ym vath vab.

Pob amsser ar ni bo Nomnadio y rrwng yr henw dygiedic oi vlaenor, ar verf ; yr henw dygiedic oi vlaenor a vydd Nomnadio ir verf i hunan, val y mae ; happus yw'r gwr, yr hwn a allodd weled y ffynnon o ddayoni, neu val hynn ; Truan yw'r hwnn yssydd yn rryveddu am arian. Megys ac y gall henw dygiedic oi vlaenor vod yn Nomnadio i'r verf, velly y gall ef vod yn henw kadarn ir gwann ar yssydd ynghysswilt ac ef, neu yssydd yn dyfod yn i ol val y mae hynn ; Na chtar gyvoeth yr hwnn y ssydd waethaf peth yn y byd.

Os rhoir Nomnadio y rrwng yr henw dygiedic oi vlaenor ar verf,

y verf neu air arall ar a ossoter yn y rresswm gydar verf a reola yr henw dygiedic oi vlaenor, val y mae; Ir neb yr archassoeh chwimi ddiolch mi a ddiolchais.

Weithiau y dyellir y blaenor wrth y dygiedic oi vlaenor oddiallan, er nad ysgrivenner, neu nas dywetter, val y mae: Y neb a annrhegassoeh a ddiolch ywch.

Weithiau eraill y dyellir y blaenor ar dygiedic oi vlaenor oddiallan wrth y rresswm val y mae; A garo Duw a gosba drwy ddyall, Y neb a garo Duw a gosba; megys y mae dihareb ymysg y Lladinwyr; Y peth yssydd yw ddyall, nid yw ef yn eissiau.

Ryw henw dygiedic oi vlaenor a vydd yn gyffredin wrw a banw, val y mae y gair hwnn; Pwy, val hynn i'r gwrw or unic rif, Molianwn Grist, Pwy on prynodd ni ar brenn kroes; ac val hyn i'r banw or unic rif, Molianwn Vair, pwy a arweddawdd yn i chroth yn prynwr ni. Ac yn gyffredin ir lliossawc rif hevyd yn gystal ac ir unic, val hynn; Molianwn yr Ebstolion pwy a wnaethant pynkiauw y ffydd Gatholic; yn yman honno y mae pwy yn sevyll yn y lle, y neb.

Nid arddangossir ddim or Nomnadio or kynta neu or ail berason, oni bydd o herwydd disgressiwn dosparth, val y mae, chwchwi a wnaethoch; val pei dywedid; Nid neb arall. Neu o achos Emphassis, val y mae chwchwi yw yn amddiffyn ni, chwchwi yw yn tad ni, o gwrthodweh chwini nyini, ef a ddarfu am danom ni.

Yn y berfau yssydd ai dyall yn perthyn yn unic i wyr ef a ddyellir y Nomnadio or drydydd berason yn vynyeh er nad arddangosir ddim o honi, val y mae; Ef a ddywedir, Hwy a ddywedant, Hwy a grant, ar vath hynny.

Nid yw y gair achossawl bob amsser yn Nomnadio ir verf, Eithr rryw amsser y mae y modd annhervynedic yn Nomnadio ir verf, val y mae; Dywedyd kelwydd ni pherthyn i mi.

A rryw amsser y rresswm a vydd yn Nomnadio, val y mae Iachaf peth yn y byd yw kyvodi yn vorau.

A rryw amsser arall rracferf a Genedio ar i hol a vydd yn Nomnadio ir verf, val y mae; Rann or gwyr a las mewn rryfel. Pan vo y verf wedi i rroi y rrwng dau Nomnadio o ymravael rif, ef a all y verf gydgorio a phob un or ddau yn gyffredin drwy i bod or un berason, val y mae; Dim nid oes yn eissiau yma ond pennillion; neu val hynn, ymrossonnau kariadau yssydd adnewyddiad kariad.

Berfau amherasonawl ni allant gael achos oi blaen val y mae, Karu, Redec, Gwneuthur; Neu Raid ynn, Gweddus iddaw ef.

Henwau rannedic dosparthedic a gysylltir ar amsserau i gyd a berf liossawc, val y mae; Rai a aethant drwy ddeall, rraid yw ymi, neu oedd ymi, gweddus y ymi neu oedd.

O bydd mwy o verfau noc un mewn ymadrodd, Y gyntaf o naddunt a vydd y verf dywysogawl oddieithr i un or tri achos hyn, i lluddias. Un yw i bod yn dyvod ar ol henw dygiedig oi vlaenor; val y mae; Yn tad ni yr hwnn wyt yn y Nefoedd, sancteiddier dy henw di; Yna ni chaiff y gyntaf vod yn dywysawc, eithr honn a ddel ar i hol hithau a vydd, val y mae; Santeiddier. Yr ail achos yw o bydd hi berf gyssylltedic vodd ni all hi vod yn dywysogawl, val y mae: Os kaf lyfr mi a ddiolchaf ywch; neu, Pann weloch vynghariad anherchwch hi,

Y trydydd achos yw o bydd hi berf anhervynedic vodd, neu verf amherissonawl, ni all vod yn dywysogawl un amsser; eithr y verf nessaf a ddel ar i hol a vydd tywysogawl, val y mae; Karu Duw ai ofni y ssydd dda.

Kans or geiriau kyvan yrrai yssydd rannau or ymadroddion, y gwneir yr ymadroddion kwbl, wrth hynny rhaid yw gwybod bellach beth yw ymadrodd, a pha ffurf y gwahaner ymadroddion. Ymadrodd yw kynnullidfa llawer o eiriau i gyd.

Deuryw ymadrodd y ssydd, nid amgen; Ymadrodd perffaith, ac ymadrodd amherffaith.

Ymadrodd perffaith a vydd pan vo henw a berf i gyd yn weddus, val y mae; Mi a garaf Dduw.

Ymadrodd amherffaith a vydd pann vo dau henw neu dri yng-hyd heb verf i gyd ac wynt; neu ddwy verf neu dair ynghyd heb henw i gyd ac wynt; henwau heb verf i gyd ac wynt, val y mae; Gwr, Gwraic, Meroh: Berfau heb henw val y mae; Kanu, Karu Dyagu.

Deuryw ymadrodd perffaith yssydd, nid amgen; Ymadrodd perffaith kyviawn; ac ymadrodd perffaith anghyviawn.

Ymadrodd perffaith kyviawn a vydd pann vo henw a berf i gyd yn weddus gyviawn, heb na gwydd ac apssen i gyd ynddaw: nac unic a lliossawc i gyd ynddaw; ac oni bydd velly kam ymadrodd ac amherffaith, ac anghyviawn vydd.

Dau henw unic cystal ynt ac un lliossawc, val y mae; Madoc ac Ienan a garant Wenllian.

Henw unic kynnullidic kystal yw a henw lliossawc. Ac am hynny iawn Gymraec yw dywedyd; Meirw yw y llu oll; neu y bobl a garant Elen. Ac yn unwedd a hynny, henw kynnullidic lliossawc a dal dau henw unic kynnullidic, val

Yma yr yspyswn or trydydd Llyfr Kerddwriaeth Kerdd Davod, nid amgen; Pedwar mesur ar hugain; kans or Ymadroddion perffaith kyviawn y bydd Mydr, neu Brydiad.

Beth yw Mydr neu Brydiad? Kyvanssoddiad Ymadroddion perffeithion kyviawn o eiriau addurn ardderchwch, a dekaer o

eiriau gwann kymeredic, a arwyddokaant Voliant neu Ogan, a hynny ar Gerdd Davod ganmoledic.

Tair Kaink Prydyddiaeth yssydd, nid amgen ; Kywyddau, Ynglynion, ac Odlau.

Tri rryw Gywydd y ssydd ; Kywydd deuair, Kywydd llosgyrniog ; ac Owdl Gywydd.

Deuryw Gywydd deuair yssydd ; Kywydd deuair vyrion, a Chywydd deuair hirion.

Kywydd deuair vyrion a vessurir o wyth Silldaf, pedair ymhob bann ; val y mae hwnn or dull hen.

Eiliw gwenio Tonn am gerric.

ac or dull newydd val hyn ;

Dewr hil vil vur ; Didarf Dudur.

Kywydd deuair hirion a vessurir o bedair silldaf ar ddeg, Saith ymhob darn, val y mae hwn or hen ddull :

March ffyrf archgrwn byrr i vlew,
Llyfn, llygadrwth, pedreindew.

ac or dull newydd,

Y mae y mi am y myd
Wyneb un yn i benyd.

Kywydd llosgyrniog a vessurir o ddau vann, neu o dri, neu o bedwar, o wyth silldaf ymhob bann, ac yn unawdl bob llosgwrn drwy y Kywydd ; ac yn ssaith Silldaf o hyd, a gair kyrc'h rhwug y pennill ar llosgwrn, val y mae hwnn or hen ddull ;

Lluwch Eiry arwydd Mynydd Mynnau,
Lluoedd ath vawl gwawl gwawr Dehau,
Llathrlun goreu oleuddydd.

ac or dull newydd,

Y mae gorhoff Em a garaf,
O gof aelaw ac a volaf,
O choeliaf gael i chalon.

ac val hyn o dri Bann ;

Iawnach heddyw yw nai chuddio
Uwch i chenedl uwchuwch yno,
Ar i golwoc ar ai gwelo
Alo honno eiliw hinonn.

neu val hynn o bedwar Bann ;

Oll awn ir Gaer y llenwir gwin
I Glas hirddol Eglwys Hyrdin
Y Plas ymy val Powls a Sin
Pantri'r Val val Pentre'r velin,
Aur dilin im ywr dolydd.

Awdl gywydd a vessurir o bedair silldaf ar ddeg, saith ymhob bann, a gair kyrch ynechrau yr ail bann yn ateb ir awdl gyntaf; ar awdl ddiwaethaf yn amrafael a honno yn un awdl drwy y kywydd, val y mae hwnn or henn ddull;

O gwrthodi liw ewyn
Was divelyn, gutynnau,
Kael o honod aradr gaeth
Y waethwaeth I anwydau.

ac or dull newydd val hynn;

Un a dal y Nadolic
Obr diddyg i Brydyddion,
Ac a bryn ddec o bae raid
Llongaid val y gollyngon.

Weithion yr ysbysswn or ail gaink, nid amgen; Ynglynon; Deuryw Ynglyn ysydd, nid amgen; Unawdl, a Phrooest. Tri rryw Ynglyn unawdl ysydd; Unawdl union, Unawdl kyrch, ac Unawdl krwcca.

Ynglyn Unawdl union a vessurir o ddec silldaf ar hugain; un ar bymtheg yn y paladr; pedair ar ddec yn y penn; gossodiad y paladr yn y bumed Silldaf; sef yw hwnnw Racwahan; ac o bydd yr awdl gyntaf yn tervynu yn y sseithfed ssilldaf, bid y gair kyrch yn dair ssilldaf: os yn yr wythved y tervyna bid y gair kyrch yn ddwy ssilldaf; os yn y nawfed y tervyna bid y gair kyrch yn un ssilldaf. Ar tervyniad hwnnw a elwir Gwahan, val y mae hwnn yn tervynu yn yr wythved;

Dylynais klwyvais val y klyw—deukant
Y dekaſ o ddyd byw,
Dolur gormodd am doddyw,
Dilyn pryd ewyn prid yw.

Yr ail ddull ar Ynglyn Unawdl uniawn, yw i drawsgynghaneddu heb racwahan ynddaw, val y mae hwn;

Arglwydd Sain Bened a erglyw—weiniald,
Anawdd kael i gyfryw;
Bid menestr bywyd Mynyw,
Beda ddoeth abadoedd yw.

Ac er na bo racwahan, y mae yn rraid iddaw gael gorffwyssva yn y bumed Silldaf.

Ac weithiau y kenir odidowgrwydd ynddaw, ssef yw hynny rroi y gair kyrch i ateb ir bumed ssilldaf, val y mae hwnn;

Dolur* a gevais o dalau—dwyais,
Dial am bechodau,
Dwyran adwyth dyrnodiau,
Dwr y kryd yn *dyrau*† krau. † dirwyn.

* Simwnd Vychan pan vu yn glaf or kryd.

Ynglyn Unawdl kyrch a vessurir o wyth silldaf ar hugain, Saith ymhob un oi bedwar bann ; y paladr val pennill o Gywydd deua-
air hirion ; ar penn val Owdl gywydd, val y mae hwnn ;

Diboen Veroh Koel Godeboc
I Gred y kevaist y Groc ;
Ugain trychant a wrantu
Oedd oed Iessu Dduw dwysoc

Ac weithiau y kenir y messur hwnn yn brooest kyrch, val y
kanodd Tudur Aled yr Ynglyn hwnn.

Nerth yw dy rann wrth dy rymm
Aeth yn dy ras ath waew'n drwmm
Aethoet iownlwyth Ystanlai
Lle nid ai y llew na dimm.

Ynglyn unodl krwka a vydd pann vo y ddau vann hirion yn ol
ar ddau vann vyrrion ymlaen, ac yn wrthwyneb i Unawdl uniawn,
ac yn un messur ac ef, val y mae hwnn ;

Ir gangen wann ar lannerch
A rodde yn arwydd sserch
A chudynnau brwyn, o chaid annerch hardd
I glaervardd eglurverch.

Deuryw Ynglyn Prooest yssydd ; Prooest Kadwynoc a Phrooest
Kyvnewidioc.

Prooest kyvnewidioc a newidia odlau amravael, ac a vessurir o
wyth ssilldaf ar hugain ssaith ymhob un oe bedwar bann, val y
mae hwnn ;

Y gwr y mydd dri ac un ;
Dad, mab, ac ysbryd, a dyn ;
Duw vara gorff dwfr a gwin
Ydyw oll a ddeallwn.

Prooest kadwynoc a vessurir or un hyd, ac a gadwynir, val
hynn ; Y drydedd awdl yn ateb i'r gyntaf ar bedwaredd yn ateb
ir ail, val y mae yr ynglyn hwnn ;

Mae Rys heb gael mwy or hun
Mae'r genedl ai mawr gwynan,
Mae'r beirdd oblegid marw bun
Mewn llewyg am Wenllian.

Beth yw Prooest ? Kyvnewid bogaliaid a chyd ateb kydssein-
iaid, a hynny yn odlau yr Ynglyn, val y mae yn dangos or blaen ;
a phan vo prooest yn tervynu mewn bogaliaid heb gydsseiniaid ar
eu hol, hwnnw a elwir hanner prooest, neu prooest bogaliaid, val
y mae hwnn.

Doeth ith etholess Iessu
Em addwyn yn vam iddo ;
Dovydd o ddiwad Avi,
Rac dial aval Eva.

Yr Ynglynion eraill, nid amgen ; Ynglyn or hen ganiad, Ynglyn garhir, Ynglyn milwr, ac Ynglyn kil dwrn ; over vessurau ynt, ac nid ydynt yn y pedwar messur ar hugain.

Bellach yr ysbyswn o dryddedd gaingc prydyddiaeth, nid amgen ; Odlau ar bymthec messur ; Toddaid, Gwawdodyn byrr, Gwawdodyn hir, Hupunt hir, Hupunt byrr, Kyhydedd hir, Kyhydedd verr, Kyhydedd nawbann, Byrr a thoddaid, Hir a thoddaid, Kyrch a cwwtta, Klogyrnach, Gorchest Beirdd, Kadwyn vyrr, a Thawddgyrch kadwynawc.

Toddaid a vessurir o bedair silldaf ar bymthec, a dwy awdl unrhyw yn y pennill ; a gair toddaid vegis gair kyrch ynglyn unawdl uniawn yn tervynu yn y ddegved ssilldaf ir bann olaf or pennill toddaid, bid yn naw ssilldaf vyth, val y mae hwnn ;

A vynno evo a vydd yn e bro,
Ar hynn a vynno na bo ni bydd.

Gwawdodyn byrr, a vessurir o ddwy ssilldaf ar bymtheg ar hugain, nid amgen ; dau bennill vyrrion o naw ssilldaf ymhob un, ac un hir val toddaid yn ol, val y mae y pennill hwnn

Lle bu'r Gaer vaen llwybr gwyr a vynnai
Lloegr o dir o dir Ffrank yn Ievank a wnai,
Llew blin ym myddin maeddai
Llym varchog enwoc a ddigonai.

Gwawdodyn hir a vessurir o bymtheg ssilldaf a deugain ; pedwar pennill byrrion o naw ssilldaf bob un, a phennill o doddaid yn ol o bedair ssilldaf ar bymthec, val y mae y pennill hwun ;

Rhedaf rrad breisgaf lle rred brwyegion,
Rannai rroid ossai ir rreidussion ;
Reol Rys deol rryw westeion ;
Reidwest rrod llnest radau Leon ;
Ryddglos rradd agos, Ri digon rryddlys
Rys, ryw vaan ysby Rufain oebion.

Hupunt byrr a vessurir o bedair Silldaf ar hugain ; dau bennill o ddeuddec ssilldaf bob un ; a thri phennill byrrion ymhob un o bedair ssilldaf, ar ddau gyntaf yn ateb yw gilydd ; ar trydydd yn arwain yr awdl val y mae y pennill hwun ;

Iawn oi perchu	}	o bob eirchiad
I bawb erchi		
Ar y diben	}	I Sion Abad.
Oes anniben		

Hupunt hir a vessurir o un Silldaf ar bymtheg yn unic, os dau bennill, un ssilldaf ar bymtheg ymhob un ; a phedwar pennill byrrion ymhob un, o bedair ssilldaf ; ar tri cyntaf yn unawdl ; ar pedwerydd yn arwain yr awdl, val y mae hwun ;

Mi a baraf Im gwenn araf Gann a garaf	}	Gan o Gerydd.
Am lyvaesu Fy nivlassu Am lliassu		

Am lyvaesu Fy nivlassu Am lliassu	}	Em llioesydd.

Kyhydedd verr a vessurir o bedwar pennill o wyth Silldaf ym mhob un ; ac yn unawdl bob un, val y mae hwenn,

Yn Ior ydwyt Sion waredawc
A'n cun eurvalch Siancyn arvawc
Wyr Faredudd arf Riwaedawc
Aer arvodau orwyr Vadawc.

Kyhydedd hir a vessurir o ddau bennill o bedair ssilldaf ar bymthec ymhob pennill, a thri phennill byrrion unawdl o bump ssilldaf bob un yn y dechrau, a phennill byrr o bedair ssilldaf i arwain yr awdl val y mae hwenn.

O rroes voes veissydd, Ivor rragor rrydd, Ev a roe Davydd	}	I veirdd ddenwvy.

Oes deiroes dirion A bair Mair yn Ion I buro kanon	}	Aber konwy.

Kyhydedd nawban a vessurir o bedwar pennill o naw Silldaf bob un ; ac yn unawdl oll, val y mae y pennill hwenn ;

Aruthr yw llongaid wrth ddryll angor
O bai yw gweddi heb egwyddor ;
O byddai megis budd ymagor
Y bobl o Wynedd heb i blaenor.

Byrr a thoddaid a vessurir o bedwar pennill byrrion o wyth ssilldaf bob un val Kyhydedd verr, a phaladr ynglyn ar eu hol yn diweddu pob pennill or awdl ; a phaladr ynglyn or blaen yn nechrau'r awdl, val y mae y pennill hwn.

Yno'r awn win llawn Ion llwynau—Hyrddin,
Yw heirddion neuaddau,
I dai'r dalaith Duw ar delwan,
Ac ynn bedwar gwin a lwydau,
I bur llynnoedd o berlannau
Ynn a redant yn wirodau,
Yno gwelir gwir dan gaerau nevawl
Arglwyddawi roi gwleddau.

Hir a thoddaid a vessurir o drugain Silldaf, nid amgen, pedwar pennill byrrion o ddec Silldaf ymhob un, a phennill o Doddmaid yn ol, o ugain Silldaf, ac yn unawdl oll, val y mae hwn.

Gwnn a wna venaid gain enau vwyniant
Gweddio'r Iesu gwiwdduw oreussant

Gar bron y delwau gwawr breiniau dylwant ;
 Gwyddai Dduw deilwng gweddi ddi doliant,
 Gwiwras a gavas gwarant oe gweddi
 Gan Dduw oll iddi gynnydd a llwyddiant.

Kyrch a chwтта a vessurir o un ssilldaf ar bymtheg a deugain,
 nid amgen, chwech o bennaillion byrrion unawdl o ssaith ssilldaf
 ymbob un a phennill yn ol o bedair ssilldaf ardded, val penn
 ynglyn unawdl kyrch, val y mae hwnn.

Lloer ddeddfol llariaidd addved,
 Llawen oedd i llunieiddied
 Llawnglud verw llonn glodvored,
 Llym orchest haul llu merched,
 Llys dirion drem llesteiried,
 Lludd vu varw lleddf vvyried :
 Lllyn son mewn llwyn oe sserch
 Llais vannereh ; lles a vynnied.

Klogyrnach a vessurir o ddeuddec Silldaf ar hugain, nid amgen ;
 dau bennill o wyth ssilldaf bob un yn y dechrau, val hanner Ky-
 hydedd verr a phennill yn ol o un ssilldaf ar bymthec, ac yn
 hwnnw dri phennill byrrion, dau yn unawdl o bump ssilldaf bob
 un, ar trydydd o chwech yn arwain yr awdl, a gair kyrch yn y
 drydedd ssilldaf yn ateb yr ddau bennill vvyrrion, a thair awdl yn
 y pennill oll, val y mae hwnn.

Brwygwr dynion braisgc Ior doniawc
 Bro aer rinwedd breyr enwawc ;
 Brad vugad vwgwl,
 Brawdwr killwr kwl,
 Braich yniwl Brecheiniawc.

Gorchest beirdd a vessurir o un bann o bymtheg Silldaf, ac yn
 hwnnw y bydd dau bennill vvyrrion o bedair ssilldaf bob un yn un-
 awdl ; ar ail ssilldaf or ail pennill yn ateb ir ail or kyntaf, ac yn
 gydssain ac yn groes gynganeddawl bob un ; a phennill o ssaith
 ssilldaf yn ol yn arwain yr awdl ; ar pedwaredd ssilldaf ar ail o
 hwnnw yn kydsseiniaw ar pennaillion byrrion, ac yn ddwbl ryw-
 iawc kroes gynganeddawl, val y mae hwnn ;

I rrwydd air hir
 Yw chwydd, Och wir !
 Y swydd ai sser y syydd ssaith.

ac yn gymar i hwnnw ;

I glai a glyn
 Y rrbai or hun
 Idd ai y ddyn I Dduw 'ddaeth.

Kadwyn vyrn a vessurir o ddeuddec Silldaf ar hugain, nid am-
 gen ; Dau bennill o un ssilldaf ar bymthec bob un, a gair kyrch

ymhob un or rreini yn y ddeuddeuced Silldaf yn ateb ir wythved, ai gynghaneddu yn ddwbl bob pedair ssilldaf a phob wyth ; ac yn y pennill oll y bydd tair awdl heblaw y pedair awdgyrch, nid amgen, yr awdl gyntaf yn tervynu yn yr unved ssilldaf ar bymthec ; yr ail awdl yn yr ugeinved ssilldaf ; ar drydedd awdl yn diweddu y pennill ; a gwybydd vod y pedair gyrch uchod yn unawdl, val y mae hwnn.

Gwennvun gwynvawr gainwyn gynvyl
Gariad gweryl giried gorau,
Gwirvodd gyrvau gorvydd gweurvyl
Goruc eryl gwiw ragorau.

Tawddgyrch kadwynawo a vessurir o bedair Silldaf a thrugain ; ac yn hwnnw y bydd pedwar pennill byrrion o un ssilldaf ar bymthec ymhob un ; ac ymhob un or ddau bennill gyntaf y bydd dau bennill vyrrion o wyth ssilldaf bob un ; ar ssilldaf gyntaf oll yn ateb ir awdl, ar wythved ssilldaf yn ateb ir ddeuddegved, ac yn yr unved ssilldaf ar bymthec, bod yr awdl ar bedwaredd ssilldaf or ail bann yn ateb ir bedwaredd ssilldaf gyntaf ; ar wythved or ail bann yn ateb ir wythved or bann kyntaf, ar deuddegved or ail bann yn ateb ir deuddegved or kyntaf ; ac yn y deuddegved ssilldaf ar hugain, bod yr ail awdl ; Ar hanner arall a geuir val dau bennill yn gyvochr or Hupunt hir ai gyvochri, val y mae y pennill hwnn.

Adkas doddiant oed kystuddiau
Wf a lluddiau yw vy lladdiad,
Y mae koddiant heb ddim cuddiau
Ar y gruddiau or gorweddiad ;
Em mi biau Amlwo iau,
A gweliâu, a goleuad ;
Am eliau oer yw nghriau
Yth rann diau Oth wrandawiad.

Llyma bellach ffordd i wybod ac i adnabod messurau y gerdd, y rrai a dynnwyd or Lladin drwy athrawiaeth Einion offeiriad, a Davydd Ddu Athraw, y rrai a gonffyrmyodd y messurau a dynnasant ac a dynnodd eraill oi blaen. Y rrai hynny a ddechreuodd ar voliant i Dduw er yn amsser Enos ap Seth, ap Adda, y gwr kyntaf a voliannodd Dduw, ac a wnaeth Ddelw, yr honn yn Lladin a elwir Ffugr, sef yr amsser y dechreuwyd ynghylch chwechant o vlynyddoedd o ddechrau Addaf, ac o hynny hyd enedigaeth Crist y kynnhaliodd y proffwydi ef dan i wellau yn proffwydo Iessu. An Iaith ninnau pann gredassann i Grist ai kavas drwy yr Ysbryd Glân, a galw yr Ysbryd Glân a wnaethant yn Awen yr honn a ddiwlanna gan bechodau, ac a amlha gann gyvarwyddydd, a gwybodau, a Santeiddrwydd.

Weithion ysbyswn am Golofnau, ac am eu rrif, nid amgen.

1. Y verr Gyhydedd, ai messur yw pedair Silldaf.
2. Y wenn Gyhydedd, ai messur yw pump Silldaf.
3. Y lās Gyhydedd, ai messur yw chwech Silldaf.
4. Y gaeth Gyhydedd, ai messur yw ssaith Silldaf.
5. Y draws Gyhydedd, ai messur yw wyth Silldaf.
6. Y drwsgl Gyhydedd, ai mesur yw naw Silldaf.
7. Y Gyhydedd hir, ai messur yw deg Silldaf.

Ac or ssaith Golofn hyn y tynnwyd pedwar messur ar hugain kerdd davod, y rhei y mae Beirdd Ynys Prydain yn ymarver oe kanu, ac oe gwneuthur.

Pum messur a vu orau ar odlau, a wnaeth Taliessin ; y rrai elwid gynt, pump kolofn kerdd Daliessin, nid amgen ; Toddaid, Gwawdodyn byrr, Kyhydedd hir, Kyhydedd verr, a Hupunt byrr ; a rrai ai geilw hwynt Pump Kadair Kerdd davod.

Gwedy hynny y dychymygwyd pedwar messur eraill, nid amgen ; Gwawdodyn hir, Kyhydedd nawban, Byrr a thoddaid, a Chlogwrnach, yr hwnn a elwir Dull Kynddelw.

Gwedy hynny y dychymygawdd Davydd Ddu Athraw dri messur eraill, nid amgen ; Kyrch a chwta, Hir a thoddaid, a Thawddgyrch Kadwynoc.

Einion Offeiriad a dychymygawdd yntau, Hupunt hir ; Davydd ap Edmwnt, a dychymygawdd ddau vessur yn lle Ynglyn or hen ganniad, ac Ynglyn milwr ; nid amgen, Gorchest Beirdd, a Chadwyn Vyrr.

Bellach y ssoniwn am gymeriadau y mewn Kerdd Davawd, y rrai a vyddant yn rrwymau y penn kyntaf ir Gerdd val y mae yr awdlau yn rrwymau y penn diwaethaf.

Sef yw kymeriad, dechrau y bannau ar yr un llythyren a chadw hynny ; a hynny a lygrid yn vnych er keissiau ssynwyr yn y Gerdd.

Tri rryw Gymeriad y saydd, nid amgen ; Kymeriad llythyrennol, Kymeriad kynghaneddol, a Chymeriad ssynhwyrol.

Kymeriad llythyrennol a vydd val hynn ;

Kalonn dynnion Dwy Wynedd,
Kredo'r beirdd or kryd ir bedd.

Kymeriad llythyrennol kynghaneddol a vydd pan vo dechrau y bannau yn kyngheddu ai gilydd, val hynn ;

Kanu bum Ymryn Kunalit ;
Kwyno'r wyf akw'n yr allt.

Neu val y mae y pennill hwnn ;

Pum heryr pwy am heyrodd ;
Pum haerwy aur voi pum rrodd.

k

Pob Kymeriad ar a vo yn dechrau ar vogaliaid er na boant o unrryw, a elwir Kymeriad llythyrennol, val y mae hwnn.

Ystiwart Rhos a dart rrydd
Iechyd eryr i'ch deurydd.

Kymeriad ssynnhwyrol a vydd pan vo y bann kyntaf or gerdd yn govynn ssynwyr or ail bann i gordio ac ef; a hwnnw a vydd kymeriad kymeradwy er na bo ef llythyrennawl, val y mae hwnn;

Ni ddug neb yn ddigon abl
Bleth vanaur heb lwyth Venabl.

Kymeriad llythyrennol ssynnhwyrol a vydd val hyn;

Gwaed Ywain guraidd a geidw'n gras
Glynn Dwfr ac o lin Defras.

Kymeriad kyfochredic ssynnhwyrol a vydd pann vo ssain kyfochredic yn dechrau y bann, val hynn;

Lluryo dan blyc dien blaidd,
Suruc a gwregys euraidd.


Tri rryw o Gymeriad pennkerddiaidd y ssydd, nid amgen, Kymeriald kynghaneddol, Kymeriad llythyrennol ssynnhwyrol, a chymeriald kyvochredic. Dau ryw Gymeriad Dysgybliaidd yssydd: Kymeriad llythyrennol, a Chymeriad ssynnhwyrol.

Pa ssawl peth a bennkerddeiddia kerdd davawd?

Pump peth, nid amgen; Kymeriad pennkerddiaidd, kroesgynganedd, odl benkerddiaidd, sef odli ar silldaf gadarn ganiad, gyfochr, a ssynwyr naturiol.

Yma yr yssbysswn or pedwerydd Llyfr Kerddwriaeth Kerdd davod, nid amgen noc or kynghaneddion, Y rrai yssydd yn rrwymaw pob messur yn y Gerdd.

Beth yw kynghanedd? Kyd atdeb kydsseiniaid a chyfnewid Bogaliaid, mal y dengys y pennill hwnn yn eglur.



Pa sawl kynghanedd y ssydd? Pump, nid amgen; kynghanedd groes, kynghanedd draws, kynghanedd ssain, kynghanedd lusg, a chynghanedd bengoll. Ac or pump kynghanedd a henwyd uchod, dwy brif gynghanedd y ssydd, nid amgen; kynghanedd groes a chynghanedd ssain neu unawdl; ar tair eraill tynnedigion ynt or ddwy hynny.

Kynghanedd groes yw yr orau or kynghaneddion, ac a genir yn groes union gyflawn val y mae y pennill uchod.

Kynghanedd ssain a gydsseinia yn unawdl, val hyn ;

Llyr i gadw gwyr gydao ef.

Or ddwy gynghanedd hynny y mae y tair kynghanedd eraill yn tyvu.

Kynghanedd draws a dynnir or groes ac a vydd pan vo un neu ychwaner or kydsseiniaid ymhervedd bann neu vraich o gerdd heb ddim yn ateb ydynt a thrawsi drostyn i gyrchu kynghanedd, val y bann hwnn

Kwert hardd mewn kyvair tec.

Kynghanedd draws gyverbyn a vydd pann ranner gair, a chymeryd y rhan olaf o honaw i gynghaneddu, a gadael y rran gyntaf yn llanw yn y kanol, a throwsi drostaw, val hynn.

Eisiau | am gymwyn | aswr.

A phan vo bann neu vraich o Gerdd heb ddim ond un klo kyngan ynddo, ar kenol yn adwy wac val hynn,

Penn | ar yr haelion ai | parch ;

Honno yddys yn arver oe galw kynghanedd draws vantach, o herwydd bod kymaint yn hyll o honaw o ddiffyg kloiau kyngan ; Sef yw klo kyngan, kyd ateb kydsseiniaid a chyfnewid bogeiliaid val y dywedpwyd or blaen ; Ac yn draws vantach gyverbyn, val y bann hwnn ;

Aur sydd vetel ragorawl.

Kynghanedd lusc a dynnir or ssain yn unawdl, ac a vydd pann vo y Silldaf nessaf at y brifodl yn kyd sseiniaiw, neu yn kyd odli ac un or gorffwyssvae or blaen ac oddiyno'n llusgaw at y brif odl mewn aken ddisgynnedic, val hynn ;

Odid ym gael dy haelach,

a honno nid yw weddus na chymwys osid yn y bann kyntaf o bennill mewn kywydd.

Kynghanedd benngoll a dynnir weithiau or groes, ac a vydd pann vo y penn kyntaf or bann yn kynghaneddu ar penn diwaethaf yn kolli, val hynn ;

Arglwydd eurglawr y Dehau.

Neu val hyn hevyd yn ssain bengoll ;

Y dydd tekaf haf hinon.

Ac yn lluso benngoll pan vo un neu ddwy or kydsseiniaid y rrwng y llusgiad ar brif odl, val hynn ;

Marchawc uwch nenn y Penryn :

Ar gynhanedd benngoll a ddeholwyd, ac a gaethiwyd yn yr Eisteddfod ddiwaethaf a vu ar Gynghaneddion a messurau yn amsser yr awdur ariandlyssawc Davydd ap Edmwnnt, eithr mewn paladr Ynglyn unawdl uniawn, ac yn y kyfle hwnnw y mae yn rrydd i chanu.

Ac velly y tervyna y pump kynghanedd hynny.

Gynt ydd oeddid yn arver o gynghanedd braidd gyvwrdd, a honno a vydd pan vo un klo kyngan neu ddau ynghanol braich o Gerdd ar ddeupen yn kolli, val hynn ;

┌───┐
Y gwr hael o hil Rodri

A honno hevyd a ddeholwyd yn yr unrryw amsser neu gynt.

Tri rryw groes gynghanedd y ssydd ; kroes rywiawc, kroes o gysswllt, a chroes ddisgynnedic.

Kroes rywiawc a vydd yr honn a aller i chanu wyneb a gwrthwyneb, ac yn groes gynghaneddi bob ffordd, val y mae y pennill hwnn ;

Ku adardy Koed irdeg ;
Koed irdeg Ku adardy.

Kroes o gysswllt a vydd pan vo yr unrrhyw gydsseiniaid yn diweddu y brif orffwysva ac a vo yn dechrau y braich, neu y bann, val hynn ;

A theg yw'r llwyth Eigr a Llyr ;

a

Kenau Efrog wineufrych.

Kroes ddisgynnedic a vydd pan vo y ssildaf nessaf at y brifodl yn prostio ar brif orffwysva, ac yn disgyn oddiyno i odli ; ac y mae yn rraid ir orffwysva vod yn aken ddyrchafedic, ac ir odl vod yn aken ddisgynnedic, ac am hynny y gelwir hi kynghanedd ddisgynnedic, val hynn ;

Pwy nith gar pennaeth gwrol.

Neu val hynn ar orffwysva yn tervynu mewn dwy gydssain

Bondo gwydr Bendigeldran.

Ac weithiau y bydd yr orffwysva yn tervynu mewn bogal val hynn ;

Un a thri yn ethrywyn.

Neu yn tervynu mewn dwy vogal val hynn ;

Ach gwaed rhyw ywch gadw rheol.

Ac or tri rhyw groes gynghanedd uchod gorau yw y groes rywiawc, o herwydd gallu i throï wyneb a gwrthwyneb, ai hodli ar yr aken a vynner or ddwy. A nessaf ati hithau yw y groes o gysswllt, o herwydd gallu i hodli ar yr aken a vynner or ddwy val y llall. Ac or tair kroes gwaethaf yw y ddisgynedic o achos bod yn gaeth iddi yr aken ddyrchafedic val y dywetpwyd or blaen.

Kynghanedd groes rywiawc a vydd weithiau heb gymwys gymalu wyneb a gwrthwyneb rrac nessed y brif orffwysva at ddechrau y bann, neu y braich, val hynn ;

Mae plaid y mab hael oi win.

A honno a ellir i galw kroes anhydyn.

Tri rhyw groes o gysswllt ysydd ; Kroes gyvan gysswllt, Kroes hanner kysswllt ; a chroes ddwbl kysswllt.

Kroes gyvan gysswllt a genir val y mae y ddsbarth or blaen, val hynn ;

A theg yw'r llwyth Eigr a llyr.

Kroes hanner kysswllt a vydd pan vo un gydssain drom a grym dwy ynddi yn tervynu yn y brif orffwysva, a chydssain o hanner i grym hithau yn nechrau y bann neu y braich, a chymeryd yr hanner olaf o rym y gydssain drom i ateb ir gydssain gyntaf or bann, val hynn ;

Gwinllannau Ffraink yn llawn ffrwyth ;

neu val hynn hevyd ;

Bu wir roi'r hap ar y rryw ;

neu val hynn hevyd eto ;

Due voliant i Gyveiliawc

ac yn groes hanner kysswllt ddisgynnedic ;

Dannaw kant i un kynted.

Kroes ddwbl kysswllt a vydd pann vo dwy gydssain ynghyd yn y brif o orffwysva yn ateb ir ddwy gydssain gyntaf or bann, val hynn ;

Drwy'r gwelydr ai ar goler.

Kroes goll y gyntaf a vydd pann vo n, yn gyntaf kydsain yn y bann, ac heb yr un yn ateb iddi, val hynn ;

Ni phlygwyd Rys a phlyg trin :

A phob un or tair kroes a ddigwydd velly weithiau, ac o bydd hi traws goll y gyntaf, kam vydd.

Tri rryw gynganedd ssain ysydd ; Sain lefn, Sain gadwynoc, a Sain o gysswllt.

Sain lefn a genir val y mae y ddosbarth or blaen, val hyn ;

Llyr i gadw gwyr gydaef.

Sain gadwynoc a vydd pan vo un or geiriau kyntaf or bann yn kyd odli ar trydydd gair, ar ail yn kydateb ar pedwerydd, val hynn ;

Pab Rufain bro eurgain braff.

Sain o gysswllt a vydd pan vo y sseiniad diwaethaf o gysswllt dau air val y mae hwnn ;

Fyngherdd am y ddager dda.

Neu gysswllt wrth y klo kyngan, val hynn ;

Oes bun nac yr un o gred.

Neu val hyn hevyd ;

Ac ergyd hevyd divai.

Tri rryw gynganedd lusc y ssydd ; Llusc lefn, Llusc o gysswllt, a llusc dwbl kysswllt.

Llusc lefn a genir val y dosparthwyd or blaen, val hynn ;

Odid ym gael dy haelaoh.

Llusc o gysswllt a vydd pan gymerer y llythyren gyntaf a vo yn dyvod ar ol y brif orffwyssva gydar orffwyssva ac o gysswllt y ddwy lythyren hynny gwneuthur odl i ateb ir Silldaf nessaf at y brif odl, val hynn.

Nid a dyn gall dan allud.

Llusc ddwbl kysswllt a vydd pan vo dwy gydssain yn yr unrryw vodd yn niwedd yr orffwyssva ac yn nechrau y gair nessaf ati, val hynn ;

Y gwr kadr vraich paladr vriw.

Kynganedd gyvnewid a vydd pan vo bann o gerdd heb gydateb kydsseiniad eithr kyfnewidiadau bogaliaid, val hynn ;

Ieuank a hael yw Ywain.

Kynganedd ewinoc a vydd pan vo, h yn kymhorthwyaw un or tair llythyren hyn, b, d, g, I ateb i un or tair llythyren pika, sef yw y rreini p, t, k, val yn y bannau hynn ;

Kaer gai enwog hir gynnydd
Parohus yw y mab hir chwyrn ;
Tudur Llwyd hyder y llew.

Hevyd pan vo un or ddwy gydssain hynn ; l, r, yn wasgedic
gyd ac un or tair kydsain a henwyd uchod, b, d, g, ac h, ar i hol
val y bannau hynn ;

Kroenwynn val dilwgr hynod.
Tri gwaladr hy o Gwlen.
Bwrw plyc ar barabl hygar.

Ar vath hynny a elwir kynghanedd ewinoc. Hevyd pann vo
un or tair kydsain hynn b, d, g, yn diweddu y naill air, ar un-
rrhyw gydssain yn dechrau y gair nessaf at hynny ymhlethiad
kynghanedd, yna y gallant oe hydrym yll dwy ateb i un or tair
llythyren pika p, t, k, val yn y bannau hynn.

Pisagl wyd ar bob bonedd,
Trysor gwlad di rus Ior glew.
Af ar kan i vrig Gwynedd.

Hevyd ef a all un or tair kydsain uchod b, d, g, i hun ateb i un
or tair llythyren pika pan vo hi yn niwedd gair ac un or llythyr-
ennau hynn ff, k, ll, p, ss, t yn nechrau y gair nessaf ymhlethiad
kynghanedd, kans egni a grym un or rhain ai kyffry hithau yngrym
llythyren pika, ac yna y gall ateb llythyren bika or un natur a hi
yn dyvod ar ol hynny, val yn y bann hwnn.

Brig flydd a bair koffa hwnn
Y mab koch mwy hap y kaid,
Aed llawer at y lluoedd.
Brig prenn o bark y prynwr
Heb swydd mor happus a hwnn.
Ymhob tir mae hap yt oll.

Dyaller eraill or vath wrthynt hwy. Hevyd tri gallu yssydd i
silldaf gadarnleddf wrth gynghaneddu, un yw kytateb ai ryw i hun
mewn kynghanedd ddisgynedic, val hyn ;

Llys gadr lliwus y gwyrwyd.

Ail yw kydateb a Silldaf dalgron val yn y pennill hwnn ;

Brain Syr Rys bro ainesio ruthr.

Y trydydd yw kydateb a dwy Silldaf dalgron val hynn ;

Ao Iaith hagr gwaethygu.

Hevyd pann vo y deuddec cydsain hynn, ff, f, k, g, p, b, t, d, ll,
l, th, dd ; yn dyvod ynghyd bob yn ddwy yn y modd hwnn ym-
hlethiad kynghanedd.; yna y kyll y rrai ysgafu hynn eu grym ai
nerth, kans y llail ai gorchvyga hwy val yn y pennillion hynn ;

Praff fonedd pur a ffynnant.
Brig kenedl broau Kynan.
O hap breuder pur ydwyt.
O waed Tudur at Edwin.
Velly mal y wraig Voel llwyd.
Wrth ddyvod or eithavoedd.

Hevyd ef a ganodd D^{dd} ap Edmwnnt val hynn ;

Gair oth vronn gwawr ddyffrynnoedd ;

A Gruffydd Hiraethog, val hynn ;

Oth actiau'r praff ddoctor Prys.

Tri pheth a berthyn ar gynghanedd groes ; Kydateb, Kyfnewid a Gorffwyssva.

Pedair gorffwyssva yssydd mewn pennill o gywydd, un yn y kynghaneddion, un yn yr amseroedd, un yn y perssoniaid, ac un yn yr awdl.

Pump gorffwyssva yssydd yn y kynghaneddion, kans ymhob un or gyntaf hyd y chweched y gellir gorffywys.

Dwy orffwyssva a vydd yn yr amseroedd, a dwy yn y perssoniaid a ddengys eu ssynhwyrau ai rrannedigaethau.

Bellach yssbysswn am gynghaneddion kymysgedic o ddwy neu dair ynghyd mewn un bann.

Kynghanedd sseingroes rywiawc a vydd gwedy y chymysgu o ssain a chroes bob un yn i gilydd, val hynn ;

Llaw a barr draw lle bo'r drin.

Kynghanedd sseingroes o gysswllt.

Gwressog yw'r kog ar ssiwgr kann.
Ath wayw nowllath a nillud.

Kynghanedd sseingroes gydgysswllt a vydd pan vo kysswllt y sain, a kysswllt y groes ynghyd, val hynn ;

O droi y rrod i ryw Rys.
I Gelli Wig ac yw llys.

Kynghanedd groes ssaingysswllt golli y gyntaf a genir, val hynn ;

Ni thyf rrwdd ith vyw ar honn.

Kynghanedd sseingroes gadwynoc rywioc a genir, val hynn,

Trist vydd llif tros Davydd Llwyd.
Lle arch o hyd Llywarch hen.

Kynghanedd sseingroes o gysswllt gadwynoc ddisgynnedic a genir, val hynn ;

Nim gyrr bun im gwir boeni

Kynghanedd drawsgroes o gysswllt gadwynoc ddisgynnedic, val hynn ;

Uchel vaich Hywel Vychan.

Kynghanedd groes rywiog goll y gyntaf a vydd val hynn,
Ond treulio da trwy lid oll.

Kynghanedd groes o gysswllt goll y gyntaf a vydd val hynn ;
Ni thynnir bath hwnn or byd.

Kynghanedd groes goll y gyntaf ddisgynnedic ;
Nid yw hawdd i dyhuddaw.

Kynghanedd sseindraws ddisgynnedic,
Vynawc rriain Vain Vuned.

Kynghanedd sseindraws gadwynoc ddisgynnedic,
Od aeth gair rrod ath geraint.

Kynghanedd groeslusc ddisgynnedic a vydd val hynn ;
Nid oes dyn un destunion.

Kynghanedd drawslusc ddisgynnedic ;
Nan hol dirgel nan helynt,
Y gwr ar warr y garrec.

Kynghanedd sseingroes gadwyn gysswllt a genir val hynn ;
Pwy a wnai gost pennaic Ial.

Kynghanedd groes ddisgynnedic gysswllt orffwysva a genir val hynn ;
A maen perl mewn parlmant.

Tri lle y kyll w, i grym bogal ac ni ellir bod hebddi yno er hynny, un yw ynghessail g, gonglawc, val hynn ; Gwych, Gwedd ; Yr ail yw ynghessail ch, val hyn, Chwyl, Chwech, ar trydydd yw, ar ol llythyren dawdd, val hyn ; Marw, Erw, Galw, Elw.

Nith gar eithr ryw ddifeithwraic.

Paham os yw yr w, yn colli i grym bogal akw nad yw y pennill yn i le neu yn iawn ? Am i vod yn anhardd yn y glust, er bod y rreolaeth yn i gadw ef, kans ni wnaed kerdd ond er melysder ir glust, ac or glust ir galon ; ac velly yn gyffelyb y pennill hwnn.

Naw oi genedi yn Gwynedd.
Neu val hynn :
Ac i ostwng o ystyr.

Ac weithiau eraill y bydd yn velys yn glust, ac yn torri rreolaeth, val hynn ;
Kawn vedd rrad hynneddvau Rhys.

a rheitiach yw gochel hwnnw nor llall.

Ac yn ddiwaethaf or pump llyfr kerddwriaeth kerdd davod, yr hwnn a elwir prydlyfr yr yssbysswn bellach, ac yn gyntaf or beiau gocheladwy yrrai a elwir y beiau kyffredin ai perthynassau, neu i keinkiau ; ac ir holl veiau hynnynid oes oni ddau wreiddyn, neu ddau ychwynniad, Sef yw y ddau hynny ; rrw y ac eissiau, neu gormodd a rry vychan ; ar beiau hynn a berthynant at y Prydlyfr ; kans ni ddichon prydydd vod yn Benkerdd neu yn Athraw i iawn ganu, ac i iawn varnu, nes gwybod y beiau kyffredin ai dosbarth.

Henwau y beiau kyffredin yw y rrain. Gormodd odlau. Dybryd Sain yr hwn yssydd yn brooest ir awdl. Tin Ap. Karr y mor-ddiwes. Rhy debyg, ymssathr odlau. Tri thwyll yssydd ; Twyll gynghanedd. Twyll awdl. A thwyll gymeriad. Dryc ddychymyc. Dryc ssynwyr. Dryc ystyr. Unic a lliosawc i gyd. Gwrw a Banw i gyd. Gwydd ac apsen i gyd. Lleddf a thalgronn i gyd. Trwm ac ysgafn i gyd. Kyrch a llefn i gyd. Kam Amsser. Kam bersodion. Kam achos. Kam ossodiad. Yrrain yw anafau kerdd davod ac iawn yw eu gochel ; kans tri pheth a ddyly prydydd ; iawn ddysgu, iawn ganu, ac iawn varnu.

1. Gormodd odlau a vydd pan vo dwy awdl mewn un bann o bennill o gywydd lle ni ddylai vod onid dwy i gyd yn y pennill kyvan, val y mae hwnn.

Ai gad wyth oes gydai thad.

Neu hevyd pa vessur bynnac or messurau y bo yntau vwy o odlau noc y mae y ddosbarth yn i gynnwys hynny yssydd ormodd.

2. Dybryd ssain a vydd mewn kynghanedd ssain pann vo y sseiniaid yr odliad diwaethaf or gynghanedd, yn prostiaw ar brif-awdl val y bo dybryd i glywed val hynn ;

Yn arglwydd arwydd iraidd.
Kado i daradr drwy derydr.
Pe kedwid am dir gwir gwyr.

3. Prost ir awdl yssydd yr un rrywogaeth a dybryd ssain, ond i vod ef yn y gynghanedd groes neu yn draws, ac a vydd pan vo prif orffwyssva y gynghanedd ar brif awdl yn prostio ynghyd, val hynn.

Y dewr gwrol drwy gweryl
Y dyn ve ffaelodd dy don.

4. Tin Ap a vydd pann vo pennill o Gywydd deuair hirion neu ddeusair yrrion, ar ddwy awdl yn yr un aken, a honno yn ddyrchavedic val hynn ;

Y gwr a luniodd y gad
A wnaeth iw vro annoeth vrad.
Gwrab oedd yn gyrru bw
Gwreigan gul greg yn galw.

Eithr y mae yn y pennill hwnn ddau vai eraill, nid amgen, Torr mesur a Thwyll odl.

5. Karn ymorddiwes yr hwnn a elwid gynt garllaes, yssydd debyg i Din Ap ; eithr bod y ddwy awdl ar aken ddisgynnedic val y mae hwnn ;

Dwrn a chledd duedd dieingl
Drws a deugwrr dros Degeingl

6. Rhy debyg a vydd pann vo yr orffwysva gynhaneddawl ar awdl mewn aken ddisgynnedic, ac yn debyg bob un iw gilydd ; o achos ni bydd onid un gydssain neu ddwy yn i diweddiad yn i llestair i gydodli yn ddwbl, val hynn ;

Ievan vynghariad Ievank.
Llawer diwrnod llawen.
Rhydec vu yr anrhydedd.

Ac o bydd y vath beth yn yr aken ddyrohafedic ni ellir dim oi alw yn rrydebyg, namyn tebyg, ac nid yw vai, val y kanodd Davydd ap Edmwnt i verch herwydd i gwallt

Y mae a pheth am i phenn
Yr haf val y Rhiw Velen.

Ac weithiau hevyd y bydd Rydebyg o rann y Reasswm neu y Synnwyr pann vo gair a dau ddyall ynddaw, un at y moliant ac un at y gogan ; kans mynych y kymerir y gerdd i'r deall gwaethaf, ac y dywedir mai rrydebyg ir gogan, val hynn ;

Oer oer i holl Gymru rrawc.
Oedd orchudd gwr ardderchawc.

Er bod ardderchawc yn arwyddokau arbennic neu urddassol ; eto os kenid ef i wr a vai yn dyvod o ordderchiad, ef ai tybid yn edliw, ac yn rrydebyg i hynny.

7. Ymssathr odlau a vydd pann vo yr orffwysva gynhaneddol neu rann or ssilldaf honno yn ymsathr ar awdl, val hynn ;

Y gwr o Gaerlleon Gawr.

kans balch yw'r awdl, ac y hi yw llygad y Gerdd, ac am hynny ni oddef hi ddim yw briwo.

Y mab rry hydr ymhob brwydr.

Ac weithiau y bydd ymssathr odlau mewn kynghanedd lusc' neu unawdl pann ddyker llythyren neu ddwy or awdl i helpio y gynghanedd val hynn ;

A chrwk ar i vrest a llestr.

kans ni ddichon yr un llythyren neu yr un llythyrennau wneuthur

dau wasanaeth ar unwaith, kynghanneddu ac odli hefyd. Ac weithiau eraill y bydd ymsathr odlau pan ssathr dau bennill neu dri mewn kywydd wrth i gilydd yn unawdl.

8. Twyll gynghanedd a vydd pann vo kydsain neu ddwy yn y naill rann or klo kyngan, neu or kloiau kyngan heb ai hatepo yn y rrann arall val y mae hynn ;

Meirch unlliw mae Machynllaith.

ac mewn kynghanedd ssain val hynn ;

Kawgiau a chreithiau'r vrech wenn.

neu val hynn yn vwy anafus ;

Parabl dyn trwyadl om tref.

Neu mewn kynghanedd lusc, gadael llythyren yn y naill air heb i gynghaneddu yn y gair arall, val hynn ;

Mae yr ystolff val golchffon.

Ar bai hwn a gyffelybir i adael un gledren or blaid heb eiliaw. Hevyd pan vo kynghanedd bengoll ; honno a vydd pann vo dechrau braich neu bann o bennill yn kynghaneddu ar diwedd heb vod, val hynn ;

Arglwydd eurglawr y Dehau.

Sef y tybygir hwnnw i gleddyf ai vlaen drwy y wain. Ac os ar y penn kyntaf y bydd eissiau, tebyg yw i gleddau heb pwmel.

9. Twyll awdl a vydd pan vo ymrafaelion gydsseiniaid, neu vogaliaid yn yr odlau, val hynn ;

Llynn o ddwr am lleinw o ddi
Llonaid tagell Llynn Tegid.

Neu val y pennill hwnn ;

Y llwdn gwaraidd llydan gwrw
Llwydvawr ysydd yn liedvarw

Neu val hyn hevyd ;

Dialedd ac nid yw elw
Drwy wall i un dorri llw.
Raid i arglwydd drwy erglyw
Roi i stad dan restiad Duw.

10. Twyll gymeriad a vydd pann vo ymrafael gydsseiniaid yn y kymeriadau heb ssynwyr naturiol yn i achub, val hynn ;

Karw penn au gwyr piau ni
Paladr o Fran ap Beli.

Ac nid yw dwyll gymeriad dechrau pennillion ar ymrafaelion

vogaliaid, kans kyvnewid trwy vogal yw kynghanedd gyfnewid, ac velly y gellir alw yn gymeriad kynghaneddol val hynn ;

Y ddyd vwyn a ddaw'n vynych
Im meddwi gorff moddawl gwych.

11. Dryc ddychymyc a vydd pann ddychymyger ar voliant reswm gwann diffwrwyth, Ie ac a ellir i ddyall yn hawdd, at vwy gogan no moliant, val hynn ;

O daw eisiau da ar den
Un llenad ath wna'n llawen.

Er bod dychymyc y Brydydd mae y wraic, e ddychymygai eraill mae y llenad olau i yrru gwarthec.

Bei yw o herwydd Dilechdid neu Logic.

12. Dryc ssynnwyr a vydd pann vo kerdd vessuredic gynhaneddol heb ssynnwyr ddosparthedic ddyallus ynndi, neu heb verf ber-ssonawl i ddangos y ssynnwyr, val hynn ;

Llun egoriad Llonguric
Ai vlaen ar Velin y Wic.
Dau wy a chellog mwyalch
Eidion, ac wy, odyu galch.

Bai o herwydd Dilechdid.

13. Dryc ystyr a vydd pan gyffelyber o'i wrth i destyn oi nattur, val hyn ;

Katrin vodd katerwen vain.

Bai mewn Retoreg.

14. Unic a lliossawc a vydd pan vo henw lliossawc a berf unic i gyd, val hynn ;

Miloedd ni char ond Maelawr.

Neu pann vo henw unic a berf liossawc i gyd val hynn ;

* * *

Ac hevyd pan vo henw kadarn lliossawc a henw gwann unic i gyd val hynn ;

Y gwyr dewr or gard euraid.

A mynych y kymhwysir keinkiau or bai hwinn mewn kyfleydd drwy esgus ; sef yw hwinnw, bod yn dekach y kam nor iawn, achos i vod yn y rresswm yn dalvyrrach, ac yn ddiwytnach

Bai yw hwn o herwydd rhan o ramadeg a elwir Castrawen, ac nid herwydd cywyddiaeth, ac velly y mae y ddau nesaf hefyd.

15. Gwrw a Banw ynghyd a vydd pann vo henw kadarn or genedl wrw, a henw gwann or genedl vanw i gyd, val y pennillion hynn ;

Gwr ffol nid gorhoff weled.
Y hi yw'r ffwl ar y ffair.
Vry nid hardd i vorwyn tec.
A vynn destyn vun distaw.

16. Gwydd ac apssen a vydd pan rodder y drydedd berisson i gyd ar ail ; neu yr ail i gyd ar gyntaf, val hynn ;

Mi evo Sion am vy ssir
Yw'r dynion ni rydweinir.

Ac o dechrau prydydd ymadroddi i gerdd megis yngwydd y gwr ; ni ddylai mwy i throi yn apssen, rrag y bai hwinn.

17. Lleddf a Thalgronn a vydd pan vo ssilldaf leddf yn ateb i ssilldaf dalgronn, neu i ddiethr ; weithian mewn kynghanedd lusc, val hyn ;

Yn Ial gwnal Ruffydd Maelwr.

neu val y pennill hwinn ;

Raid rifo'r gwyr yn llwyrach.

neu val hyn, yn y gynghanedd ssain ;

Vy sswydd o vewn manwydd Mai.

ac weithiau y bydd yn y brifawdl, val hynn hevyd ;

Ni thrinwyd llew aelwyd Llyr
Natur Sion ond trwy ssynwyr.

weithiau eraill y bydd mewn ynglyn prost yn y prostiad, val hynn ;

Y gwr balch ssy'n digio'r byd,
Ac er i vudd y gwyr i vod,
Yn wir gostyngir i stad
Anhoff i wedd oni phaid

neu val hynn, mewn diptoniaid ;

Y llew gwych wrth ennill gair
Weithion i gyd aeth yn gawr ;
A nos, a dydd yn was dewr
Yn lladd amkanai yn llwyr.

18. Trwm ac ysgafn a vydd pan vo gair trwm a gair ysgafn i gyd a hynny yn yr un aken, a honno yn ddyrchafedic, val hynn, mewn kynghanedd lusc ;

I wlad Von nid eiff honno.

Ymhob gair a lliaws o ssilldafau ynddaw y silldaf diwaethaf ond un a vydd ac aken ddyrchafedic iddi oddi eithr i arwydd uchenaidd neu ranniad yr aken beri iddi i cholli, val y mae yn nechrau y llyfr yn sson, Trwm ac ysgafn mewn kynghanedd ssain ;

Ar dorr merch y kor y kaid. [Sef yw honno yr Allor.]

Hevyd rraid yw gochel y bai hwinn mewn ynglyn unawdl, ac mewn ynglyn prost, ac mewn messurau odlau ; kans pann dde] pennill yn gyntaf i odli mewn aken ddyrchafedic kynlyner pwys honno drwy'r awdl i gyd, pa un bynnac vo ai trom ai ysgafn, ar a ddigwydd or pennillion ar yr aken honno.

19. Kyrch a llyfn yssydd vai anafus mewn kerdd yr hwnn yw kamosodiad bogaliaid a hynny ymerthynassoldab y brifawdl ar orffwyssva gynghaneddol, pa un bynnac vo yr orffwyssva ai aken ddyrchavedic yntau aken ddisgynedic ; kans yn yr akennion hynn y dily bod kyd ateb a chyfnewid yn rrywiawc, val y pennill hwnn ;

Ku adardy
koed irdeg.

Ac yn gyrch a llyfn, val hynn ;

Am Roland Abermarlais
O vraster ev a rwystrodd.

Ac val hynn, mewn aken ddyrchavedic.

Huw Konwy fry hy kawn varn.

Ac mewn aken ddisgynnedic, val hynn ;

Yn y dwrn yn dirynnu,
I Deirnon y dirynnaf.

Neu,

Parabl Syr William Robert.

A phan vo allan o berthynassoldab yr awdl nid yw vai, ac am hynny y gelwir ef bai gwahanredawl, neu gwahanedic, val hynn ;

Byw ar dri broder o Ial.

Ef a vydd weithiau gwrthssen allan o berthynas yr awdl, val yn y bann olaf or penill hwnn ;

Pwy oll a ddug pell ydd aeth
Warthoff aur wrth vilwriaeth.

20. Kam amsser a vydd pann rodder yr amsser dyvodioe neu ffutr yn lle yr amsser kydrychiol, val hyun ;

Pan dynner penyd anian
Mae'n growndwal mae'r wal yn wann.

Neu val hyn ;

Y mae Neithiwr y vory
A mwnai'n vraise mewn mann vry.

21. Kam berason a vydd pan rodder y naill veddiant yn lle y llall, val hyn ;

Tir kaeth vydd y Twrk ith vab.


22. Kam achos a vydd pann roer achos amherthynassol yn yr ymadrodd, val dechrau ymadrodd drwy Verf amherssonawl, val hynn ;

Neur mynnu un or manwydd.

23. Kamossodiad a vydd mewn kynghanedd, awdl gorffwyssva, neu vessur ;


kam ossodiad mewn kynghanedd a vydd pann gamossoder y kydsseiniaid oi kynnewidiad yn anghyfleus er bod kimaint o bob un ai gilydd, val hynn

Kawn vedd rrad kyneddvau Rys.



neu val y pennill hwnn ;

Vathrod ag ef wyth drwy gas.



Ar vath ymossodiad a hynn a elwir yn dwyll gynghanedd hevyd. Kamossodiad mewn awdl a vydd pann gamossoter y bogaliaid yn yr orffwysva ar awdl val y mae yn dangos or blaen mewn kyrch a llyfn, val hynn ;

I deirnon y dirynnaf.

Kamossodiad mewn gorffwyssva yw gossod yr orffwyssva mewn kroes gynghanedd yn rry agos ir awdl, val hynn

Y gwr a brig ar bregeth.

Kam ossodiad mewn messur yw gossod Racwann neu osodiad mewn messur paladr ynglyn unawdl uniawn yn y chweched assildaf yngwrthwyneb y dosbarth.

Bai yw kamgyfanssoddiad mewn kynghanedd val y pennill hwn ;

Oes yr un is yr awyr.

Kam gyfanssoddiad ir kynghanedd ddisgynnedic yw na bytho i gorffwyssva gynghaneddol or un natur amsser ar ssilldaf nessaf ir awdl ; oddieithr bod lleddf a thalgronn yr hwnn nid yw vai yn y lle hwnnw, val hynn ;

Gwr llwyd a geiriau Lladin.

Neu val hynn, ar orffwysva ar vogaliaid.

Heddyw doe hawdd yw dyall.

Ar bai hwn a ddigwydd yn vnych o herwydd kyfanssoddiad geiriau neu ymadroddion.

Bai hevyd yw amherthynas mewn kerdd ganmoledic, sef yw hynny, peth ni chynweddo i'r dyn y pryter neu y kaner iddaw.

Bellach yssbysswn am y pedwar ffugr y rrai yssydd yn esgusodi dros bedwar kam neu bedwar bai. Beth yw Ffugr ! Esgus neu liw diarffordd ; Y gyntaf yw ffugr, (Sillepsis) ymgynnull yr honn a esgusoda dros wrw a banw ; wrth ddwyn y rrann at y kwbl ; Sef yw hynny pan vo rrann a chwbl yn yr ymadrodd a henw

gwann y rryngthynt, yr henw gwann hwnn a roi'r at y kwbl ac nid at y rrann, val y mae; Gwr gwylliw, Gwraic wendroed; kans y gwr ar wraic y sydd anedic, ac yssydd gwbl ac yssydd yn perchennogi ar y troed ar llaw, y rrai yssy rannau or kwbl; a iawn yw ir kwbl gael y veistrolaeth. Yr ail yw ffugr (Synechdoche) arddangos yr honn a esgusota dros unig a lliosawc; ssef vydd honno pann vo y kwbl yn unig ar rrannau yn lliosawc, ac velly dwyn y rann at y kwbl val hynn; Gwr llygeitdu, Gwraic wenn i dwylaw. Y drydedd yw ffugr (Evocatio) ymoralw, ar ffugr honno a esgusota dros Wydd ac Apssen, wrth roi y naill berason at y llall val y mae; Mi yw'r gwych; neu, Ti yw'r gwr gwych. Ac yn iawn ymadrodd diesgus, val y mae, Myvi wyf vi. Tydi wyt ti, Evo yw'r gwr gwych. Y bedwaredd Ffugr yw (Apheresis) Torr penn gair, a honno a yrrha rai or geiriau, val y mae; Tec yw d'wyneb, ac yn ddiesgus, Tec yw dy wyneb. Y Ffugrs eraill a dynnwyd or Lladin ac or Groec. Nid anghenrhaid imi wrthynt, kans yn Ffugrs ni yw moddion prydyddiaeth, ssef yw hynny esgussion drwy awdurdod o waith Beirdd kadeiriawc neu yr athrawon penkerddiaidd a vuont or blaen; a phennillion o gerdd y rreini yw yn gwarant an arddelw ninnau i ganu yn i hol; kans nid yw Ffugrs hwyntau yr ieithoedd eraill ond yn ol gwaith awduriaid oi hiaith or blaen. Tri gwarant y ssydd i ymadrodd, nid amgen: Llythr, Lliaws, ac Arfer; ac nid gwarant, kam arfer.

Llyma yr ugain peth kynwyssedic a berthynant ar bennill o gywydd deuaire hirion; Messur, Ssynnwyr a Chynghanedd; pump gorffwyssva yssydd mewn kynghanedd ymhob ssildaf or gyntaf hyd y chweched y gellir gorffywys. Pedair gorffwyssva yssydd mewn pennill; un yn y kynganeddion; un yn yr amsseroedd, un yn y perssoniaid, ac un yn yr awdl. Dwy orffwyssva a vydd yn y perssoniaid yn kyflawni. Tair gorffwyssva yn yr amsseroedd i ddangos i ssynnhwyran, ai rrannau. Tri braint y sydd i bennill o Gywydd penkerddiaidd; dysgyblaidd ac isselradd neu dinkerddiaidd.

Kans or ymadroddion perffaith kyflawn y bydd mydr neu brydiad; wrth hynny rraid yw gwybod beth yw mydr neu brydiad. Mydr neu brydiad yw kyfansoddiad ymadroddion perffaith kyflawn, a dekaer o eiriau gwann, ardderchawc, addwyn, addurn, a arwyddokaant moliant neu ogan, a hynny ar gerdd davawd gamoledic.

Raid yw gwybod bellach pa ffurf y dilyer moli pob peth or y pryter iddaw; a pha bethau y dilyer brydu iddynt. Deuryw beth y dilyer brydu iddynt, nid amgen; peth ysbyrdawl nefawl, a pheth korfforawl bydawl; peth ysbyrdawl nefawl, megis Duw a Mair ar

Saint, ar Engylion ; peth korfforawl bydawl, megys Dyn, neu lwdu neu gyfle.

Duw a volir o achos i vod yn greawdr holl gyfoethawc ac yn dad ysbrydawl i bob creadur, ac yn drugarawc hael, a holl daeoni, a holl doethineb, a holl allu a meddiant yr holl vdyssawdd gantaw, ai vod yn wynnvydic, ac yn vawr vrydus, ac yn vrenhin nef a dayar ac uffern, ac a ssanteiddrwydd, a chreadigaeth, a thadoliaeth a maboliaeth, ac ysbrydolder, ac un dwywolder ac anrhydedd heb drank heb orffen, Amen.

Mair i vam a volir o achos i morwynawl weryndawd ai ssanteiddrwydd ai glendid buchedd, ai thegwch, ai gogoniant, ai haelder, ai hanrhydedd, ai doethineb, ai hufuddawd ; ac oi bod yn vam y drugaredd, ac yn vrenhines nef a dayar ac uffern ; a haeddu o honai ymddwyn yn i gweryndawl groth kreawdr hollgyfoethawc y creaduriaid oll, ai bod yn wry kyn esgor ac wedy esgor.

Y Saint ar Engylion a volir o achos eu glendyd ai ssanteiddrwydd, ai gwrthiau, ai rrinweddan, ai nefolion weithredoedd, ai ddwyawwl ogoniant, ac o eu bod yn wassanaethwyr ir hollgyfoethawc Amherawdr y Brenhinoedd ; ac o nefolion bethau eraill anrhydeddus.

Deuryw ddyn a volir, nid amgen ; Gwr a Gwraic. Deuryw wr a volir, nid amgen, Ysgolhaic a Lleyc. Deuryw Ysgolhaic a volir, nid amgen, Gwr eglwyssic, a Gwr bydawl. Deuryw wr eglwysic y ssydd, nid amgen, Gwyr eglwys vydawl a chrefyddwyr. Deuryw eglwyswyr bydawl yssydd, nid amgen ; Pab, neu Gardinal, neu Esgyb, neu Archessgyb, neu Archddiagoniaid, neu Ddeaniaid, neu Offissialyaid o Breladiaid ; a Ddarostyngedigyon, val Perssonyaid a Bikaryaid ac Offeiriyaid ac Ysgolheigyon eglwyssu.

Preladiaid a volir oi saneteiddrwydd ai glendyd buchedd ai trugaredd wrth weinyaid ai helussenau, ai kadernyd yn kynal kyfreithiau yr Eglwys ai breinyau, ac o bethau eraill ysbrydoliu anrhydeddus ; a meddylier yn hysbys voli pawb yn i radd i hun ac yn i ragorfraint.

Darostyngedigion a volir oi haelioni ai bonedd ai buchedd devodau, ai helussenau ai hanrhydedd ai doniau, ac o bethau eraill addfwyn.

Deuryw grefyddwyr y ssydd, nid amgen ; Preladiaid val Abadau a Phrioriaid, Darostyngedigion val Brodyr a Menych, a Chrefyddwyr eraill.

Preladiaid kreyddwyr a volir megys Preladiaid eraill, ac i gyda hynny oi kreydd, ai buchedd, ai Santeiddrwydd, ai dwyolion wassanaethau, ac oi nefawl ai hysbrydawl gariad ar Dduw, ac o gyfiawn lywodraeth ar i ddarostyngedigion grefyddwyr eraill, ac

oi hystadau eglwysic, ai doethineb, ai kyflawnder yn kynnal kyfreithiau yr Eglwys ai chymediwiau ; ai trugaredd wrth reidussion a thlodion, ai gweddiau, ai gweithredoedd ysbrydolion, ai haelioni yn kynnal llysoedd a phethau eraill ysbrydolion, anrwydeddus klodvawr yn ddiordwac, ddibechadurus ; ac o bethau eraill perthynassol voliant.

Krefyddwyr eraill darostyngedigion a volir oi hufudd-dawd, ai darostyngedigrwyd i Dduw, ac yw Preladiaid, ac o bethau eraill nefolion ysbrydawl.

Deuryw Ysgolheigion bydawl ysydd, nid amgen, Athrawon, a Dysgyblion.

Athrawon a volir oi kelfyddydau ai gwybodau, ai uchelder natur, a chyfreithiau, a blaenwydd kanon a buddugoliaethau yn ymrysonau, a doethineb ar ovynnau a gollyngau drwy athrylith a chelfyddodau a dosbarth.

Dysgyblion a volir oi dysg ai hethrylith a gwybodau ai haddwynder, ac oi bod yn ddefnyddiau gwyrda.

Deuryw leyc a volir, nid amgen ; Arglwydd ac Uwchelwyr.

Arglwydd megis Brenhin neu Amherawdr neu Dywysawc, neu Yarl, neu Varwn, neu Bennaeth arall a volir oi gadernyd, ai ddewredd, ai vilwriaeth, ai allu ar wyr a meirch, ac arfau, a chyfoeth, a thraul, ai ddoethineb, ai gymhendawd yn llywyaw gwlad a theyrnas ; a chreulonder wrth i elynion ; a gwarder a hygarwch wrth i wyr ai gyfeillion ; a haelioni rroddion a gwleddau, a mawrvryd gweithredoedd a digrifwch, a bonedd ; a thegwch pryd a gwedd, ac addurnyant gwisgoedd, ac aur neu a thlyssau, a mawrvrydussion vedylliau, a gwroliaeth gweithredoedd a phethau eraill addwyn anrwydeddus.

Uchelwr a volir oi ddewredd ai gadernid, ai vilwriaeth, ai bryd, ai vonedd, ai addwynder, ai haelioni, ai ddigrifwch, ai ddoethineb ai gymhendawd, ai wrdahaeth, ai gynnhalyad, ai gyvoeth ai vawrvrydus weithredoedd, ai wladwriaeth ; ai gywirdeb o air, a gweithred, a meddwl wrth i arglwydd.

Tri rryw wraic a volir, nid amgen, krevyddwraic, a gwreic dda, a morwyn ievank rianaidd.

Krevyddwraic a volir o ssancteiddrwydd a diweirdeb a glendyd buchedd, a chrefydd a glendyd morwyndawd, air a meddwl, a gweithred ; ac o nefawl gariad ar Dduw ; a phethau eraill ssantaid ysbrydawl, megys y molir krevyddwr.

Gwreic dda o arglwyddes, neu uchelwraic a volir o bryd a gwedd, thegwch ac addwynder, a digrifwch ac haelioni, a lledneisrwydd a doethineb, a chymhendawd, a diweirdeb, a dissymlder, ymadroddion ; a phethau eraill ardderchawc, addwyn kanmoladwy ;

ac ni pherthyn prydu i wreigdda herwydd sserch a chariad, kann ni pherthyn iddi gordderchgerdd ; ac o bydd sswyddoc i gwr ef a ellir prydu iddi ac yw gwr herwydd braint y sswydd.

Morwyn ievank reinaidd a volir o bryd a gwedd a thegwch, a diweirdeb a morwyndawd, a rreinaidd ledneissrwydd, a chwrtteis-srwydd, a boneddigeiddrwydd, a hygarwch, a dissymlrwydd, a haelioni ac addvwynder, ac eglurder klod, a devodau da, a sserchowgrwydd, a gwychder ; ac iddi y perthyn prydu herwydd sserch a chariad, a rrieingerdd ; ac val hynny yn yr vol y molir mab ievank sserchawc.

Ni ddily prydydd vod yn oganwrr a gwneuthur sswydd klerwr ; kans swydd prydydd yw moli, ni ddily oganu neb, nes rroi brovi dair gwaith ; ond tewi ai voli a ddichon ; ef a ddichon vod yn deuluwr kans sswydd dysgybl yw.

Dewiniaeth a sswynau ac ofergerdd a chroessanaeth ni pherthyn ar brydydd, Ystoriau ysgriven ac ymddiddanau kyfannedd ; ac odidogion ovynnau, ac atebion a berthyn ar brydydd i ddigrifhan llysoedd ac i ddiddanu gwyrda a rrianedd, ac i ymddiddan a doethion ; kans rran o ddoethineb annianawl yw prydyddiaeth, ac ethrylith ; kans o un or ssaith gelvyddydd yr henyw, ac awen a henyw or ysbryd glan.

Llyma y kampau ysbrydolion a berthyn ar brydydd ; Ufudd-dawd, Haelioni ; Diweirdeb, Kariad perffaith, Kymhedrolder bwyd a llyn, Amynedd dda, a dilesgrwydd ; y rrai hynn yssydd wrthwyneb ir ssaith bechod marwol, nid amgen ; Balchder trahaus, Anghywirdeb, Godineb, Kynghorvynt, Glothineb, Llud, a llessgedd ; y rrai a lygrant yr awen ac a laddant yr enaid.

Tair kaint yssydd o Gerdd davawd, nid amgen ; Klerwriaeth, a Teuluwriaeth, a Phrydyddiaeth.

Tair kaint a berthynant ar glerwriaeth, nid amgen, Ymssennu, a dyvalu gair tra gair, a danwarded.

Tair kaint a berthynant ar Deuluwriaeth, nid amgen ; Testyn-jaw a dyvalu gwers tragwers yn deuluaidd araf, a gordderchgerdd deuluwraidd drwy eiriau ymwys.

Tair kaint a berthynant ar brydyddiaeth, nid amgen Kywyddau, Ynglynnion, ac odlau kerddwriaidd, anhawdd eu kanyad ai dychymir.

Tair enaid kerdd yssydd, nid amgen ; Messur, Synnwyr, a Chyng-hanedd.

Tri thwyll y ssydd ar Gerdd, nid amgen ; Twyll gynghanedd, Twyll awdl, a Thwyll gymeriad.

Tri bai kyffredin yssydd ar Gerdd ; Torr Messur, dryc Ystyr, a cham Ymadrodd.

Tri thorr messur yssydd ; hir, a byrr, a thwyll yn yr awdl.

Tri rryw ddryc ystyr y ssydd ; Kamm ddychymic, Amherthynas, ac eissiau enaid.

Tri cham ymadrodd yssydd ; Unic a lliosawc i gyd, Gwrw a banw i gyd, a Gwydd ac apssen i gyd.

Tri amherthynas kerdd ; Moliant a gogan i gyd, Rwy ac eissiau i gyd, ac eissiau Berf.

Tair rran ymadrodd yssydd ; Henw, Rac henw, a Berf.

Tri Byw ymadrodd yssydd, ymadrodd perffaith, Ymadrodd kyf-iawn, ac ymadrodd addurnedic.

Tri rrann Prydyddiaeth yssydd ; Silldaf, Gair, ac Ymadrodd.

Tri bai gwahanredawl yssydd ar Gerdd davawd. Prost ac un-awdl i gyd. Lleddf a Thalgron i gyd, Trwm ac ysgafn i gyd.

Tri bai gwahanredawl eraill yssydd ar ynglyn unawdl ; Karn ymorrdiwes, Tin App, a Dryc ossodiad ; sef achos y gelwir hwynt yn veiau gwahanredawl neu gwahanedic, am eu bod yn rryw van-nau yn veiau, ac mewn mannau eraill heb vod.

Tri pheth a berthyn ar wr wrth gerdd davawd, Kerdd, a Chof, a Chyfarwyddyd.

Tair kaink yssydd ar Gerdd davawd, Kywyddau, Ynglynion, ac Odlau.

Tri chof y ssydd ; Iachau, Arfau, a Rhandiredd.

Tri chyfarwyddyd yssydd ; Hengerdd, Ystoriau, a Barddoniaeth.

Tri pheth a berthynant ar Glerwriaeth ; Goganu, Ymbil, a Gwarthruddaw.

Tri pheth a berthynant ar Deuluwriaeth, Haelioni, Digrifwch, ac Emynhaedd ; neu ervyn da yn deuluaidd.

Tri pheth a berthynant ar Brydydd ; Klodvori, Digrifhau, a Gwrthwynebu gogangerdd.

Tri pheth a hoffant gerdd ; Dyfnder Ystyr, Odidawc Veddl, ac Awdurdawd y Prydydd.

Tri pheth a anhoffant gerdd ; Baster ystyr, Sathredic ddychymic, ac Anurddas y Prydydd.

Tri pheth a gyweiriant gerdd ; Addurn gyfansoddiad ymadrodd-ion, Amllder Kamberaec, a dychymygvawr gerddwriaeth.

Tri pheth a urddant gerdd ; Deheurwydd neu huawdlrwydd parabl, Awdurdawd y prydydd, a chyfarwyddiaid a wypant varnu.

Tri pheth a annurddant Gerdd ; I ddatganu yn annamsser heb i govyn, I chanu yn amherthynas ir neb nis dylai, ac eissiau kerddwyr a wypynt varnu ar gerdd.

Tri pheth a amlhaant awen kerddawr, Hengerdd, Barddoniaeth, ac Ystoriau.

Tri pheth a bylhaant awen ; Anghyfarwyddyd, Angherddwriaeth, ac Anghammawl.

Tri pheth a lwgr awen oll, Tra meddwdawd, Tra godineb, a thra ysgymundawd.

Tri pheth a ddily kerddor eu gochel ; Llynnu neu ddiota, Puteinia, a Dissio neu dablara.

Tri pheth a ddily kerddor eu kanmol ; Haelder, Digrifwch, a Cherddwriaeth.

Tri pheth a ddistrywia kerddor ; Noethi, ac anghydvadnabod ac Anghanmawl.

Tri pheth a vawrhaant gerddor, Gwisgoedd, Kyvadnabod a Chanmawl.

Tri pheth ni chyngain mewn kerddor ; Anwadalwch, Ysmalhawch, a Angherddwriaeth.

Tri gwarant kerdd ; Kerddwriaeth, a Hengerdd, a Meddwl da.

Tri pheth y kae kerdd arnynt heb vyned yn eu herbyn ; Hengerdd yr hen gerddorion. Dychymig vawrgyweindeb y prydydd newydd, a chelfyddyd o gerddwriaeth na aller myned yn i herbyn.

Tri pheth ni ddily kerddor eu kredu yn hawdd lle pryto prydyddion, Gogan kler, Kam ganu o benkerdd kamoledig, A pheth ni allo bod herwydd doethineb.

Tri pheth a ddily kerddor eu gwneuthur ; Iawn ganu, Iawn ddysgu, Ac iawn varnu.

Tri pheth ni ddily kerddor eu gwneuthur oi vodd ; Kam ddyagu, Kam varnu, a goganu yn ddiachos.

Tri pheth a lawenha kerddor ; I ganmawl, a gwarandaw i gerdd yn ganmoledic, a Roi rroddion iddaw.

Tri pheth a goddant, neu a ddigiant gerdder, ac ai tristhaant ; I amherchi, a goganu i gerdd, ai nakhau.

Tri gwarthrudd kerdd ; I hanghredu, I goganu, ai chamvarnu.

Tri anhepkor kerdd ; Eglur barabl, Hydereofn, A cherddwriaeth.

Tri pheth a gyweiriant gerdd, ac ai teilyngant ; Ehedrwydd, neu huawdlrwydd parabl, Kywrandeb ssynwyr ac anianawl ddyall.

Tri pheth a anghyweiriniant gerdd neu ymadrodd ; Pwl ddatkaniad, ac anghywraind ssynwyr, ac anystyriol ddyall y parablwr.

Tri pheth ni ddylu kerddor i haddef ; Kyfrinach, a Chywilydd Kydymddaith, a Chelwydd argyweddedic.

Tri pheth ni ddily kerddor eu kelu, Barn iawn ar Gerdd, a Gwir diwaradwydd, a Chlod dyledus.

Tri pheth anwedus ar Gerddor ; Ffrost, a gogangerdd, a Chroesanaeth.

Tri pheth a ganmolant Gerddor ; Haelder, a Digrifwch, a Devodu da.

Tri pheth a waradwyddant Gerddor ; Kybyddiaeth, Gwladeidd-rwydd, a dryc ddevodau.

Tri pheth a ganhiedir i Gerddor ; Klodvori pawb, Barn gyflawn, a Diddanwch.

Tri pheth a bair karu Kerddor ; Kytundeb, Kynhilarwydd, a chlodvori Dynion.

Tri pheth a bair kashau Kerddor ; Anghynnilarwydd, Anghytundeb, a Goganu Dynion da.

Tri ffrwythlawn Gerddor ; Prydydd, Bardd, ac Ystoriawr.

Tri over Gerddor ; Klerwr, a Bardd y blawd, a Hudol.

Tri pheth a wna ffrwythlawngerdd ; Diddanu meddwl, Gwellhau kof ac ethrylith, a distrywio dryc veddyliau.

Tri pheth a wna overgerdd ; Methu, a Llygru ssynwyr, A mwyhau pechod.

Tri growndwal; doethineb Ievengtyd i ddysgu, Kof i gadw, a Synnwyr i ddyall.

Tri chyweirgorn kadwedic kerdd davawd ; Kalon i veddyliaw, Keudawd i gadw, a thavawd i draethu.

Tri pheth a ddyly vod ar voliant Gwr, klod, gweddi, a chyngor.

Tri pheth a ddyly vod ar ovyngerdd ; Dissyf, Dyfol, a Diolch.

Tri pheth a ddyly vod ar varwnad ; Argyllaeth, Kwynvan, a Dyhuddiant.

Tri pheth a ddyly bod ar ogangerdd, pe perthyn i benkerdd i gwneuthur ; Edliw, Difenwi, a Regu.

Tri pheth a ddyly bod or rieingerdd ; Moliant, Serchowgrwydd, a Chariad.

Tri rryw brifgerdd yssydd ; Kerdd davawd, a Cherdd dant, a Cherdd vegin.

Tair prifgerdd davawd yssydd ; Prydu, Datganu, a chanu gan dant.

Tri phrifgerdd prydyddiaeth yssydd : Gwengerdd, Rieingerdd, a Unbenngerdd.

Tair kaink y ssydd ar gerdd davawd * * *

Tair rran kerdd y ssydd ; Silldaf, Gair, ac Ymadrodd.

Tair rran Silldaf y ssydd ; Llythyren, ac Amsser, ac Akenn.

Tair rran Gair yssydd ; Llythyren, Silldaf ac amsser.

Tri rryw Llythyren y ssydd ; Bogal, Llythyren Vud, a Llythyren dawdd.

Tri rreolaeth Silldaf, ei Hyd, ai Phwys, ai Natur.

Tri pheth a berthyn ar gynghanedd groes ; Kyd ateb, Kynfnewid, a Gorffwyssva.

Tair rran iaith yssydd ; Rann veddyliedic, Rann ddywededic, a Rann Yagrifenedic.

Ffynydd neu Tervyn y pumed Llyfr Kerddwriaeth.

Angchwanegiadau,

Tri chodiad Serch ysydd, Cae, a chusan, ac annerch.

Tri ymlyniad serchog, Haelioni, a Digrifwch, a Syberwyd.

Trywyr y kyngain serch arnun, Gwr digrif diwladaidd, a gwr hael dewr, a Gwr bonheddig teg.

Trywyr ni chyngain serch arnun, Gwr hagr gwladaidd, a Gwr llwrf bocсахus, a Gwr kybydd tlawd.

Tri hyborth serchoc, Hirnos dawelsech, a Drws tawelddor, a Thylwyth kysgadur.

Tri anhyborth serchoc, Nos verr lawoc, a Dor wichiedic, a gwrach anhunoc ymgeingar.

Trri anhepcor serchoc, llygaid i wilio, a Thavod i wadu, a chydymaith i esgusodi.

Tri hydyb serchoc, over Eiriau bocсахus, a mynych olygon, a llawer o Lateion.

Tri didyb serchoc, un Gennad gywir, ac anvynych gyvedd.

Elasoes pwy'r oesawr Iesu
Yw'r oesawr Ior mawr y mi
Ai lyssoedd lwysiad lessu
Heb laesiad dad rhad Duw tri. Simwnt Vachan.

Ynglyn or pum prif Gynghanedd.

Simwnt o Thelwal sy omer ssoniant
Synnwyr tri Philosopher
Salmon ddisalw i galwer
Siob o wraidd pob sobrwydd per.

Dymchwelawdl a vessurir o ugain Silldaf, pump pennill byrrion o bedair Silldaf bob un, ar ddau gyntaf yn unawdl un gyfochr ar ddau eraill yn ymrafaelio odl, ac yn unawdl un gyfochr hwyntau yll dau; ar pennill diwaetha yn dychwelyd adref yn unawdl un gyfochr ar ddau gyntaf; ar ail bann yn kynghaneddu ar trydydd, ar pedwerydd yn kynghaneddu ar pumed val hyn;

Y gwr gorau
Ymric iorau
A mawr giried
I air gwiried
Ai ragorau. Simwnt Vachan.

Heulwawr hy olau hoylwiys,
Win heiliaw, hael iawn heb berau
Heulwen Pywys.

Simwnt Vachan ai kant y Pennill a dau or pedwar messur ar hugain yn un.

Eto y mae llawer o bethau ar ni ddoeth kof eu traethu or blaen ac yssydd angenrheidiol ssoniaw am danynt.

Pa ssawl lle y rhoir y llythyren honn; F, ynniwedd gair yn ol bogal? Tri lle, nid amgen; Kyssevin bersson neu y bersson

gyntaf oi verf, val hynn ; af, karaf, neu wyf, karwyf ; yr ail yw ar ol gair yn kyrchu at ei liaws, neu at ei amlhaad ; val Tref, Trefydd, kryf, kryfion ; haf, ac at i amlhaad, val y mae ; hafaidd. Y trydydd yw ar ol Suparlliaid radd, val y mae ; Tekaf, Haelaf, Glanaf. Eithr ar ol y gair hwnn, gorau, ni roir dim honi.

Gwenvun gwynvawr	geinvwyn	gynvyl	_____
Gariad gweryl	giried	gorau	_____
Gwirvudd gyrvau	gorvydd	gweurvyl	_____
Goruc eryl	gwiw	ragorau	_____

Llyma'r achos y kavas kadwynn vyrr i henw, am vod y vodrwy gyntaf or gadwyn heb gyd odli yn gayad, val y mae y lleill ; Eithr er hynny y mae y bann olaf or vodrwy honno yn ateb ir brifawdl heb gyfochri, ac i ddangos hynny y mae y vodrwy heb i gwasgu ynghyd, a Dafydd ap Edmwent a wnaeth y messur hwnn gyntaf ; ac ar ei varwnad ef y kanwyd y pennill hwnn ;

Kanu oedd well kynn i ddwyn
Klymu gwawd kwlm y gadwyn.

Mewn ymadrawd y mae tair Rann, nid amgen, Enw, Gair, a Llef ymgyffred.

Pa beth yw Enw ?

Rann o ymadrodd a ellir ei deimlaw, i weled, i glywed, neu i ddyall, megys, Llaw, enw yw ; Ty, enw yw ; Daeoni, enw yw. Ac or enwau rrai ynt ffyrion, rrai ynt Ddodiaid. Enw ffyrf a saif i hunan heb ddodi llef arall ynghysslwt ac ef, val y mae ; Dyn, Maen, Athrawiaeth. Enw Dodiad yw yr hwnn ni ddichon ssevyll i hunan heb ddodi llef arall ynghysslwt ac ef, val y mae ; Da, Drwc, Tec, Hagr. Or enwau Dodiad rrai a dreiglir yn ddau vannoc, val y mae ; Gwynn, Gwen, Kryf, Kref. Eraill ni threiglir, val y mae ; Coch, Glas ; Enw ffyrf yssydd y naill ai yn enw priodol ir peth a arwyddocao, val y mae ; Simwnt, Hafren ; neu yntau yn gyffredin i vwy, val y mae ; Dyn, yr hwnn a wasanaetha yn gyffredin i holl hil Addaf. Pa ssawl nifer ssydd i enw ? Dau, nid amgen ; unic a lliosawc ; y nifer unic a ymadrodd am un peth, val y mae ; Llyfr ; y niver Lliosawc a ymadrodd o vwy noc un, val y mae ; Llyfrau. Pa ssawl dychwel ssydd i Enw ? Dau, ssef y dychwel unigol ar dychwel lliosoc ; Y dychwel unigol, val y mae ; Brenhin ; ar dychwel lliosawc, val y mae ; Brenhinoedd. Pa ssawl bann yssydd i enw ? Hwnn, Honn, Hynn. Passawl Ryw yssydd i enw ? Pump, nid amgen ; y Gwryw, y Banw, y Kyffredin ryw, y Ryw Nidrol, ar Ryw Ambeuus ; Y gwrrw a ssonia am y rrywogaeth bennaf, val am Wr ymhlith Dynion, March ymlith Keffylau, a Tharw ymhlith Gwartheg. Y Ryw Banw a ssonia yn vynyachaf am gymar y Gwrrw ac weithiau mewu modd arall. Y

